



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales

Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings

Dydd Mawrth, 17 Ionawr 2012
Tuesday, 17 January 2012

Cynnwys
Contents

3	Datganiad gan y Llywydd Statement by the Presiding Officer
3	Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister
34	Cwestiwn Brys: Peacocks Urgent Question: Peacocks
38	Datganiad a Chyhoeddiad Busnes Business Statement and Announcement
42	Pwynt o Drefn Point of Order
42	Datganiad: Ysgolion ar gyfer yr Unfed Ganrif ar Hugain Statement: Twenty-first Century Schools
56	Datganiad: Cwrdd â'r Her Tai: Creu Consensws ar gyfer Gweithredu Statement: Meeting the Housing Challenge: Building a Consensus for Action
74	Creu Cymunedau Mwy Diogel i Bawb—Gwella Ansawdd Bywyd i Bobl Cymru Creating Safer Communities for All—Improving the Quality of Life for the People of Wales
101	Polisi Cynllunio ar gyfer Datblygu Economaidd Planning Policy for Economic Development
125	Cyfnod Pleidleisio Voting Time

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were
spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

Datganiad gan y Llywydd Statement by the Presiding Officer

The Presiding Officer: Prynawn da. This morning, I was delighted to welcome Samantha Hales from Cardiff as the millionth visitor to the Senedd. Since it was opened by Her Majesty the Queen on St David's Day 2006, the Senedd has become an iconic building, which attracts visitors and admirers from all over the world; that is not the Members, but the building. *[Laughter.]* I am sure Members will join me in extending a welcome to all our visitors—past, present and future.

Y Llywydd: Prynawn da. Y bore yma, roeddwn yn falch iawn o groesawu'r miliynfed ymwelydd i'r Senedd, sef Samantha Hales o Gaerdydd. Ers i'r Senedd gael ei hagor gan Ei Mawrhydi'r Frenhines ar Ddydd Gŵyl Dewi 2006, mae wedi dod yn adeilad eiconig, sy'n denu ymwelwyr ac edmygwyr o bob cwr o'r byd; nid yr Aelodau sy'n gwneud hynny, ond yr adeilad. *[Chwerthin.]* Rwyf yn siŵr y bydd yr Aelodau'n ymuno â mi wrth estyn croeso i bob un o'n hymwelwyr—yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Polisi Amgylcheddol

1. Russell George: *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer polisi amgylcheddol yn ystod y chwe mis nesaf. OAQ(4)0306(FM)*

The First Minister (Carwyn Jones): Our environmental priorities are set out in the programme for government.

Russell George: At the start of Big Energy Week, and on the back of figures published by Citizens Advice Cymru yesterday, improving household energy efficiency, particularly in rural Wales, is vital over the coming months. As the Minister for Environment and Sustainable Development has already publicly said, tackling fuel poverty is a complex problem, and is one which no single organisation or Government can resolve in isolation. Therefore, what are your Government's plans to support the introduction of the UK Government's Green Deal policy in Wales?

The First Minister: We are already ahead of

Environmental Policy

1. Russell George: *Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's priorities for environmental policy in the next six months. OAQ(4)0306(FM)*

Y Prif Weinidog (Carwyn Jones): Mae ein blaenoriaethau amgylcheddol wedi'u nodi yn ein rhaglen lywodraethu.

Russell George: Ar ddechrau Wythnos Fawr Ynni, ac o ystyried ffigurau a gyhoeddwyd gan Cyngor ar Bopeth Cymru ddoe, bydd gwella effeithlonrwydd ynni yn y cartref, yn enwedig yn y Gymru wledig, yn hanfodol dros y misoedd nesaf. Fel y mae Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy eisoes wedi'i ddweud yn gyhoeddus, mae mynd i'r afael â thlodi tanwydd yn broblem gymhleth, ac yn un na all unrhyw sefydliad neu Lywodraeth unigol ei datrys ar eu pen eu hunain. Felly, beth yw cynlluniau eich Llywodraeth i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Fargen Werdd, sef polisi Llywodraeth y DU, yng Nghymru?

Y Prif Weinidog: Rydym eisoes ar flaen y

the game. Our fuel poverty strategy looks to eradicate fuel poverty by 2018, and our funding programmes, Nest and Arbed, improve the energy performance of homes in Wales. Many people have benefited over the years from Arbed particularly, through lower fuel bills, and it has had a positive impact on climate change.

Christine Chapman: First Minister, I welcome the important measures that we have taken to improve the environment of Wales since the establishment of the Assembly. However, I would like to focus on the greening of former industrial sites. You will know that I am concerned about the Phurnacite land in my constituency. I am pleased about the work that has already taken place, but there is still much more to be done. Will you give an assurance today that you will continue to work with the local authority to finish this important environmental project, which will be critical to the future regeneration of the area?

The First Minister: Yes. The proposals for the Phurnacite site are now adopted in Rhondda Cynon Taf's local development plan. It will be a mixed-use development, comprising of a river park and an open recreation space, and the remnants of the former industrial process will be removed in order to create those uses and to enhance the existing ecology of the site.

Yr Arglwydd Elis-Thomas: A dilyn yr ateb a roddwyd i Russell George yn gynharach, Brif Weinidog, a fydddech yn derbyn bod ceisio gweithredu yn erbyn tlodi tanwydd yn flaenoriaeth angenrheidiol sydd yn ateb anghenion cymdeithasol yn ogystal ag anghenion amgylcheddol? O ystyried y ddatl a gawsom ar ddiwedd y tymor y llynedd, a all Llywodraeth Cymru yn awr gyhoeddi y byddwn yn symud ymlaen ymhellach i hyfforddi a darparu'r llafurlu angenrheidiol achrededig ar gyfer delio â'r mater hwn?

Y Prif Weinidog: Byddwn yn sicrhau bod tlodi tanwydd yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth. Yr ydym wedi sicrhau bod cynlluniau Nyth ac Arbed ar gael i bobl, ac yr ydym yn awr yn rhoi cynllun ar waith i fynd ag Arbed i'r cam nesaf.

gad. Nod ein strategaeth tlodi tanwydd yw dileu tlodi tanwydd erbyn 2018, ac mae ein rhaglenni ariannu, Nyth ac Arbed, yn gwella perfformiad ynni cartrefi yng Nghymru. Mae llawer o bobl wedi elwa ar y rhain dros y blynyddoedd, yn arbennig o ran rhaglen Arbed, a hynny o ganlyniad i filiau tanwydd is, ac mae wedi cael effaith gadarnhaol ar y newid yn yr hinsawdd.

Christine Chapman: Brif Weinidog, rwyf yn croesawu'r mesurau pwysig rydym wedi'u cymryd i wella amgylchedd Cymru ers sefydlu'r Cynulliad. Fodd bynnag, hoffwn ganolbwyntio ar y broses o wneud hen safleoedd diwydiannol yn fwy gwyrdd. Byddwch yn gwybod fy mod yn pryderu am dir Phurnacite yn f'etholaeth. Rwyf yn falch o'r gwaith sydd wedi'i wneud yn barod, ond mae llawer mwy i'w wneud. A wnewch chi roi sicrwydd heddiw y byddwch yn parhau i weithio gyda'r awdurdod lleol i orffen y prosiect amgylcheddol pwysig hwn, a fydd yn hanfodol o ran adfywio'r ardal yn y dyfodol?

Y Prif Weinidog: Gwnaf. Mae'r cynigion ar gyfer safle Phurnacite wedi'u mabwysiadu bellach yng nghynllun datblygu lleol Rhondda Cynon Taf. Bydd yn ddatblygiad defnydd cymysg, sy'n cynnwys parc afon a maes hamdden, a bydd gweddillion yr hen broses ddiwydiannol yn cael eu symud oddi yno fel y gellir defnyddio'r safle yn y fath fodd ac i wella ecoleg bresennol y safle.

Lord Elis-Thomas: Following on from the reply given to Russell George earlier, First Minister, would you accept that trying to take action against fuel poverty is a necessary priority that meets social as well as environmental needs? Given the debate that we had at the end of term last year, is the Welsh Government now able to announce that we will progress further to train and provide the accredited workforce that is necessary to deal with this issue?

The First Minister: We will ensure that fuel poverty is a priority for the Government. We have ensured that the Nest and Arbed schemes are available to people, and we are now putting in place a scheme to take Arbed to the next phase.

Eluned Parrott: First Minister, many canals and reservoirs have enormous value as wildlife corridors and as recreational areas in local communities for sports such as sailing and fishing. Will you agree to make it an environmental priority for the next term to protect valuable waterscapes, alongside valuable landscapes and valuable buildings, for the communities they serve?

The First Minister: Absolutely. We want to ensure that we protect the environment in all its forms.

Joyce Watson: Scraping the ice of the car this morning, my thoughts immediately turned to the many people who will be thinking about keeping their homes warm and wondering how they are going to pay for that. First Minister, will you confirm that the Welsh Government will not follow the disastrous example of the Westminster Government, which, rather than helping those struggling to keep their homes warm, is going to cut by 90% the number of people getting help to insulate their homes? Do you agree that this decision blows out of the water its claim to be the greenest Government ever? Will you confirm that we will continue to invest in schemes to reduce energy bills, tackle fuel poverty and reduce carbon emissions?

The First Minister: I will. Fuel poverty is an important issue and one that will continue to be important for many years to come, which is why we are continuing to invest in Nest and Arbed.

Safonau Addysg

2 Simon Thomas: *Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i wella safonau addysg yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig. OAQ(4) 0308(FM)*

Y Prif Weinidog: Mae'r rhaglen lywodraethu yn nodi sut rydym yn bwriadu cyflawni ein hamcan, yn strategaeth tlodi plant Cymru, o ostwng lefel yr anghydraddoldebau presennol yng

Eluned Parrott: Brif Weinidog, mae gan nifer o gamlesi a chronfeydd werth mawr fel coridorau bywyd gwyllt ac ardaloedd hamdden mewn cymunedau lleol ar gyfer chwaraeon megis hwylio a physgota. A wnewch gytuno i roi blaenoriaeth yn y tymor nesaf ym maes yr amgylchedd i ddiogelu dwrweddau gwerthfawr, ochr yn ochr â thirweddau gwerthfawr ac adeiladau gwerthfawr, ar gyfer y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu?

Y Prif Weinidog: Yn sicr. Rydym am sicrhau ein bod yn gwarchod yr amgylchedd yn ei holl ffurfiau.

Joyce Watson: Wrth imi grafu'r rhew oddi ar y car y bore yma, meddyliais yn syth am yr holl bobl a fydd yn meddwl am gadw eu cartrefi'n gynnes ac yn pendroni ynghylch sut y byddant yn talu am hynny. Brif Weinidog, a wnewch gadarnhau na fydd Llywodraeth Cymru yn dilyn esiamp! drychinebus y Llywodraeth yn San Steffan, a fydd, yn hytrach na helpu'r rhai sy'n ei chael yn anodd cadw eu cartrefi'n gynnes, yn gwneud toriadau a fydd yn golygu bod 90% yn llai o bobl yn cael cymorth i inswleiddio eu cartrefi? A ydych yn cytuno bod y penderfyniad hwn yn gwrth-ddweud yn llwyr ei honiad mai hi yw'r Llywodraeth wyrddaf erioed? A wnewch gadarnhau y byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn cynlluniau i leihau biliau ynni, i fynd i'r afael â thlodi tanwydd ac i leihau allyriadau carbon?

Y Prif Weinidog: Gwnaf. Mae tlodi tanwydd yn fater pwysig ac yn un a fydd yn parhau i fod yn bwysig am flynyddoedd lawer, a dyna pam rydym yn parhau i fuddsoddi yn Nyth ac Arbed.

Standards of Education

2. Simon Thomas: *What plans does the Welsh Government have for improving standards of education in our most deprived communities. OAQ(4)0308(FM)*

The First Minister: The programme for government sets out how we intend to deliver our objective, in the child poverty strategy for Wales, of reducing the current inequalities in educational outcomes for

nghanlyniadau addysgol plant sy'n byw mewn tldi.

children living in poverty.

Simon Thomas: Heddiw, derbyniais ffigurau gan wasanaeth ymchwil y Cynulliad sy'n dangos yn glir fod perthynas rhwng ysgolion band 5, sef yr ysgolion sy'n methu, a dalgylch ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, sef dalgylch ardaloedd cynllun Cymunedau yn Gyntaf. Brif Weinidog, gan eich bod wedi derbyn flwyddyn yn ôl nad oedd cynllun Cymunedau yn Gyntaf yn delifro ei amcanion yn llwyr, onid yw'n bryd inni edrych eto ar yr arian sy'n mynd i'r ardaloedd mwyaf difreintiedig i weld a oes modd cydlynu'r arian hwn mewn modd sy'n fwy perthnasol i gyrrhaeddiad ein plant mwyaf difreintiedig?

Simon Thomas: I have today received figures from the Assembly research service that clearly show a relationship between band 5 schools, namely the failing schools, and catchment areas in the most deprived areas of Wales, namely Communities First areas. Given that you, First Minister, accepted a year ago that Communities First was not entirely delivering its aims, is it not time to look again at the funding provided for these most deprived communities, to see whether we can co-ordinate this expenditure in a way that is more relevant for our most disadvantaged children?

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn gweld bod cysylltiad rhwng bandiau ysgolion ac ardaloedd yr ysgolion hynny o ran faint o arian sydd ganddynt. Mae Ysgol Gyfun Treorci ac Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed, er enghraifft, ym mand 1. Mae rhai ysgolion ym mand 5, sef rhai o ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr, sydd â dalgylch sy'n weddol gyfoethog o'i gymharu â rhai rhannau o Gymru. Rwyf yn gweld Cymunedau yn Gyntaf fel cynllun llwyddiannus dros ben, ac rydym am barhau â'r cynllun hwnnw.

The First Minister: I do not see that there is a link between school bands and their areas in terms of how much money they have. For example, Treorchy Comprehensive School and Cefn Hengoed Community School are in band 1. Some schools in band 5, such as some schools in Bridgend, have quite a wealthy catchment area compared with other parts of Wales. I view Communities First as a very successful scheme, and we will continue with it.

Jenny Rathbone: Would the First Minister agree that parents' literacy is an important factor in enabling young children to learn to read and that many people have deplorably low standards of literacy? What is the Welsh Government doing to improve adult literacy in deprived areas?

Jenny Rathbone: A fyddai'r Prif Weinidog yn cytuno bod llythrennedd rheini yn ffactor pwysig o ran galluogi plant ifanc i ddysgu i ddarllen a bod gan nifer o bobl safonau llythrennedd ofnadwy o isel? Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella llythrennedd oedolion mewn ardaloedd difreintiedig?

The First Minister: Flying Start recognises that poor literacy and numeracy are often passed down through a family, especially in our most disadvantaged communities. We know that high-quality pre-school interventions can significantly improve a child's outcomes. This means looking to see what can be done to help adults as well, as they will teach their children.

Y Prif Weinidog: Mae Dechrau'n Deg yn cydnabod bod llythrennedd a rhifedd gwael yn aml yn cael eu trosglwyddo mewn teulu, yn enwedig yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Rydym yn gwybod y gall ymyriadau cyn ysgol o ansawdd dda wella canlyniadau plentyn. Mae hyn yn golygu ystyried yr hyn y gellir ei wneud i helpu oedolion hefyd, gan y byddant yn addysgu eu plant.

Nick Ramsay: First Minister, I am sure that you are looking forward to the Welsh Conservatives' debate tomorrow on the early

Nick Ramsay: Brif Weinidog, rwyf yn siŵr eich bod yn edrych ymlaen at ddadl y Ceidwadwyr Cymreig yfory ar y

years, which will include Flying Start. While my party welcomes that programme, it remains concerned about some of the difficulties in reaching socioeconomically disadvantaged families across Wales. Given the extra funding that has been made available, will you discuss with the Deputy Minister for Children and Social Services how the Welsh Government plans to ensure that Flying Start is best suited to supporting those disadvantaged groups?

The First Minister: The Flying Start scheme has been in place for some time. We are looking to increase the number of families that are able to benefit from it. From examples over the years, we know that the scheme has been exceptionally successful in assisting many families to improve their life outcomes and in raising those families from poverty.

Peter Black: The Government's foundation phase policy is having a huge impact in helping young children to develop and fulfil their potential, and it is a policy that has cross-party support. However, you know that many older schools, many of which are in deprived communities, are not in a fit state to deliver that foundation phase curriculum in full. How will the twenty-first century schools policy be designed to accommodate the needs of the foundation phase? What priority will be given to this aspect when it comes to funding school improvements?

The First Minister: Where a new school is to be built, it will need to include provision for the foundation phase. In some older schools in Wales, there has been a great deal of innovation in providing an outdoor area; for example, in schools that are in urban areas and have buildings that are quite old. We expect any new school to cater fully for the foundation phase if children of that age group are to attend the school.

Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

blynyddoedd cynnar, a fydd yn cynnwys Dechrau'n Deg. Er bod fy mhlaid yn croesawu'r rhaglen honno, mae'n dal yn bryderus am rai o'r anawsterau o ran cyrraedd teuluoedd ledled Cymru sy'n ddifreintiedig yn economaidd-gymdeithasol. O ystyried yr arian ychwanegol sydd ar gael, a wnewch drafod â'r Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sicrhau bod Dechrau'n Deg yn y sefyllfa orau i fwyaf addas i gefnogi'r grwpiau difreintiedig hynny?

Y Prif Weinidog: Mae cynllun Dechrau'n Deg wedi bod ar waith ers peth amser. Ein nod yw cynyddu nifer y teuluoedd sy'n gallu elwa arno. Mae enghreifftiau ar hyd y blynyddoedd wedi dangos inni fod y cynllun wedi bod yn hynod lwyddiannus wrth helpu llawer o deuluoedd i wella'u canlyniadau mewn bywyd ac i godi rhai teuluoedd allan o dlodi.

Peter Black: Mae polisi cyfnod sylfaen y Llywodraeth yn cael effaith fawr o ran helpu plant ifanc i ddatblygu a chyflawni eu potensial, ac mae'n bolisi y mae'r holl bleidiau'n ei gefnogi. Fodd bynnag, byddwch yn gwybod bod llawer o ysgolion hŷn, y mae llawer ohonynt mewn cymunedau difreintiedig, nad ydynt mewn cyflwr addas i gyflwyno cwricwlwm y cyfnod sylfaen yn llawn. Sut y bydd polisi ysgolion yr unfed ganrif ar hugain yn cael ei gynllunio i ddiwallu anghenion y cyfnod sylfaen? Pa flaenoriaeth a fydd yn cael ei rhoi i'r agwedd hon wrth ariannu gwelliannau mewn ysgolion?

Y Prif Weinidog: Pan fydd ysgol newydd yn cael ei hadeiladu, bydd angen iddi gynnwys darpariaeth ar gyfer y cyfnod sylfaen. Mewn rhai ysgolion hŷn yng Nghymru, bu llawer iawn o arloesi o ran darparu man yn yr awyr agored; er enghraifft, mewn ysgolion sydd mewn ardaloedd trefol sydd ag adeiladau sy'n eithaf hen. Rydym yn disgwyl i unrhyw ysgol newydd ddarparu'n llawn ar gyfer y cyfnod sylfaen os bydd plant yn y grŵp oedran hwnnw yn mynychu'r ysgol.

Questions Without Notice from the Party Leaders

The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies): First Minister, before Christmas, I asked you a couple of questions during questions to the First Minister in Plenary in relation to accident and emergency department response times and the four-hour wait that people have. You said that you did not recognise those figures, even though they were on the StatsWales website. I then went on to ask you about the bidding process and the cost of some £20 million to the businesses that take part. That also correlates to the work of the efficiency and innovation board of your Government, but you said that you did not recognise that figure. In December, you wrote to the Prime Minister and said that 50% of Welsh exports go to the European Union, when, in fact, it is 39%, which represents a difference of some £339 million between your figure and the real figure. Do you not think that it is important that when the First Minister either responds to questions or addresses other institutions, parliaments, and our Prime Minister, the figures he uses should be accurate and robust?

The First Minister: It is very important that when previous leaders of the Conservative Party say that they would cut education spending by at least 24%, the current leader acknowledges that that is what was said.

Andrew R.T. Davies: I am not sure how that answer responds to the question that I put to you. If that is the best that you can offer, there really is not much hope for the office of First Minister in Wales. Last week, your Government led an hour-long debate on engagement with the European Union and European programmes. You said in that debate that you thought the Prime Minister's decision was probably right. Those were your words in summing up that debate. Do you not think that it is more important that, as First Minister, you stop the political posturing and engage with people who can make a difference to this country's outcomes?

The First Minister: The view of his party was that the First Minister of Wales—

Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew R.T. Davies): Brif Weinidog, cyn y Nadolig, gofynnais ychydig o gwestiynau ichi yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog yn y Cyfarfod Llawn mewn perthynas ag amseroedd ymateb adrannau damweiniau ac achosion brys a'r ffaith bod pobl yn aros am bedair awr. Dywedasoch nad oeddech yn cydnabod y ffigurau hynny, er eu bod ar wefan StatsCymru. Yna, gofynnais i chi am y broses ymgeisio a'r gost o tua £20 miliwn i'r busnesau sy'n cymryd rhan. Mae hynny'n cyfateb hefyd i waith bwrdd effeithlonrwydd ac arloesedd eich Llywodraeth, ond dywedasoch nad oeddech yn cydnabod y ffigur hwnnw. Ym mis Rhagfyr, gwnaethoch ysgrifennu at Brif Weinidog y DU, gan ddweud bod 50% o allforion Cymru yn mynd i'r Undeb Ewropeaidd, ond, mewn gwirionedd, 39% sy'n mynd iddi; mae gwahaniaeth o tua £339 miliwn rhwng eich ffigur chi a'r ffigur cywir. Onid ydych yn meddwl ei bod yn bwysig bod y Prif Weinidog yn defnyddio ffigurau cywir a chadarn pan fydd yn ymateb i gwestiynau neu'n cyfathrebu â sefydliadau, seneddau, a Phrif Weinidog y DU?

Y Prif Weinidog: Pan fo cyn-arweinyddion y Blaid Geidwadol yn dweud y byddent yn torri gwariant ar addysg o leiaf 24%, mae'n bwysig iawn bod arweinydd presennol y blaid yn cydnabod mai hynny a ddywedwyd.

Andrew R.T. Davies: Nid wyf yn siŵr sut y mae'r ateb hwnnw'n ymateb i'r cwestiwn rwyf yn ei ofyn ichi. Os dyna'r ateb gorau y gallwch ei gynnig, nid oes gobaith mewn gwirionedd ynghylch swydd Prif Weinidog Cymru. Yr wythnos diwethaf, arweiniodd eich Llywodraeth ddadl awr o hyd ar ymgysylltu â'r Undeb Ewropeaidd a rhaglenni Ewropeaidd. Gwnaethoch ddweud yn y drafodaeth honno eich bod yn credu bod penderfyniad y Prif Weinidog yn gywir, yn ôl pob tebyg. Dyna oedd eich geiriau wrth grynhoi'r ddadl honno. Onid ydych yn credu ei bod yn bwysicach eich bod chi, fel Prif Weinidog, yn rhoi'r gorau i'r ymagweddu gwleidyddol ac yn ymgysylltu â phobl a all wneud gwahaniaeth i ganlyniadau'r wlad hon?

Y Prif Weinidog: Barn ei blaid oedd nad oedd gan Brif Weinidog Cymru—pwy

whoever that person is—had no right to put forward a view on Wales's engagement with Europe or, indeed, its place on the international stage. I reject that view utterly and I will continue to represent Wales on the European and world stage.

Andrew R.T. Davies: No-one on this side of the Chamber is denying your right as First Minister to put forward that view. In my first question, I highlighted how you get your facts and figures wrong. In my second question, I indicated to you, from your own words last week in the debate that your Government tabled, that you believe that the Prime Minister was correct to have taken the action that he took, and you said that, had you been in that situation, you would have signed up to the veto as well. I think that your words were that you probably would have followed what the Prime Minister did in that you would not have signed up to it. Is it not time that you engaged with the real issues in Wales, instead of picking fights that are unnecessary and which portray Wales in a very bad light?

The First Minister: I am surprised that the leader of the opposition belittles the Ford workers in Bridgend; I am surprised that he belittles the workers at Tata and the workers at Airbus, because all of these people were extremely worried about what happened at the European Council. They were worried about the impression that was given by the UK that, somehow, we are on our way out of Europe. Yes, I agree with the actions taken by the Prime Minister; I am quite happy to reiterate that. However, what I would not have done is to fail to prepare the ground through the Foreign and Commonwealth Office, which is what happened, nor would I have failed to prepare the ground with countries such as Denmark and Sweden, which was not done, which is why we were isolated, nor would I have come back and spent my time with Eurosceptics who want to see Wales and the UK leaving Europe. That is the mistake made by the Prime Minister, and that was the mistake that I had to rectify.

bynag y bo—hawl i gyflwyno barn ar ymgysylltiad Cymru ag Ewrop neu, yn wir, ei lle ar y llwyfan rhyngwladol. Rwyf yn gwrthod y farn honno'n llwyr, a byddaf yn parhau i gynrychioli Cymru ar lwyfan Ewrop a'r byd.

Andrew R.T. Davies: Nid oes unrhyw un ar yr ochr hon i'r Siambr yn gwadu eich hawl fel Prif Weinidog i gyflwyno'r farn honno. Yn fy nghwestiwn cyntaf, tynnais sylw at anghywirdeb eich ffeithiau a'ch ffigurau. Yn fy ail gwestiwn, dywedais wrthyfych eich bod yn credu, gan gymryd yr hyn a ddywedwyd gennych chi eich hun yn y ddadl a gyflwynodd eich Llywodraeth, fod y Prif Weinidog yn llygad ei le i gymryd y camau a gymerodd, a gwnaethoch ddweud pe baech wedi bod yn y sefyllfa honno y byddech wedi ymrwymo i'r fetu hefyd. Credaf mai'r hyn a ddywedwyd gennych oedd y byddech yn fwy na thebyg wedi dilyn yr hyn a wnaeth y Prif Weinidog, hynny yw, na fyddedch wedi arwyddo'r cytundeb. Onid yw'n bryd ichi fynd i'r afael â'r materion go iawn yng Nghymru, yn hytrach nag ymladd yn ddiangen, gan roi darlun anffafriol iawn o Gymru?

Y Prif Weinidog: Rwyf yn synnu bod arweinydd yr wrthblaid yn bychanu gweithwyr Ford ym Mhen-y-bont ar Ogwr; rwyf yn synnu ei fod yn bychanu gweithwyr Tata a gweithwyr Airbus, gan fod y bobl hyn i gyd yn pryderu'n fawr am yr hyn a ddigwyddodd yn y Cyngor Ewropeaidd. Roeddent yn pryderu am yr argraff a roddwyd gan y DU, sef ein bod rywsut ar ein ffordd allan o Ewrop. Ydw, rwyf yn cytuno â'r camau a gymerodd y Prif Weinidog; rwyf yn ddigon hapus i ailadrodd hynny. Fodd bynnag, yr hyn na fyddwn wedi'i wneud oedd methu â braenaru'r tir drwy gyfrwng y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad, sef yr hyn a ddigwyddodd, ac ni fyddwn ychwaith wedi methu â braenaru'r tir gyda gwledydd fel Denmarc a Sweden, nas gwnaethpwyd, a dyna pam roeddem ar ein pen ein hunain. Ni fyddwn ychwaith wedi dod yn ôl a threulio fy amser gydag Ewrosgeptigiaid sydd am weld Cymru a'r DU yn gadael Ewrop. Dyna'r camgymeriad a wnaeth y Prif Weinidog, a dyna oedd y camgymeriad roedd yn rhaid i mi ei gywiro.

The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams): First Minister, last week, I asked you what progress your Government had made on implementing enterprise zones. You did not answer the questions last week, so, if I may, I would like to ask them again today. Has the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science—and I can see that the First Minister is asking the Minister about this now—now set the boundaries for enterprise zones that she announced last year? Has the Minister for business now established the policy interventions in each of them?

The First Minister: There was a meeting between the Leader of the House and the Chief Secretary to the Treasury on Thursday, at which it was acknowledged by the Chief Secretary to the Treasury that the issue of capital allowances has not been resolved yet. Suggestions were made about how that might be done, but we await agreement on capital allowances. That was something that came from a Lib Dem Minister.

Kirsty Williams: I am grateful that both your Minister for business and the Leader of the House have been able to brief you on what I would have thought would be a crucial element of your Government's intervention in the economy. Capital allowances are indeed important and I would make common cause with the First Minister to press the Treasury for a final decision on them.

1.45 p.m.

Of course, our case might be more robust and impressive if we could demonstrate what else we wanted to do with enterprise zones. My understanding is that no decisions have been made on capital allowances in the Hereford enterprise zone, but that has not prevented those involved from establishing a board, appointing a chairman, setting boundaries and establishing levels of investment for business rates and broadband. The same is true of enterprise zones in Liverpool and Bristol. All three of those enterprise zones pose a potential risk to economic stability in Wales. I ask you again, First Minister: will your Minister for enterprise be true to the word that she gave to Assembly Members

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams): Brif Weinidog, yr wythnos diwethaf, gofynnais i chi pa gynnydd roedd eich Llywodraeth wedi'i wneud o ran gweithredu ardaloedd menter. Ni wnaethoch ateb y cwestiynau yr wythnos diwethaf; felly, os caf, hoffwn eu gofyn eto heddiw. A yw'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth—a gallaf weld bod y Prif Weinidog yn gofyn i'r Gweinidog am hyn yn awr—wedi pennu'r ffiniau ar gyfer ardaloedd menter a gyhoeddodd y llynedd? A yw'r Gweinidog busnes wedi cadarnhau'r ymyriadau polisi ar gyfer pob un ohonynt?

Y Prif Weinidog: Cafwyd cyfarfod rhwng Arweinydd y Tŷ a Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ddydd Iau, lle y cydnabu Prif Ysgrifennydd y Trysorlys nad oedd mater y lwfansau cyfalaf wedi'i ddatrys eto. Cafwyd awgrymiadau ynghylch sut y gellid gwneud hynny, ond rydym yn aros am gytundeb ar lwfansau cyfalaf. Daeth hynny o un o Weinidogion y Democratiaid Rhyddfrydol.

Kirsty Williams: Rwyf yn ddiolchgar fod eich Gweinidog busnes ac Arweinydd y Tŷ wedi gallu rhoi gwybodaeth i chi am yr hyn y byddwn i wedi ei ystyried yn elfen hanfodol o ymyrraeth eich Llywodraeth yn yr economi. Yn sicr, mae lwfansau cyfalaf yn bwysig, a byddwn yn ymuno â'r Prif Weinidog i bwysio ar y Trysorlys i wneud penderfyniad terfynol arnynt.

Wrth gwrs, gallai ein hachos ni fod yn fwy cadarn a thrawiadol pe gallem ddangos beth arall yr ydym am ei wneud â'r ardaloedd menter. Fy nealltwriaeth i yw nad oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud ar lwfansau cyfalaf yn ardal menter Henffordd, ond nid yw hynny wedi atal y rhai dan sylw rhag sefydlu bwrdd, penodi cadeirydd, gosod ffiniau a sefydlu lefelau o fuddsoddiad ar gyfer trethi busnes a band eang. Mae'r un peth yn wir am ardaloedd menter yn Lerpwl a Bryste. Mae'r tri o'r ardaloedd menter hynny yn peri risg posibl i sefydlogrwydd economaidd yng Nghymru. Rwy'n gofyn i chi eto, Brif Weinidog: a fydd eich Gweinidog menter yn driv i'r gair a roddodd

that the details of the boundaries, the policy interventions and the capital allowances will be announced by the end of this month?

The First Minister: Yes.

Kirsty Williams: I am glad about that. Is it not the reality that it was many months after the announcement of zones in England before your Minister caught up and made a similar announcement here? Steps are being taken in Liverpool, Bristol and Hereford, which are on our borders, to establish such zones, but we are still behind the game here. Will you give a cast-iron guarantee to the Chamber and to the business community in Wales that, despite the late announcement of these strategic details, enterprise zones in Wales will be up and running by April, in accordance with a previous commitment given by your Government?

The First Minister: Businesses are not worried about this; they want to know that there is a comprehensive package in place. It may be the case that enterprise zone in England are looking to see how they will work, but unless they get clarity on capital allowances, they will never be able to offer a comprehensive package.

The Leader of Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones): Given that so few company headquarters are located in Wales, does the First Minister agree that everything possible should be done to assist Peacocks to secure a stable future, not least because of the 1,000 or so jobs that the company currently maintains here, with over 400 jobs at its headquarters?

The First Minister: I very much share the leader of Plaid Cymru's concern about the future of Peacocks. Officials are looking to have a meeting with company officials soon, and the Member will be aware that the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science will be making a statement later this afternoon on the future of Peacocks. The concern is about the company's future. There seems to be interest from potential buyers to provide a future for the company, but the shape of that is as yet

i Aelodau'r Cynulliad y bydd manylion y ffiniau, yr ymyriadau polisi a'r lwfansau cyfalaf yn cael eu cyhoeddi erbyn diwedd y mis hwn?

Y Prif Weinidog: Bydd.

Kirsty Williams: Rwyf yn falch o hynny. Onid y gwirionedd yw ei bod yn fisoedd lawer ar ôl y cyhoeddiad ynghylch yr ardaloedd yn Lloegr cyn i'ch Gweinidog ddal i fyny a gwneud cyhoeddiad tebyg yma? Mae camau'n cael eu cymryd yn Lerpwl, Bryste a Henffordd, sydd ar ein ffiniau, i sefydlu ardaloedd o'r fath, ond rydym yn dal i fod ar ei hôl hi yma. A fyddwch yn rhoi gwarant gadarn i'r Siambr ac i'r gymuned fusnes yng Nghymru, y bydd ardaloedd menter yng Nghymru, er gwaethaf y cyhoeddiad diweddar, yn weithredol erbyn mis Ebrill, yn unol ag ymrwymiad blaenorol a roddwyd gan eich Llywodraeth?

Y Prif Weinidog: Nid yw busnesau yn poeni am hyn; maent am wybod bod pecyn cynhwysfawr yn ei le. Efallai mai'r gwir yw bod ardaloedd menter yn Lloegr yn aros i weld sut y byddant yn gweithio, ond oni bai eu bod yn cael eglurder ar lwfansau cyfalaf, ni fyddant fyth yn gallu cynnig pecyn cynhwysfawr.

Arweinydd Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones): O ystyried bod pencadlysoedd cyn lleied o gwmnïau wedi eu lleoli yng Nghymru, a yw'r Prif Weinidog yn cytuno y dylai popeth posibl gael ei wneud i gynorthwyo Peacocks i sicrhau dyfodol sefydlog, yn enwedig oherwydd y 1,000 o swyddi y mae'r cwmni yn ei gynnal yma ar hyn o bryd, gyda thros 400 o swyddi yn ei bencadlys?

Y Prif Weinidog: Rwyf yn rhannu pryderon arweinydd Plaid Cymru am ddyfodol Peacocks. Mae swyddogion yn awyddus i gael cyfarfod gyda swyddogion y cwmni yn fuan, a bydd yr Aelod yn ymwybodol y bydd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn gwneud datganiad yn ddiweddarach y prynhawn yma ar ddyfodol Peacocks. Mae'r pryder yn ymwneud â dyfodol y cwmni. Ymddengys fod diddordeb gan brynwyr posibl i ddarparu dyfodol ar gyfer y cwmni, ond ni wyddom eto ar ba

unknown. Unfortunately, that is bound to lead to a great deal of uncertainty for all those who work for Peacocks. However, we will work hard to secure a future for the company.

Ieuan Wyn Jones: I am grateful to the First Minister for giving that assurance, and I am sure that he and the Minister will take every step that they can, using their offices and senior and experienced officials in the Minister's department, to ensure that Peacocks understands that the Welsh Government is fully behind the efforts that are necessary to protect the company. However, talks about the restructuring of the company's finances are ongoing, but we do not know their current state, although we understand that the Royal Bank of Scotland is one of the banks involved. Would it not be utterly disgraceful for a company that has been bailed out by the taxpayer to be seen to be pulling the plug on one of Wales's foremost companies?

The First Minister: I agree that it would be difficult for the public to see that happening given all that was done to help RBS, and all the public money that was pumped into it after what happened with its chief executive. It would be difficult to see it pulling the plug on what we believe to be a viable company. The difficulties for Peacocks are not down to a lack of custom and a lack of trade. We know that it has been a difficult Christmas for many retailers, but we believe that the company has a viable future. I entirely agree that it does not look good for a bank bailed out by the taxpayer to be seen pulling the raft from under a successful company.

Pêl-droed

3. Ann Jones: *Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi pêl-droed ar lawr gwlad yng Nghymru. OAQ(4)0297(FM)*

The First Minister: We are providing over £800,000 to support the development of grass-roots football. That funding is being used by the Welsh Football Trust to improve coach education, train more volunteers and encourage participation.

ffurf y bydd hynny. Yn anffodus, mae hyn yn siŵr o arwain at lawer iawn o ansicrwydd i bawb sy'n gweithio i Peacocks. Fodd bynnag, byddwn yn gweithio'n galed i sicrhau dyfodol ar gyfer y cwmni.

Ieuan Wyn Jones: Rwyf yn ddiolchgar i'r Prif Weinidog am roi'r sicrwydd hwnnw, ac rwy'n siŵr y bydd ef a'r Gweinidog yn cymryd pob cam posibl, gan ddefnyddio eu swyddfeydd ac uwch swyddogion a swyddogion profiadol yn adran y Gweinidog, i sicrhau bod Peacocks yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn gwbl y tu ôl i'r ymdrechion sydd eu hangen i ddiogelu'r cwmni. Fodd bynnag, mae'r trafodaethau ynghylch ailstrwythuro cyllid y cwmni yn parhau, ond nid ydym yn gwybod beth yw eu cyflwr presennol, er ein bod yn deall bod y Royal Bank of Scotland yn un o'r banciau o dan sylw. Oni fyddai'n gwbl warthus i gwmni sydd wedi ei achub gan y trethdalwr i gael ei weld i fod yn dod ag un o gwmnïau mwyaf blaenllaw Cymru i ben?

Y Prif Weinidog: Rwyf yn cytuno y byddai'n anodd i'r cyhoedd weld hynny'n digwydd o gofio popeth a gafodd ei wneud i helpu'r RBS, a'r holl arian cyhoeddus a gafodd ei daflu tuag ato ar ôl yr hyn a ddigwyddodd gyda'i brif weithredwr. Byddai'n anodd ei weld yn dod â'r hyn rydym yn ei gredu sy'n gwmni hyfyw i ben. Nid diffyg cwsmeriaid a diffyg masnach sy'n gyfrifol am anawsterau Peacocks. Gwyddom ei bod wedi bod yn Nadolig anodd i lawer o fanwerthwyr, ond credwn fod dyfodol hyfyw i'r cwmni. Cytunaf yn llwyr nad yw'n edrych yn dda i fanc a achubwyd gan y trethdalwr gael ei weld yn torri'r tir o dan draed cwmni llwyddiannus.

Football

3. Ann Jones: *What action is the Welsh Government taking to support grassroots football in Wales. OAQ(4)0297(FM)*

Y Prif Weinidog: Rydym yn darparu dros £800,000 i gefnogi'r gwaith o ddatblygu pêl-droed ar lawr gwlad. Caiff yr arian hwnnw ei ddefnyddio gan Ymddiriedolaeth Pêl-droed Cymru i wella addysgu hyfforddwyr, hyfforddi mwy o wirfoddolwyr ac annog cyfranogiad.

Ann Jones: Thank you for that, First Minister. Football is the most popular sport in the world and Wales continues to create world-class talent, with the likes of Gareth Bale and Aaron Ramsey leading the way. Football legend Ian Rush has described his bus journeys to training with his dad from working-class Flintshire as his motivation to lead the Welsh Football Trust's Level Playing Field campaign, which helps to remove financial barriers for children in Wales. Do you agree that the Government should support such schemes to harness the positive force of grass-roots football and the role models that it creates? Will you join me in wishing Wrexham Football Club well whenever it plays its cup tie—tonight or tomorrow night—as the only non-league team left in the FA Cup? We hope that it will progress.

The First Minister: Absolutely. I hope that Wrexham Football Club is not a non-league club in the FA Cup next year, and that it returns to League 2. It would be appropriate, given the long history of Wrexham Football Club. We have not been asked to financially support the Level Playing Field campaign. However, as I say, we have provided £800,000 to the trust in order to improve participation and coaching standards.

Mohammad Asghar: In Newport, there is a local team called K2. It has won the district league in two consecutive years in the Newport area. At present, it is at the top of the league. The club has told me that it cannot find a clubhouse to host teams in the Welsh League, nor can it find a pitch that meets the requirements of the Welsh League. What are you doing to ensure equality of opportunity for the grass-roots footballers of Newport and south-east Wales?

The First Minister: They can look to the local council for assistance. I know that many clubs, over the years, have raised the funds to build a clubhouse. It can be difficult for clubs

Ann Jones: Diolch am hynny, Brif Weinidog. Pêl-droed yw'r gamp fwyaf poblogaidd yn y byd ac mae Cymru yn parhau i greu talent o safon fyd-eang, gyda chwaraewyr fel Gareth Bale ac Aaron Ramsey yn arwain y blaen. Mae Ian Rush, y pêl-droediwr byd-enwog wedi disgrifio ei deithiau bws gyda'i dad o ardal ddosbarth gweithiol yn Sir y Fflint i sesiynau ymarfer fel ei gymhelliad i arwain ymgyrch Maes Chwarae Gwastad Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru, sy'n helpu i ddileu rhwystrau ariannol ar gyfer plant yng Nghymru. Ydych chi'n cytuno y dylai'r Llywodraeth gefnogi cynlluniau o'r fath i feithrin grym cadarnhaol pêl-droed ar lawr gwlad a'r modelau rôl a gaiff eu creu? A wnewch chi ymuno â mi i ddyuno yn dda i Glwb Pêl-droed Wrecsam pryd bynnag y bydd yn chwarae ei gêm gwpan—heno neu nos yfory—fel yr unig dîm sydd ar ôl yng Nghwpan yr FA nad yw yn y gynghrair? Rydym yn gobeithio y bydd yn symud ymlaen.

Y Prif Weinidog: Wrth gwrs. Gobeithio na fydd Clwb Pêl-droed Wrecsam yn glwb digynghrair yng Nghwpan yr FA y flwyddyn nesaf, a'i fod yn dychwelyd i'r Ail Gynghrair. Byddai hynny'n briodol, o ystyried hanes hir Clwb Pêl-droed Wrecsam. Nid ydym wedi cael cais i roi cefnogaeth ariannol i'r ymgyrch Maes Chwarae Gwastad. Fodd bynnag, fel y dywedais, rydym wedi darparu £800,000 i'r ymddiriedolaeth er mwyn gwella cyfranogiad a safonau hyfforddi.

Mohammad Asghar: Yng Nghasnewydd, mae tîm lleol o'r enw K2. Mae wedi ennill y gynghrair leol ddwy flynedd yn olynol yn ardal Casnewydd. Ar hyn o bryd, mae ar frig y gynghrair. Mae'r clwb wedi dweud wrthyf na all ddod o hyd i glwb a allai gynnal timau yng Nghynghrair Cymru, ac ni all ddod o hyd i gae sy'n bodloni gofynion Cynghrair Cymru. Beth ydych chi'n ei wneud i sicrhau bod cyfle cyfartal ar gyfer y pêl-droedwyr llawr gwlad yng Nghasnewydd a de-ddwyrain Cymru?

Y Prif Weinidog: Gallant ofyn am gymorth gan y cyngor lleol. Gwn fod nifer o glybiau, dros y blynyddoedd, wedi codi arian i adeiladu clwb. Gall fod yn anodd i glybiau

when they do not meet the correct criteria; for example, in the division below the Welsh Premier League last year, Bryntirion Athletic Football Club, based in Bridgend, would have been promoted if its facilities had been of the right level for the Welsh Premier League. Nevertheless, many clubs over the years have built up their facilities and have been able, over time, to access higher leagues.

Bethan Jenkins: Yn Llundain, mae cynghrair pêl-droed stryd, sydd wedi gwneud gwaith da i gynnwys pobl ddifreintiedig. Cawsant wahoddiad i Stryd Downing neithiwr, o ganlyniad i'r gwaith a wnaed ganddynt. Mae'r rhai sy'n ymwneud â phêl-droed stryd yng Nghymru yn poeni nad ydynt yn cael cyllid gan y sefydliad pêl-droed yn yr un modd ag a welir yn Lloegr. A oes modd i chi edrych ar hyn? Mae'n fater pwysig ar lawr gwlad, lle nad yw Cymru yn cael yr un math o gefnogaeth.

Y Prif Weinidog: Mae ymddiriedolaeth ar gael, sef y corff rydym wedi rhoi arian iddo. Un o amcanion y corff hwnnw yw sicrhau bod mwy o bobl ifanc yn cael y cyfle i chwarae pêl-droed. Felly, mae cynlluniau i helpu pobl ifanc i chwarae pêl-droed.

Mike Hedges: According to the *South Wales Evening Post*, following the success of Swansea City Football Club in getting to the premiership, and its success there, has been a huge increase in the number of young people wanting to play football. The problem is the cost of permits in the Swansea area, which is preventing a number of teams from forming, especially in the poorer areas. Is there any advice that the First Minister or the Welsh Government can give to local authorities regarding permit costs for junior football?

The First Minister: Charging for football pitches is decided on a local level, based on the services offered. However, it is right to say that grass-roots football is run on the lowest budgets and by volunteers. So, it is important that charges are kept, as far as possible, to the absolute minimum, in order

pan nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cywir, er enghraifft, yn yr adran o dan Uwch Gynghrair Cymru y llynedd, byddai Clwb Pêl-droed Bryntirion Athletic, ym Mhen-y-bont ar Ogwr, wedi cael dyrchafiad pe bai ei gyfleusterau wedi cyrraedd y safon gywir ar gyfer Uwch Gynghrair Cymru. Serch hynny, mae nifer o glybiau dros y blynyddoedd wedi adeiladu eu cyfleusterau ac wedi gallu cael mynediad at y cynghreiriau uwch dros gyfnod o amser.

Bethan Jenkins: In London, there is a street football league, which has done good work on the inclusion of the disadvantaged. As a result of that work, they were invited to Downing Street last night. People involved with street football in Wales are worried that they are not funded by the football association in the same way as is seen in England. Can you look into this matter? It is an important issue at a grass-roots level, where the same kind of support is not available in Wales.

The First Minister: There is a trust, which is the organisation that we have funded. One of the trust's aims is to ensure that more young people are given the opportunity to play football. Therefore, there are plans to help young people to play football.

Mike Hedges: Yn ôl y *South Wales Evening Post*, yn dilyn llwyddiant Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe yn cyrraedd yr uwchgynghrair, a'i lwyddiant yno, bu cynnydd aruthrol yn y nifer o bobl ifanc sydd am chwarae pêl-droed. Y broblem yw cost trwyddedau yn ardal Abertawe, sy'n rhwystro nifer o dimau rhag ffurfio, yn enwedig yn yr ardaloedd tlotaf. A oes unrhyw gyngor y gall y Prif Weinidog neu Lywodraeth Cymru ei roi i awdurdodau lleol ynglŷn â chostau trwyddedau ar gyfer pêl-droed iau?

Y Prif Weinidog: Ar lefel leol y caiff y penderfyniad ei wneud ynghylch codi tâl am gaeau pêl-droed, yn seiliedig ar y gwasanaethau a gynigir. Fodd bynnag, mae'n iawn dweud bod pêl-droed ar lawr gwlad yn cael ei redeg ar y cyllidebau isaf a chan wirfoddolwyr. Felly, mae'n bwysig bod y

to encourage participation.

taliadau, cyn belled â phosibl, yn cael eu cadw mor isel ag sy'n ymarferol, er mwyn annog cyfranogiad.

Etholiadau Llywodraeth Leol 2012

2012 Local Government Elections

4. Mark Isherwood: *Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer amseru etholiadau Llywodraeth Leol 2012. OAQ(4)0303(FM)*

4. Mark Isherwood: *What plans does the Welsh Government have for the timing of the 2012 Local Government elections. OAQ(4)0303(FM)*

The First Minister: Local government elections in Wales will go ahead as scheduled on 3 May 2012, with the exception of those in Anglesey, which will be delayed for one year, until May 2013.

Y Prif Weinidog: Bydd etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru yn digwydd fel y trefnwyd ar 3 Mai 2012, ac eithrio'r rheini yn Ynys Môn, a fydd yn cael eu gohirio am flwyddyn, tan fis Mai 2013.

Mark Isherwood: That news is hot off the press in the Minister for Local Government and Communities's written statement this morning, confirming that the council elections in Anglesey will now not be held until 2013. There is concern on the island and, in some cases, anger that electors will be denied a chance to have a say on what services will be cut and on council tax rates, and on key issues such as green isle initiatives, inward migration and inward investment over forthcoming years. How do you respond to the genuine and growing concern that we need a council in Anglesey with a four-year electoral mandate? The other 21 councils were given four years to look at the boundaries that they will be working with in the future, but Anglesey was given only four weeks, and that was just before Christmas. Particularly—

Mark Isherwood: Mae'r newyddion hwnnw wedi dod yn syth o ddatganiad ysgrifenedig y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau y bore yma, yn cadarnhau na fydd yr etholiadau cyngor yn Ynys Môn yn cael eu cynnal tan 2013. Mae pryder ar yr ynys ac, mewn rhai achosion, dicter na fydd etholwyr yn cael y cyfle i fynegi barn am ba wasanaethau a gaiff eu torri a chyfraddau'r dreth gyngor, ac ar faterion allweddol fel mentrau ynys werdd, mudo mewnol a buddsoddiad mewnol dros y blynyddoedd nesaf. Sut rydych chi'n ymateb i'r pryder gwirioneddol a chynyddol fod angen cyngor ar Ynys Môn sydd â mandad etholiadol o bedair blynedd? Cafodd y 21 cyngor arall bedair blynedd i ystyried y ffiniau y byddant yn gweithio gyda hwy yn y dyfodol, ond dim ond pedair wythnos a gafodd Ynys Môn, a hynny ychydig cyn y Nadolig. Yn enwedig—

The Presiding Officer: Order. Are you coming to your final question?

Y Llywydd: Trefn. A ydych yn dod i'ch cwestiwn olaf?

Mark Isherwood: The problems on Anglesey, all along, have been about corporate governance, not about members with horns on their heads. In terms of democratic renewal, which the Minister has consistently—

Mark Isherwood: Mae'r problemau ar Ynys Môn, erioed, wedi bod ynghylch llywodraethu corfforaethol, nid ynghylch aelodau gyda chyrn ar eu pennau. O ran adnewyddu democrataidd, y mae'r Gweinidog yn gyson—

The Presiding Officer: Order. Will you come to your question, please?

Y Llywydd: Trefn. A wnewch chi ofyn eich cwestiwn, os gwelwch yn dda?

Mark Isherwood: Almost half of the councillors currently in the council were elected at, or since the last election.

Mark Isherwood: Cafodd bron i hanner y cynghorwyr sydd yn y cyngor ar hyn o bryd, eu hethol yn ystod, neu ers yr etholiad diwethaf.

The First Minister: The issues in Anglesey were about scrutiny as well; let us not pretend that, somehow, that was not an issue in Anglesey. It is important that the Local Government Boundary Commission can complete its review of electoral arrangements in order for the work of democratic renewal on the island to continue. In order for that to be done, it makes sense then for the election to be delayed by a year.

Ieuan Wyn Jones: Rwy'n falch o gael cyfle i ymateb. A wnaiff y Prif Weinidog atgoffa Aelodau bod penderfyniad y Gweinidog i ailedrych ar y ffiniau yn seiliedig ar adroddiad beirniadol a gafwyd gan yr archwilydd dosbarth—adroddiad, wrth gwrs, roedd y blaid Geidwadol, ar y pryd, wedi'i dderbyn fel sail ar gyfer adnewyddu democratiaeth ar yr ynys? A yw'n derbyn, er ei bod yn anffodus ein bod yn gorfod gohirio'r etholiadau, mai dyna'r unig ddewis call yn sgîl y ffaith bod yn rhaid i'r ffiniau hyn gael eu trefnu mewn pryd?

Y Prif Weinidog: Rwy'n cytuno'n llwyr, wrth gwrs. Mae'n rhaid inni sicrhau bod pobl Ynys Môn yn cael y cyfle i gael etholiad teg ar ffiniau newydd, er mwyn i'r gwaith sydd wedi ei wneud ar yr ynys i gryfhau'r system ddemocrataidd barhau.

Aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd

5. Mark Drakeford: *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bwysigrwydd aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd i Gymru. OAQ(4)0298(FM)*

The First Minister: During this period of economic difficulty, the UK's membership of the EU is vital in safeguarding our common interests.

Mark Drakeford: Do you share the concerns of Welsh exporters at the way in which austerity across Europe is closing down European markets? Do you agree with that doyen of Conservative economic commentators, Samuel Brittan, that when the history books come to be written, the greatest condemnation of the Cameron-Osborne regime will be that it insisted on exporting

Y Prif Weinidog: Roedd y trafferthion yn Ynys Môn yn ymwneud â chraffu hefyd; gadewch inni beidio ag esgus nad oedd hynny, rywsut, yn broblem yn Ynys Môn. Mae'n bwysig y gall Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol gwblhau ei adolygiad o drefniadau etholiadol er mwyn i'r gwaith o adnewyddu democrataidd ar yr ynys barhau. Er mwyn i hynny ddigwydd, mae'n gwneud synnwyr, felly, i'r etholiad gael ei ohirio am flwyddyn.

Ieuan Wyn Jones: I am pleased to be able to respond. Will the First Minister remind people that the Minister's decision to review boundaries was based on a critical report by the district auditor—a report that was, of course, accepted at the time by the Conservative Party as a basis on which to rejuvenate democracy on the island? Even though it is unfortunate that we have to postpone the election, does he accept that that is the only sensible choice, given that the boundaries have to be rearranged in good time?

The First Minister: I completely agree, of course. We must ensure that the people of Anglesey have the opportunity to have a fair election on new boundaries, so that the work that has been done on the island to strengthen the democratic system continues.

Membership of the European Union

5. Mark Drakeford: *Will the First Minister make a statement on the importance to Wales of the UK's membership of the European Union. OAQ(4)0298(FM)*

Y Prif Weinidog: Yn ystod y cyfnod hwn o anhawster economaidd, mae aelodaeth y DU o'r UE yn hanfodol wrth ddiogelu ein buddiannau cyffredin.

Mark Drakeford: A ydych yn rhannu pryderon allforwyr Cymru yn y ffordd y mae llymder ar draws Ewrop yn cau marchnadoedd Ewropeaidd? Ydych chi'n cytuno â Samuel Brittan, prif sylwebydd economaidd y Ceidwadwyr, mai prif fai cyfundrefn Cameron-Osborne, pan ddaw'r llyfrau hanes i gael eu hysgrifennu, fydd ei fod wedi mynnu allforio cyfundrefn mor llym

such an austerity regime to Europe, just as the advantages of a Keynesian approach in the United States were becoming clearly apparent? *[Interruption.]*

The First Minister: I always know in this Chamber that the louder the Conservative benches groan, the more uncomfortable they are with the argument that is being put before them. *[Laughter.]* You are quite right to say that there must be concern in the European Union that austerity is being taken so far that it will take far longer for the whole of the EU to recover. That cannot be good for the citizens of the European Union.

Andrew R.T. Davies: I wonder, sometimes, with the First Minister, how Conservatives can be held to account as to what is going on in Greece, Italy, Spain, Ireland and Portugal. There you are, you are living in another world, no doubt. Do you not think that it is important that, when the Welsh Government engages on European projects, it meets the targets that it set out to achieve? The previous Labour Government set a target of gross value added per capita of 90% of the EU average by 2010. We are now on 74% in Wales. Is that not a failure of Labour's engagement in the Assembly with European projects?

The First Minister: Not at all. As far as we are concerned, you can see what we have done to stimulate the economy, but we need help from the UK Government. It has the macroeconomic levers. There is no doubt that the policies that were put in place when the Government was formed have failed. Where is the economic recovery? It is not there. Where is the situation with unemployment lowering? It is not there. Inflation is on the way up. Every economic indicator in the UK is going in the wrong direction. We all know this, which is why we in Wales will always look to mitigate the effects of the UK Government's misguided economic policy. When you end up in a situation that, out of the 27 nations in Europe, you are on your own, it is a sure sign that you are going in the wrong direction.

i Ewrop, yn union fel yr oedd manteision dull Keynesian yn yr Unol Daleithiau yn dod yn amlwg?*[Torri ar draws.]*

Y Prif Weinidog: Gwn bob amser yn y Siambr hon mai'r uchaf y mae meinciau'r Ceidwadwyr yn cwyno, y mwyaf anghyfforddus y meant gyda'r ddadl a gaiff ei chyflwyno iddynt.*[Chwerthin.]* Rydych yn gwbl iawn i ddweud bod yn rhaid bod pryder yn yr Undeb Ewropeaidd bod cynildeb yn cael ei wthio mor bell fel y bydd yn cymryd llawer hirach i adfer yr Undeb Ewropeaidd cyfan. Ni all hynny fod yn beth da i ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd.

Andrew RT Davies: Byddaf yn meddwl, weithiau, gyda'r Prif Weinidog, sut y gellir dwyn y Ceidwadwyr i gyfrif am yr hyn sy'n digwydd yng Ngwlad Groeg, yr Eidal, Sbaen, Iwerddon a Phortiwgal. Dyna chi, nid oes amheuaeth eich bod yn byw mewn byd arall. Onid ydych yn credu, wrth i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â phrosiectau Ewropeaidd, ei bod yn bwysig ei bod yn cyrraedd y targedau yr anelodd atynt? Pennodd y Llywodraeth Lafur flaenorol darged o 90% o werth ychwanegol crynswth y pen o gyfartaledd yr UE erbyn 2010. Rydym yn awr ar 74% yng Nghymru. Onid methiant y Blaid Lafur yn y Cynulliad i ymgysylltu â phrosiectau Ewropeaidd yw hynny?

Y Prif Weinidog: Dim o gwbl. O'n rhan ni, gallwch weld yr hyn rydym wedi'i wneud i ysgogi'r economi, ond mae angen cymorth arnom gan Lywodraeth y DU. Mae ganddi hi'r gallu macro-economaidd. Nid oes amheuaeth bod y polisiau a roddwyd ar waith pan gafodd y Llywodraeth ei ffurfio wedi methu. Ble mae'r adferiad economaidd? Nid yw yno. Ble mae'r sefyllfa lle mae diweithdra yn disgyn? Nid yw yno. Mae chwyddiant yn codi. Mae pob dangosydd economaidd yn y DU yn mynd i'r cyfeiriad anghywir. Rydym i gyd yn gwybod hyn, a dyna pam y byddwn ni yng Nghymru bob amser yn ceisio lliniaru ar effeithiau polisi economaidd annoeth Llywodraeth y DU. Pan fyddwch yn cyrraedd sefyllfa lle rydych chi, allan o'r 27 o wledydd yn Ewrop, ar eich pen eich hun, mae'n arwydd pendant eich bod yn mynd i'r cyfeiriad anghywir.

Llyr Huws Gruffydd: I ddod yn ôl at y cwestiwn, fis diwethaf dywedoch eich bod eisiau datblygu cysylltiadau agosach rhwng Cymru a'r Undeb Ewropeaidd yn sgîl y feto a ddefnyddiwyd gan David Cameron. Onid sicrhau llais uniongyrchol i Gymru o fewn yr Undeb Ewropeaidd yw'r ffordd orau i ddatblygu'r cyswllt agos hwnnw?

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn credu y byddai annibyniaeth yn llwybr call i Gymru ei gymryd. Mae'n bwysig bod gennym lais cryf yn yr UE. Mae gennym swyddfa ym Mrwsel, ac mae gennym sawl cyfle i gwrdd â chomisynwyr ac i fod yn rhan o gyfarfodydd ym Mrwsel ei hun.

2.00 p.m.

Christine Chapman: First Minister, I am disappointed by the negative European policy being pursued by the UK Government. Close working with our European neighbours is important and, in particular, offers opportunities to Welsh universities through collaborative working with European institutions. This builds research capacity by broadening the gene pool, thereby encouraging excellence in the creation of an innovative and entrepreneurial culture. That was the purpose of the German rector's conference that I spoke to in Brussels before Christmas. First Minister, what can we do to foster closer links between Welsh and European universities and ensure that the former do not suffer as a result of the UK Government's short-sightedness?

The First Minister: The Welsh higher education sector has an office in Brussels. The mission of that office is to further the EU interests of Welsh universities and to enable the sector to engage more fully with EU priorities.

David Rees: First Minister, yesterday you met Uday Chaturvedi, the former director of UK steel production for Tata Steel and the outgoing chief technical officer for Tata Europe. As you know, Tata Steel has invested heavily in Welsh steelmaking, particularly at the Port Talbot plant in my constituency. What is the Welsh Government

Llyr Huws Gruffydd: To return to the question, last month you said that you wanted to develop closer links between Wales and the European Union given the veto used by David Cameron. Is not ensuring a direct voice for Wales within the European Union the best way of developing that close link?

The First Minister: I do not believe that independence would be a very sensible path for Wales to take. It is important that we have a strong voice in the European Union. We have an office in Brussels, and we have a number of opportunities to meet commissioners and to be part of meetings in Brussels itself.

Christine Chapman: Brif Weinidog, mae polisi Ewropeaidd negyddol Llywodraeth y DU yn fy siomi. Mae cydweithio'n agos gyda'n cymdogion Ewropeaidd yn bwysig ac, yn benodol, mae'n cynnig cyfleoedd i brifysgolion Cymru drwy gyd-weithio â sefydliadau Ewropeaidd. Mae hyn yn adeiladu capasiti yn y byd ymchwil drwy ehangu'r cyfanswm genynnol, a thrwy hynny annog rhagoriaeth wrth greu diwylliant arloesol ac entrepreneuriaidd. Dyna oedd diben cynhadledd rheithorion yr Almaen y bûm yn ei hannerch cyn y Nadolig. Brif Weinidog, beth allwn ni ei wneud i feithrin cysylltiadau agosach rhwng prifysgolion yng Nghymru ac Ewrop er mwyn sicrhau nad yw prifysgolion Cymru yn dioddef o ganlyniad i Lywodraeth gibddall y DU?

Y Prif Weinidog: Mae gan sector addysg uwch Cymru swyddfa ym Mrwsel. Cenhadaeth y swyddfa honno yw hybu buddiannau prifysgolion Cymru yn yr UE a galluogi'r sector i ymgysylltu'n llawnach â blaenoriaethau'r UE.

David Rees: Brif Weinidog, ddoe cawsoch gyfarfod ag Uday Chaturvedi: mae'n gyn-gyfarwyddwr cynhyrchu dur yn y DU i Tata Steel ac mae ar fin rhoi'r gorau i fod yn brif swyddog technegol Tata Europe. Fel y gwyddoch, mae Tata Steel wedi buddsoddi'n helaeth mewn cynhyrchu dur yng Nghymru, yn enwedig yn y gwaith ym Mhort Talbot

doing to reassure global companies such as Tata, which come here to focus on global and European markets, that, in contrast to the UK Government's statement and the use of its veto, we are still committed to being an integral part of the EU?

The First Minister: First, I welcome very much the investment that has been made at Port Talbot. It helps to secure the future of the plant. Secondly, we know that it is crucial for the plant's future that we are a full part of the European Union. Otherwise, it weakens the position of the plant vis-à-vis plants elsewhere and particularly one plant in the European Union. I will be in India in April, when I intend to meet senior executives at Tata in order to emphasise the close connection that exists between Wales and Tata Steel and to assure them that we will continue to be strong partners in working to secure future investment in Wales.

Rhaglen Lywodraethu

6. Elin Jones: *Pa gynnydd mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud er ei rhaglen lywodraethu ers iddi gael ei chyhoeddi. OAQ(4)0300(FM)*

Y Prif Weinidog: Rydym wedi gwneud cynnydd da a caiff ein hadroddiad cynnydd llawn ei gyhoeddi ym mis Mai.

Elin Jones: First Minister, as you have demonstrated this afternoon, you are very fond of passing comment on Westminster Government policy in this Chamber. However, for a change, what is your view on the Westminster opposition policy that, last night, proposed that the private sector had an important role to play in the delivery of NHS care? Specifically, do you agree with the 23 Welsh Labour MPs who voted in support of private sector delivery of the NHS? Do you believe that they were speaking on behalf of Welsh Labour? Were they speaking about the Welsh NHS?

The First Minister: It is not the view of the Welsh Government that the private sector

sydd yn fy etholaeth i. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i roi sicrwydd i gwmnïau byd-eang fel Tata, sy'n dod yma i ganolbwyntio ar farchnadoedd byd-eang ac Ewropeaidd, ein bod, yn wahanol i ddatganiad Llywodraeth y DU a'r defnydd o'i feto, yn parhau'n ymrwymedig i fod yn rhan annatod o'r UE?

Y Prif Weinidog: Yn gyntaf, rwyf yn croesawu'n fawr y buddsoddiad a wnaed ym Mhort Talbot. Mae'n helpu i ddiogelu dyfodol y gwaith. Yn ail, rydym yn gwybod ei bod yn hanfodol ar gyfer dyfodol y gwaith ein bod yn rhan gyflawn o'r Undeb Ewropeaidd. Fel arall, mae'n gwanhau sefyllfa'r gwaith mewn perthynas â gweithfeydd mewn mannau eraill ac yn enwedig un gwaith yn yr Undeb Ewropeaidd. Byddaf yn India ym mis Ebrill, pryd rwyf yn bwriadu cyfarfod ag uwch swyddogion Tata er mwyn pwysleisio'r cysylltiad agos sy'n bodoli rhwng Cymru a Tata Steel, ac i'w sicrhau y byddwn yn parhau'n bartneriaid cryf yn y gwaith o sicrhau buddsoddiad yng Nghymru yn y dyfodol.

Programme for Government

6. Elin Jones: *What progress has the Welsh Government made regarding its programme for government since it was published. OAQ(4)0300(FM)*

The First Minister: We have made good progress and our full progress report will be published in May.

Elin Jones: Brif Weinidog, fel rydych wedi'i ddangos y prynhawn yma, rydych yn hoff iawn o roi sylwadau ar bolisiau Llywodraeth San Steffan yn y Siambr hon. Fodd bynnag, am unwaith, beth yw eich barn ar bolisi'r wrthblaid yn San Steffan, a gynigiodd neithiwr fod gan y sector preifat ran bwysig i'w chwarae wrth ddarparu gofal GIG? Yn benodol, a ydych yn cytuno â'r 23 Aelod Seneddol Llafur Cymreig a bleidleisiodd o blaid darpariaeth sector preifat yn y GIG? A ydych yn credu eu bod yn siarad ar ran y Blaid Lafur Gymreig? A oeddent yn siarad am GIG Cymru?

Y Prif Weinidog: Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai'r sector preifat

should play such a role.

Paul Davies: Yn eich rhaglen lywodraethu, rydych yn ymrwymo i sefydlu canolfannau diagnostig a thrin ophthalmig mewn lleoliadau allweddol ledled Cymru er mwyn cyflymu a gwella gofal llygaid. Gwelais etholwraig yr wythnos diwethaf y mae ei bwrdd iechyd lleol wedi gwrthod rhoi triniaeth cataractau i'w llygaid, oherwydd bod un llygad yn gwbl dda. Yn anffodus, mae hyn yn cael effaith ofnadwy ar ei golwg ac ar ansawdd ei bywyd. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno bod gwrthod triniaeth i'm hetholwraig yn y modd hwn yn annerbyniol, ac a all ein diweddarau ar y cynnydd a wnaed ar yr ymrwymiad yn y rhaglen lywodraethu?

Y Prif Weinidog: Credaf ei bod yn bwysig dros ben bod pobl yn cael y cyfle i gael dwy lawdriniaeth ar gyfer cataractau; ni welaf y pwynt o gael un llygad wedi'i wneud a'r llall heb ei wneud. Mae'n bwysig dros ben bod byrddau iechyd lleol yn sicrhau bod gwasanaeth felly ar gael.

Yr Ewro

7. Mick Antoniw: *Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o'r goblygiadau i Gymru yn sgil sefyllfa Llywodraeth y DU yn Ewrop ar hyn o bryd yng nghyswllt yr Ewro. OAQ(4)0299(FM)*

The First Minister: It will not be possible to assess the implications for Wales of the UK's current position until we have a clearer picture of what the fiscal compact involves.

Mick Antoniw: First Minister, bearing in mind the UK Government's virtual opt-out from influencing Europe, do you consider that now might be a good opportunity for the establishment of a cross-national commission to review the economic relationship between Europe, the United Kingdom nations and the United Kingdom in order to protect Wales's interests?

The First Minister: It is important that we ensure that Wales has as strong a voice as possible. It is surely a failure of diplomacy that the UK is on its own. The whole point of diplomacy is to ensure that you have allies, and we have none. That situation must

chwarae rôl o'r fath.

Paul Davies: In your programme for government, you commit to establishing diagnostic and ophthalmic treatment centres in key areas of Wales in order to improve and speed-up optical care. I saw a constituent last week whose local health board has refused to give her cataract treatment, because one eye is completely healthy. Unfortunately, this is having a terrible impact on her sight and her quality of life. Does the First Minister agree that refusing treatment for my constituent in this manner is unacceptable and can he update us on the progress made on the commitment in the programme for government?

The First Minister: I think that it is extremely important that people have the opportunity to have two operations for cataracts. I do not see the point in having one eye done and not the other. It is extremely important that the local health boards ensure that such a service is available.

The Euro

7. Mick Antoniw: *What assessment has the First Minister made of the implications for Wales of the UK Government's current position in Europe regarding the Euro. OAQ(4)0299(FM)*

Y Prif Weinidog: Ni fydd modd asesu goblygiadau safbwynt presennol y DU i Gymru hyd nes y cawn ddarlun cliriach o'r hyn y mae'r cytundeb cyllidol yn ei olygu.

Mick Antoniw: Brif Weinidog, o gofio bod Llywodraeth y DU fwy neu lai wedi eithrio'i hun rhag dylanwadu ar Ewrop, a ydych yn ystyried y gallai hwn fod yn gyfle da i sefydlu comisiwn traws-genedlaethol i adolygu'r berthynas economaidd rhwng Ewrop, cenhedloedd y Deyrnas Unedig a'r Deyrnas Unedig er mwyn diogelu buddiannau Cymru?

Y Prif Weinidog: Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod gan Gymru lais mor gryf â phosibl. Mae'n sicr yn fethiant diplomyddol bod y DU ar ei phen ei hun. Holl ddiben diplomyddiaeth yw sicrhau bod gennych gynghreiriaid, ond nid oes gennym ni'r un.

change soon for the benefit of the people of Wales and of the rest of the UK.

William Graham: I am sure that you will agree that, following the changes to the credit rating of nine European countries last week, the financial markets retain their confidence in the UK Government's policies and that the stability of the UK's credit rating will underpin the future economic growth of Wales and the United Kingdom, coupled with the fact that a fall in inflation has been announced.

The First Minister: The credit ratings are of interest and important, but they are arcane to the public. What the public wants to see is a reduction in inflation, job opportunities and reduction in unemployment. People want to see a situation in which their standard of living improves and they do not feel continuously squeezed, which is the situation at the moment; that is what the public feels.

Alun Ffred Jones: Wrth israddio statws credyd nifer o wledydd Ewrop yr wythnos diwethaf, dywedodd yr asiantaethau credyd fod y polisi hwn o grebachu, o *austerity*, wedi methu, fel y dywedodd Mark Drakeford. Fodd bynnag, dros y Sul, dywedodd Ed Balls, llefarydd Llafur ar faterion cyllidol, yn glir na fyddai Llafur yn tynnu'n ôl oddi wrth yr holl doriadau y mae Llywodraeth yn San Steffan wedi'i wneud. Felly, ym mha ffordd y bydd polisi Llafur yn helpu Cymru, gan gofio'r ymosodiadau cyson rydych wedi'u gwneud ar Lywodraeth San Steffan a'r ffordd y maent yn effeithio ar Gymru?

Y Prif Weinidog: Rydym wedi dangos hynny drwy'r hyn rydym yn ei wneud yma yng Nghymru i leihau effaith y toriadau ar Gymru, wrth edrych ar bethau fel y cynlluniau rydym wedi'u datgan i roi arian i mewn i economi Cymru i helpu pobl i ddelio â thlodi tanwydd ac i sicrhau bod gan bobl Cymru y ffordd fwyaf effeithiol posibl o amddiffyn ei hun, wrth gofio'r hyn sy'n digwydd yn y Deyrnas Unedig.

Blaenoriaethau

8. Suzy Davies: *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei brif flaenoriaethau ar gyfer y*

Rhaid i'r sefyllfa newid yn fuan er lles pobl Cymru a gweddill y DU.

William Graham: Rwyf yn siŵr y byddwch yn cytuno, yn dilyn y newidiadau i statws credyd naw o wledydd Ewrop yr wythnos diwethaf, bod y marchnadoedd ariannol yn cadw eu hyder ym mhobolisiau Llywodraeth y DU ac y bydd sefydlogrwydd statws credyd y DU yn sail i dwf economaidd Cymru a'r Deyrnas Unedig yn y dyfodol, ynghyd â'r ffaith bod gostyngiad mewn chwyddiant wedi cael ei gyhoeddi.

Y Prif Weinidog: Mae statws credyd o ddiddordeb ac yn bwysig, ond mae'n rhywbeth lled-ddirgel i'r cyhoedd. Yr hyn y mae'r cyhoedd am ei weld yw gostyngiad mewn chwyddiant, cyfleoedd gwaith a llai o ddiweithdra. Mae pobl eisiau gweld sefyllfa lle mae eu safon byw yn gwella a lle nad ydynt yn teimlo gwasgfa barhaus, sef y sefyllfa ar hyn o bryd; dyna beth y mae'r cyhoedd yn ei deimlo.

Alun Ffred Jones: In downgrading the credit status of a number of European nations last week, the credit agencies said, of course, that this austerity policy had failed, as Mark Drakeford has said. However, over the weekend, Ed Balls, the Labour spokesperson on financial matters, made it clear that Labour would not reverse all of the cuts that the Westminster Government has made. In what way, therefore, will Labour's policy assist Wales, bearing in mind the consistent attacks that you have made on the Westminster Government and their impact upon Wales?

The First Minister: We have demonstrated that by what we have done here in Wales to reduce the impact of the cuts upon Wales, by looking at such things as the schemes that we have announced to put money into the Welsh economy to deal with fuel poverty and to ensure that the people of Wales have a way of protecting themselves that is as effective as possible, bearing in mind what is happening in the United Kingdom.

Priorities

8. Suzy Davies: *Will the First Minister outline his key priorities for the next six*

chwe mis nesaf. OAQ(4)0302(FM)

The First Minister: They are to be found in our programme for government.

Suzy Davies: Contributing to the security of our energy suppliers is clearly a key priority, but not at any cost. Does your Government propose to inquire into the safety of coal gas exploration onshore or offshore, as in the Swansea bay proposals? On a similar vein, will you update us on any further information that your Government may have on the safety of fracking, which has already caused much concern in the Chamber?

The First Minister: The licensing of fracking is not devolved; it is a matter for the UK Government. However, we would support a precautionary approach in order to ensure that people's concerns are assuaged.

Rebecca Evans: Disabled people in Wales are rightly fearful that the UK Government's cuts in disability benefits will have a terrible impact on their lives. Disability charities' experts and disabled people themselves have said that the cuts are arbitrary. First Minister, will you make it a priority to stand up for disabled people in Wales? Will you ask the Prime Minister to remind his colleague in the Department for Work and Pensions that she is the Minister for Disabled People, not the Minister against disabled people?

The First Minister: The ministerial task and finish group continues to scrutinise the impact of the proposals for welfare reform. It has commissioned a comprehensive assessment of the cumulative impact on the people of Wales. A statement will be made to Members shortly once the analysis is complete. In the meantime, I understand that the Minister for Education and Skills has written to the UK Minister for Disabled People to request a meeting to discuss this.

Rhodri Glyn Thomas: Brif Weinidog, fe'ch holais yr wythnos diwethaf ynglŷn â'r ymchwiliad mewnol i Gymdeithas Cymru Gyfan ar gyfer Lleiafrifoedd Ethnig. Gofynnais ichi'n benodol a oedd gennych hyder bellach yn gallu'r gymdeithas honno

months. OAQ(4)0302(FM)

Y Prif Weinidog: Maent i'w cael yn ein rhaglen lywodraethu.

Suzy Davies: Mae cyfrannu at ddiogelwch ein cyflenwyr ynni yn amlwg yn brif flaenoriaeth, ond nid os yw'r gost yn rhy uchel. A yw eich Llywodraeth yn bwriadu ymchwilio i ddiogelwch nwy glo ar y tir neu ar y môr, fel sy'n cael ei gynnig ym mae Abertawe? Hefyd, a wnewch chi roi unrhyw wybodaeth bellach inni sydd gan eich Llywodraeth am ddiogelwch ffracio, sydd eisoes wedi achosi llawer o bryder yn y Siambr?

Y Prif Weinidog: Nid yw trwyddedu ffracio wedi ei ddatganoli; mae'n fater i Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, byddem yn cefnogi dull rhagofalus er mwyn sicrhau bod pryderon pobl yn cael eu lleddfu.

Rebecca Evans: Mae pobl anabl yng Nghymru yn ofni y bydd toriadau Llywodraeth y DU i fudd-daliadau anabledd yn cael effaith ddifrifol ar eu bywydau. Mae arbenigwyr elusennau anabledd a phobl anabl eu hunain wedi dweud bod y toriadau yn fympwyol. Brif Weinidog, a fyddwch yn ei gwneud yn flaenoriaeth i sefyll dros bobl anabl yng Nghymru? A fyddwch yn gofyn i'r Prif Weinidog atgoffa ei gydweithiwr yn yr Adran Gwaith a Phensiynau mai'r Gweinidog dros Bobl Anabl yw hi, ac nid y Gweinidog yn erbyn pobl anabl?

Y Prif Weinidog: Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen o Weinidogion yn parhau i graffu ar effaith y cynigion i ddiwygio lles. Mae wedi comisiynu asesiad cynhwysfawr o'r effaith gronnus ar bobl Cymru. Bydd datganiad yn cael ei wneud i Aelodau yn fuan ar ôl cwblhau'r dadansoddiad. Yn y cyfamser, rwyf ar ddeall bod y Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi ysgrifennu at Weinidog y DU dros Bobl Anabl i ofyn am gyfarfod i drafod hyn.

Rhodri Glyn Thomas: First Minister, I asked you a question last week about the internal inquiry into the All Wales Ethnic Minority Association. I asked you specifically whether you now had confidence in the ability of that association and its chief

a'i phrif weithredwr i fod yn gyfrifol am brosiectau Ewropeaidd gwerth £8.4 miliwn. Gwnaethoch gydnabod bod y cyhuddiadau yn erbyn y prif weithredwr, Naz Malik, yn rhai difrifol, a dywedasoch fod ymchwiliad ar droed. Fodd bynnag, ni ddywedasoch pryd y byddech mewn sefyllfa i wneud cyhoeddiad yn y Siambr i Aelodau'r Cynulliad am y prosiectau hynny. A wnewch chi ein goleuo y prynhawn yma ynglŷn â hynny?

Y Prif Weinidog: Ni allaf roi dyddiad, ond mae adolygiad ar waith. Mae'r cyhuddiadau yn ddifrifol dros ben, ac mae'n bwysig dros ben fod popeth yn cael ei arolygu er mwyn i'r cyhoedd gael ffydd yn y corff hwn yn y dyfodol.

William Powell: A key priority for all of us in the coming months should surely be to do whatever we can to help to uphold the morale of our Welsh servicemen and their families serving their country abroad. As such, are you willing to join me in supporting the campaign, led by Captain Williams of the Royal Welsh Regimental Association, to restyle the A470 the 'Royal Welsh Way', as a symbol of our understanding of their commitment to their country and also for its potential to enhance a sense of place and to give a valuable shot in the arm to our tourist industry?

The First Minister: It is an interesting idea and something that we will look at. I do not think that there is a precedent for it anywhere in Wales, and I am not sure whether it would be an official name or an unofficial name—although I do not think that it matters very much one way or the other. If you write to me with further details, it is something that I would be more than happy to investigate.

Bwlio

9. Rebecca Evans: *Sut mae Llywodraeth Cymru yn helpu i fynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion. OAQ(4)0295(FM)*

The First Minister: In addition to the comprehensive anti-bullying guidance that we published last autumn, we have made £300,000 available to local authorities this academic year for behaviour management training for teachers, including specific anti-

executive to be responsible for European projects worth £8.4 million. You acknowledged that the allegations against the chief executive, Naz Malik, were serious, and said that an inquiry was under way. However, you did not say when you would be able to make an announcement in this Chamber to Assembly Members about those projects. Can you enlighten us about that this afternoon?

The First Minister: I cannot give a date, but a review is under way. The allegations are very serious, and it is very important indeed that everything is reviewed so that the public can have confidence in this organisation in the future.

William Powell: Dylai gwneud popeth o fewn ein gallu i helpu i gynnal morâl aelodau o'r lluoedd arfog o Gymru a'u teuluoedd sy'n gwasanaethu eu gwlad dramor fod yn brif flaenoriaeth i bob un ohonom dros y misoedd nesaf. Felly, a ydych yn barod i ymuno â mi i gefnogi'r ymgyrch, a arweinir gan y Capten Williams o Gymdeithas Gatrodol y Cymry Brenhinol, i ailenwi ffordd yr A470 yn 'Ffordd y Cymry Brenhinol', fel arwydd o'n dealltwriaeth o'u hymrwymiad i'w gwlad, a hefyd oherwydd y posibilrwydd y bydd yn cynyddu'r ymdeimlad o le ac yn rhoi hwb gwerthfawr i'n diwydiant twristiaeth?

Y Prif Weinidog: Mae'n syniad diddorol ac mae'n rhywbeth y byddwn yn edrych arno. Nid wyf yn credu bod cynsail ar ei gyfer yng Nghymru, ac nid wyf yn siŵr a fyddai'n enw swyddogol neu answyddogol—er nad wyf yn credu ei fod fawr o ots y naill ffordd neu'r llall. Os byddwch yn ysgrifennu ataf gyda manylion pellach, mae'n rhywbeth y byddwn yn hapus i'w ymchwilio.

Bullying

9. Rebecca Evans: *How is the Welsh Government helping to tackle bullying in schools. OAQ(4)0295(FM)*

Y Prif Weinidog: Yn ogystal â'r canllawiau gwrth-fwlio cynhwysfawr a gyhoeddwyd gennym yr hydref diwethaf, rydym wedi rhoi £300,000 i awdurdodau lleol yn y flwyddyn academiaidd hon ar gyfer hyfforddiant rheoli ymddygiad i athrawon, gan gynnwys

bullying interventions.

Rebecca Evans: Recent research published in Barnardo's 'In Their Shoes' report highlighted the complexity of girls' social interactions and the negative impact that peer relationships can have. Bullying among girls is very subtle, but it can have a significant impact. How is the Welsh Government ensuring that teachers are equipped to identify this kind of bullying and to deal with it?

The First Minister: Bullying can take many forms and, as the Barnardo's report highlights, can have a profound, negative impact on the emotional and mental wellbeing of its victims; that much I think that we would all accept. As I mentioned earlier, we are placing an increased focus on improving behaviour in schools, and, to help in that aim, modules are being developed to equip all newly qualified teachers with the skills that they need in behaviour management.

Angela Burns: I am grateful to Rebecca Evans for raising such an important question. First Minister, you mentioned the amount of funding that you are putting towards anti-bullying policies. Are you also able to tell us what you are doing to monitor best practice with regard to anti-bullying policies? I want to bring to your attention that Greenhill School in Tenby is running peer mentoring groups, the first of their kind, which contain students who are two years ahead of the students whom they are mentoring. The school already has 40 peer mentors and has almost eradicated bullying within the school, with the help of a psychological counselling service called the Adlerian Society. Funding is great, but what are you doing about ensuring that best practice reaches all parts of Wales?

The First Minister: The behaviour management training will be evaluated. The intention will then be for the evaluation to be used to funnel best practice across the whole of Wales.

Leanne Wood: It is often said that your school days are the best days of your life, but,

ymyriadau gwrth-fwlio penodol.

Rebecca Evans: Mae gwaith ymchwil diweddar a gyhoeddwyd yn adroddiad 'In Their Shoes' Barnardo's yn amlygu cymhlethdod y rhyngweithio cymdeithasol ymysg merched a'r effaith negyddol y gall perthynas cyfoedion ei chael. Mae bwlio ymysg merched yn gynnil iawn, ond gall gael effaith sylweddol. Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod athrawon yn cael eu paratoi i adnabod y math hwn o fwlio ac i ymdrin ag ef?

Y Prif Weinidog: Gall bwlio ddigwydd ar sawl ffurf ac, fel y mae adroddiad Barnardo's yn ei nodi, gall gael effaith ddefn a negyddol ar les emosiynol a meddyliol y dioddefwyr; credaf fod hynny'n rhywbeth y byddem oll yn ei dderbyn. Fel y soniais yn gynharach, rydym yn rhoi mwy o bwyslais ar wella ymddygiad mewn ysgolion, ac mae modiwlau'n cael eu datblygu i helpu hynny er mwyn galluogi i'r holl athrawon sydd newydd gymhwyso gael y sgiliau rheoli ymddygiad sydd eu hangen arnynt.

Angela Burns: Rwyf yn ddiolchgar i Rebecca Evans am godi cwestiwn mor bwysig. Brif Weinidog, rydych yn sôn am y swm o arian yr ydych yn ei roi at bolisiau gwrth-fwlio. A ydych hefyd yn gallu dweud wrthym beth ydych yn ei wneud i fonitro'r arferion gorau o ran polisiau gwrth-fwlio? Hoffwn dynnu eich sylw at Ysgol Greenhill yn Ninbych-y-pysgod, sy'n cynnal grwpiau mentora cyfoedion, y cyntaf o'u math, sy'n cynnwys myfyrwyr sydd ddwy flynedd yn hŷn na'r myfyrwyr y maent yn eu mentora. Mae gan yr ysgol eisoes 40 o fentoriaid cyfoedion ac mae wedi dileu bwlio bron yn llwyr o'r ysgol, gyda chymorth gwasanaeth cwnsela seicolegol, y Gymdeithas Adlerian. Mae cyllid yn wych, ond beth ydych chi'n ei wneud i sicrhau bod arfer gorau yn cyrraedd pob rhan o Gymru?

Y Prif Weinidog: Bydd yr hyfforddiant ar reoli ymddygiad yn cael ei werthuso. Y bwriad wedyn yw defnyddio'r gwerthusiad i ledaenu arfer gorau ledled Cymru.

Leanne Wood: Dywedir yn aml mai dyddiau ysgol yw dyddiau gorau eich bywyd, ond, os

if you are being bullied, they can also be the worst. In order to tackle sexism, racism, homophobia and domestic abuse, which are still far too prevalent in our society, I am of the view that we need to start early. I wrote a paper in 2008 called 'Making our Communities Safer', within which I advocated a generational strategy to tackle hate-based or power-based crime, starting within the primary school curriculum. Will you explore the possibility of introducing such a strategy to try to stamp out hate crime, abuse and bullying, so that we can, hopefully, create the hate-free society that I am sure that we would all like to see in Wales?

The First Minister: Absolutely. We will look at all well-presented measures to deal with bullying. Initial anti-bullying guidance was issued in 2003 and more detailed guidance has been issued since then and has dealt with five key areas: bullying on the basis of race, culture and religion; sexist, sexual and transphobic bullying; homophobic bullying; bullying involving pupils with special educational needs and disabilities; and cyber bullying.

Rhoi Hwb i Dwf Economaidd yn Ne Clwyd

10. Kenneth Skates: *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei gynlluniau i roi hwb i dwf economaidd yn Ne Clwyd dros y deuddeg mis nesaf. OAQ(4)0301(FM)*

The First Minister: Our plans are to be found in the programme for government.

Kenneth Skates: Given the importance of good transport links to the economy, I am concerned that rail services between north-east Wales and London may not be protected as part of any new franchise arrangements for the west coast main line. The UK Government recently rejected a suggestion by north Wales Members of Parliament in December that rail companies that want to be awarded a future contract for the west coast main line would have to ensure a direct link between Wrexham and London as part of the deal.

ydych yn cael eich bwlio, gallant hefyd fod y dyddiau gwaethaf. Er mwyn mynd i'r afael â rhywiaeth, hiliaeth, homoffobia a cham-drin yn y cartref, sy'n parhau i fod yn llawer rhy gyffredin yn ein cymdeithas, rwyf o'r farn bod angen i ni ddechrau yn gynnar. Ysgrifennais bapur yn 2008 o'r enw 'Gwneud ein Cymunedau'n Fwy Diogel', lle'r oeddwn yn argymhell strategaeth dros genhedlaeth ar droseddau atgasedd neu droseddau ar sail pŵer, gan ddechrau yng nghwricwlwm ysgolion cynradd. A wnewch chi edrych ar bosibilrwydd cyflwyno strategaeth o'r fath i geisio cael gwared ar droseddau casineb, cam-drin a bwlio, fel y gallwn, gobeithio, greu cymdeithas ddi-gasineb yr wyf yn siŵr y byddai pob un ohonom yn hoffi ei gweld yng Nghymru?

Y Prif Weinidog: Yn sicr. Byddwn yn edrych ar yr holl fesurau sydd wedi'u cyflwyno'n dda i ymdrin â bwlio. Cyhoeddwyd y canllawiau gwrth-fwlio gwreiddiol yn 2003 ac mae canllawiau mwy manwl wedi eu cyhoeddi ers hynny sydd wedi ymdrin â phum prif faes: bwlio ar sail hil, diwylliant a chrefydd; bwlio rhywiaethol, rhywiol a thrawsffobig; bwlio homoffobig; bwlio disgyblion ag anghenion addysgol arbennig ac anabledau; a seiber-fwlio.

Boosting Economic Growth in Clwyd South

10. Kenneth Skates: *Will the First Minister outline his plans to boost economic growth in Clwyd South in the next twelve months. OAQ(4)0301(FM)*

Y Prif Weinidog: Gellir dod o hyd i'n cynlluniau yn y rhaglen lywodraethu.

Kenneth Skates: O gofio pwysigrwydd cysylltiadau trafniadaeth da i'r economi, rwyf yn pryderu bod posibilrwydd na all gwasanaethau trên rhwng gogledd-ddwyrain Cymru a Llundain gael eu diogelu fel rhan o unrhyw drefniadau masnachfaint newydd ar gyfer prif linell arfordir y gorllewin. Yn ddiweddar, gwrthododd Llywodraeth y DU awgrym gan Aelodau Seneddol o ogledd Cymru ym mis Rhagfyr y byddai'n rhaid i gwmnïau rheilffordd sydd am ennill contract yn y dyfodol ar gyfer prif linell arfordir y gorllewin sicrhau cysylltiad uniongyrchol

rhwng Wrecsam a Llundain fel rhan o'r fargen.

2.15 p.m.

Would you agree with me that changing the franchise is particularly important, given the recent decision to cancel the Wrexham to Marylebone service? Will the Welsh Government work with Westminster colleagues to ensure that services between Wrexham and London are protected as part of any new arrangements for the West Coast main line?

A fydddech yn cytuno â mi fod newid y fasnachfaint yn arbennig o bwysig, o ystyried y penderfyniad diweddar i ganslo'r gwasanaeth rhwng Wrecsam a Marylebone? A fydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda chydweithwyr yn San Steffan i sicrhau bod gwasanaethau rhwng Wrecsam a Llundain yn cael eu diogelu fel rhan o unrhyw drefniadau newydd ar gyfer prif reilffordd arfordir gorllewin Lloegr?

The First Minister: We formally responded to the Department for Transport's consultation on the new West Coast franchise. We outlined our view that the current service levels and calling patterns should be retained as a minimum requirement. In addition, we made the case for a number of enhancements, including additional calls at Wrexham. We will continue to make the case for services to call at Wrexham in the new franchise, and we are currently meeting the short-listed bidders for the new franchise and making them aware of our aspirations for Wrexham.

Y Prif Weinidog: Gwnaethom ymateb yn ffurfiol i ymgynghoriad yr Adran Drafnidiaeth ynghylch y fasnachfaint newydd ar gyfer arfordir gorllewin Lloegr. Gwnaethom amlinellu ein barn y dylid cadw'r lefelau gwasanaeth a phatrymau galw presennol fod yn isafswm yr hyn sy'n ofynnol. Yn ogystal, gwnaethom gyflwyno achos dros nifer o welliannau, gan gynnwys sicrhau bod gwasanaethau'n galw yn Wrecsam yn fwy aml. Byddwn yn parhau i gyflwyno'r achos dros sicrhau bod gwasanaethau'n galw yn Wrecsam fel rhan o'r fasnachfaint newydd, ac rydym wrthi'n cyfarfod â'r ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer ar gyfer y fasnachfaint newydd ac yn sicrhau eu bod yn gwybod am ein dyheadau ynghylch Wrecsam.

Antoinette Sandbach: First Minister, I am sure that you appreciate that the future of Kronospan in Chirk is hugely important to the local economy, where it employs 600 people, 90% of whom live within 10 miles of the factory. There are serious concerns that your Government's proposal to merge Forestry Commission Wales into the single environment body may undermine the good commercial relationship it has with the forestry sector. First Minister, what confidence do you have that a single body, with regulation as its main focus, will be able to maintain and improve commercial relationships with employers in the forestry sector across north Wales, and are you prepared to look at that merger again if the evidence demonstrates that including the Forestry Commission will damage the Welsh economy?

Antoinette Sandbach: Brif Weinidog, rwyf yn siŵr eich bod yn gwerthfawrogi bod dyfodol Kronospan yn y Waun yn hynod bwysig i'r economi leol, lle y mae'n cyflogi 600 o bobl, y mae 90% ohonynt yn byw o fewn 10 milltir i'r ffatri. Mae pryderon mawr y gallai cynnig eich Llywodraeth i uno Comisiwn Coedwigaeth Cymru â'r corff amgylchedd sengl danseilio'r berthynas fasnachol dda sydd ganddo gyda'r sector coedwigaeth. Brif Weinidog, pa mor hyderus ydych y bydd un corff, sy'n canolbwyntio ar reoleiddio, yn gallu cynnal a gwella cysylltiadau masnachol â chyflogwyr yn y sector coedwigaeth ar draws gogledd Cymru, ac a fyddwch yn barod i ystyried yr uno eto os bydd y dystiolaeth yn dangos bod cynnwys y Comisiwn Coedwigaeth yn niweidio economi Cymru?

The First Minister: There is no evidence to suggest that. You seem to suggest that the Forestry Commission is not a regulatory body, when it is. It is a regulatory body and a commercial body. It is hardly unusual for a regulatory and a commercial body to be one and the same. As part of the single environmental body, we want to make it easier for good environmental advice to be given, for regulation to be more streamlined—which I would have thought your party would welcome—and to ensure that sight is not lost of the important commercial function that currently lies with Forest Enterprise, to be more precise. Of course, we recognise the strong role that Kronospan plays in Chirk and beyond.

Y Prif Weinidog: Nid oes tystiolaeth sy'n awgrymu hynny. Ymddengys eich bod yn awgrymu nad yw'r Comisiwn Coedwigaeth yn gorff rheoleiddio, ond dyna yw. Mae'n gorff rheoleiddio ac yn gorff masnachol. Nid yw'n anarferol mai'r un corff yw'r corff rheoleiddio a'r corff masnachol. Fel rhan o'r corff amgylcheddol unigol, rydym yn dymuno sicrhau ei bod yn haws rhoi cyngor amgylcheddol da—byddwn wedi meddwl y byddai eich plaid yn croesawu hynny—a sicrhau nad anghofir y swyddogaeth fasnachol bwysig sydd ym meddiant Menter Coedwigaeth ar hyn o bryd, i fod yn fwy manwl gywir. Wrth gwrs, rydym yn cydnabod y rôl gref y mae Kronospan yn ei chwarae yn y Waun a thu hwnt.

Llyr Huws Gruffydd: Mae nifer fawr o gynlluniau uchelgeisiol ar y gweill o safbwynt cryfhau'r economi yn Ne Clwyd. Rydym yn sôn am estyn rheilffordd Llangollen i Gorwen, datblygiadau o safbwynt safle treftadaeth Pontcysyllte, ehangu'r gamlas yng Nghefn Mawr, adeiladu'r ddraig enfawr arfaethedig yn y Waun ac yn y blaen. Pa gymorth fydd Llywodraeth Cymru yn ei gynnig i sicrhau bod potensial y prosiectau hyn yn cael ei wireddu'n llawn, yn enwedig o safbwynt sicrhau bod De Clwyd yn atyniad twristiaeth drwy'r flwyddyn, yn hytrach na'n rhywbeth tymhorol?

Llyr Huws Gruffydd: There are a large number of ambitious schemes in the pipeline for strengthening the economy in Clwyd South. We are talking about extending the Llangollen railway to Corwen, developments in terms of the Pontcysyllte heritage site, expanding the canal at Cefn Mawr, building the huge dragon in Chirk and so on. What assistance will the Welsh Government give to ensure that the potential of these projects is fully achieved, particularly in terms of ensuring that Clwyd South is a year-long tourist attraction, rather than a seasonal attraction?

Y Prif Weinidog: Lle mae'n bosibl inni roi cymorth, rydym yn gwneud hynny—os bydd ceisiadau'n cael eu gwneud ynglŷn â rheilffordd Llangollen a Phontcysyllte, neu'r gerfluniaeth yn y Waun. Fy nealltwriaeth i yw nad ydynt am gael arian cyhoeddus er mwyn symud hynny ymlaen. Byddwn yn rhoi cymorth i brosiectau da yn Ne Clwyd, lle mae arian ar gael i wneud hynny.

The First Minister: Where it is possible for us to give assistance, we do so—if bids are made for the Llangollen railway and Pontcysyllte, or the sculpture at Chirk. My understanding is that they do not want public funding in order to take that forward. We will provide assistance for good projects in Clwyd South, where the funding is available to do so.

Cyllidebau Byrddau Iechyd Lleol

Budget of Local Health Boards

11. Rhodri Glyn Thomas: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynglŷn â chyllidebau Byrddau Iechyd Lleol. *OAQ(4)0304(FM)*

11. Rhodri Glyn Thomas: Will the First Minister make a statement on the budgets of Local Health Boards. *OAQ(4)0304(FM)*

Y Prif Weinidog: Yn dilyn y cyhoeddiad fis Hydref fod y Cabinet wedi cytuno i ddarparu cyllid ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth iechyd gwladol yn y flwyddyn gyfredol,

The First Minister: Following the announcement in October that the Cabinet had agreed to provide the national health service with additional funding in the current

mae'n rhaid i'r byrddau iechyd gwrdd â'u targedau ariannol.

Rhodri Glyn Thomas: Er bod arian ychwanegol wedi'i ddarparu, Brif Weinidog, ac er eich bod yn dweud bod yn rhaid i fyrddau iechyd weithredu o fewn eu cyllidebau, y gwir amdani yw mai dim ond un bwrdd iechyd sy'n debygol o fod o fewn ei chyllideb erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ar ddiwedd mis Mawrth. Yn gynharach yn y flwyddyn, wrth i Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda gyhoeddi bod llawdriniaethau dewisol dros y Nadolig a'r flwyddyn newydd wedi'u gohirio—sef yr ymarfer arferol—dywedodd y byddai'n rhaid ymestyn y gohiriadau hynny i mewn i'r flwyddyn newydd er mwyn cwrdd â gofynion cyllidebol. A ydych yn credu ei bod yn dderbyniol bod llawdriniaethau'n cael eu gohirio er mwyn galluogi bwrdd iechyd i weithredu o fewn ei gyllideb?

Y Prif Weinidog: Nid oes tystiolaeth o hynny. Mae'n bwysig bod y byrddau iechyd yn cwrdd â'u targedau. Os yw'n bosibl i rai ohonynt wneud hynny, dylai fod yn bosibl i bob un ohonynt.

Jenny Rathbone: David Cameron has recommended that private companies should soak up the excess demand in the NHS. While I am glad that the Welsh NHS will pick up the pieces where PIP's breast implants have failed their patients, I am concerned that the Welsh NHS is picking up the tab for the poor practice of private health companies. Will we get any money back from them?

The First Minister: If you are referring to the PIP implants, we will ensure that we do all that we can to chase the private companies for reimbursement of the costs that are incurred by the NHS. At present, we are taking legal advice on how that can be best achieved.

Darren Millar: First Minister, it is as a result of your Government's policy and your Government's cuts that LHBs are facing a shortfall of around £50 million by the end of this financial year. At a time when we have spiralling waiting lists, missed targets in

year, all health boards are required to deliver on their financial targets.

Rhodri Glyn Thomas: Even though additional funding has been provided, First Minister, and although you say that health boards have to operate within their budgets, the truth of the matter is that only one health board is likely to be on budget at the end of the financial year at the end of March. Earlier this year, as the Hywel Dda Local Health Board announced that elective surgery over Christmas and the new year would be postponed—which is the usual practice—it said that that would have to be extended into the new year in order to meet budgetary demands. Do you believe that it is acceptable that surgery is postponed in order to enable a health board to operate within its budget?

The First Minister: There is no evidence of that. It is important that health boards meet their targets. If it is possible for some of them to do so, it should be possible for all of them.

Jenny Rathbone: Mae David Cameron wedi argymhell y dylai cwmnïau preifat ymdrin â'r galw gormodol yn y GIG. Er fy mod yn falch y bydd y GIG yng Nghymru yn dod i'r adwy yn yr achosion hynny lle y mae'r mewnbaniadau yn y fron a gafwyd gan PIP wedi siomi eu cleifion, rwyf yn pryderu bod y GIG yng Nghymru yn talu costau o ganlyniad i arfer gwael cwmnïau iechyd preifat. A fyddwn yn cael unrhyw arian yn ôl ganddynt?

Y Prif Weinidog: Os ydych yn cyfeirio at fewnbaniadau PIP, byddwn yn sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i fynd ar ôl y cwmnïau preifat i gael ad-daliad o'r costau y mae'r GIG yn eu talu. Ar hyn o bryd, rydym yn cymryd cyngor cyfreithiol ar y ffordd orau o wneud hynny.

Darren Millar: Brif Weinidog, polisi eich Llywodraeth chi a thoriadau eich Llywodraeth chi sydd wedi golygu bod byrddau iechyd lleol yn wynebu diffyg o tua £50 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. Ar adeg pan fo rhestrau aros yn
Jane Hutt: Rwyf yn siŵr y byddwch yn falch iawn o holi'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth yn fuan ar ei ddatganiad pwysig ar fynd i'r afael â'r her tai.

Pwynt o Drefn Point of Order

Ann Jones: Point of order. Under Standing Order No. 13.9(v), could we reflect on the language used by William Powell, when he talked about 'servicemen'? There are men and women serving in our armed forces, and 'service personnel' might have been a better term to use.

Ann Jones: Pwynt o drefn. O dan Reol Sefydlog Rhif 13.9(v), a allwn ailystyried yr iaith a ddefnyddiwyd gan William Powell wrth sôn am 'wŷr y lluoedd arfog'? Mae dynion a menywod yn gwasanaethu yn ein lluoedd arfog, a gallai 'aelodau o'r lluoedd arfog' wedi bod yn derm gwell i'w ddefnyddio.

The Presiding Officer: That is not a point of order, but I am sure that William Powell will have heard what you said. That also goes for all Members.

Y Llywydd: Nid yw'n bwynt o drefn, ond rwyf yn siŵr y bydd William Powell wedi clywed yr hyn yr oedd gennych i'w ddweud. Mae hynny hefyd yn wir i'r holl Aelodau.

Datganiad: Ysgolion ar gyfer yr Unfed Ganrif ar Hugain Statement: Twenty-first Century Schools

The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews): My statement today is to provide Members with an update on the progress made and our continuing commitment in line with our programme of government to fund high-quality buildings and ICT provision through the twenty-first century schools programme.

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews): Mae fy natganiad heddiw yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am y cynnydd a wnaed, a'n hymrwymiad parhaus yn unol â'n rhaglen lywodraethu, i ariannu adeiladau o ansawdd uchel a darpariaeth TGCh drwy'r rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

In July last year, I issued an update statement

Ym mis Gorffennaf y llynedd, cyhoeddais

on the progress of the twenty-first century schools programme, which, at the time, reflected the difficult decisions that were necessary in moving the programme forward as a result of the significant reduction in capital funding available to the Welsh Government. However, despite the reduction in capital funding, every project that has been approved by my department under the transitional stage of twenty-first century schools is being delivered and will be delivered over the next two years. This programme, as a precursor to twenty-first century schools, will dovetail into the new programme, which is planned to start in the financial year 2014-15.

Following my July 2011 statement, local authorities were asked to review and resubmit their forward outline programmes of investment that underpin their strategic outline programmes against sharper prioritisation criteria, for example, rationalisation of the school estate, including a reduction in surplus places, together with the cost-effectiveness of delivery and alignment with our all-age transformation programme. I also signalled the Welsh Government's intention that the maximum rate of grant support would be set at 50%. As I announced in a written statement in December, I am pleased to say that local authorities met that challenge and have reassessed and prioritised their investment proposals in line with published guidance, and Department for Education and Skills officials met every authority prior to submission of their investment programmes. Authorities' outline programmes of investment seek to address not only the poor condition and surplus capacity in the school estate, but also any investment required for additional learning needs, Welsh-medium education and faith-based school provision.

The twenty-first century schools programme underlines our close working partnership with colleagues in local government, the Welsh Local Government Association, diocesan directors of the voluntary aided sector and CollegesWales. It is through this partnership working that a capital programme

ddatganiad ar y cynnydd diweddaraf ar y rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, a oedd, ar y pryd, yn adlewyrchu'r penderfyniadau anodd a oedd yn angenrheidiol i symud y rhaglen yn ei blaen yn sgîl y gostyngiad sylweddol mewn cyllid cyfalaf a oedd ar gael i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, er gwaethaf y gostyngiad mewn cyllid cyfalaf, mae pob prosiect sydd wedi ei gymeradwyo gan fy adran o dan gyfnod trosiannol y rhaglen yn cael ei gyflawni ac yn mynd i gael ei gyflawni dros y ddwy flynedd nesaf. Bydd y rhaglen hon, fel rhagflaenydd y rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, yn ymblethu i'r rhaglen newydd, sydd wedi'i chynllunio i ddechrau yn y flwyddyn ariannol 2014-15.

Yn dilyn fy natganiad ym mis Gorffennaf 2011, gofynnwyd i awdurdodau lleol adolygu ac ail-gyflwyno eu blaenraglenni amlinellol o fuddsoddiad sy'n sail i'w rhaglenni amlinellol strategol, a hynny ar sail meini prawf o flaenoriaethau mwy llym, er enghraifft, rhesymoli ystâd yr ysgol gan gynnwys gostyngiad mewn lleoedd gwag dros ben, ynghyd â chost-effeithiolrwydd cyflawni'r rhaglenni ac alinio â'n rhaglen drawsnewid i bob oed. Hefyd, cyhoeddais fwrriad Llywodraeth Cymru y byddai cyfradd uchafswm y grant cymorth yn cael ei osod ar 50%. Fel y cyhoeddais mewn datganiad ysgrifenedig ym mis Rhagfyr, rwyf yn falch o ddweud bod awdurdodau lleol wedi ateb yr her honno a'u bod wedi ailasesu a blaenoriaethu eu cynigion buddsoddi yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd, a chyfarfu swyddogion o'r Adran Addysg a Sgiliau â phob awdurdod cyn iddynt gyflwyno'u rhaglenni buddsoddi. Mae rhaglenni amlinellol o fuddsoddiad yr awdurdodau yn ceisio mynd i'r afael nid yn unig â chyflwr gwael a lleoedd dros ben ar ystâd yr ysgol, ond hefyd unrhyw fuddsoddiad sydd ei angen ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol, addysg cyfrwng Cymraeg a'r ddarpariaeth addysg ffydd.

Mae'r rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain yn tanlinellu'r bartneriaeth waith agos â'n cydweithwyr mewn llywodraeth leol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, cyfarwyddwyr esgobaethau o'r sector gwirfoddol a gynorthwyr a ColegauCymru. Y bartneriaeth waith hon

has been agreed that ensures that all 22 local authorities will receive Welsh Government grant support of some £700 million per year over a seven-year period, commencing in 2014-15. That said, it will be our intention, where funds allow, to bring forward individual capital projects at an earlier stage. This investment will build upon the £415 million of capital investment that is already being provided by the Welsh Government from the transitional funding programme.

Authorities have been given the security of a long-term capital programme, and that is vital in the current economic climate. The investment in schools announced in December 2011 also sends a positive message to the construction industry that this Government is planning for the long term, and investment in our schools will provide much-needed support to the Welsh economy.

The twenty-first century schools programme will encourage local authorities to secure community benefits, such as training and apprenticeship opportunities, through the adoption of a community benefits approach to procurement, which includes equality of opportunity, local supply chain opportunities, especially for smaller organisations, and positive environmental impacts.

I will continue to work with the Minister for Finance on the issue of securing additional capital, including the development of alternative sources of funding. Collaboration across the Welsh public sector is essential to ensure that we deliver the strategic projects and programmes that will have the greatest impact on the Welsh economy both in terms of direct employment and educating our future workforce.

It is important that we look to maximise our investment of the Welsh pound, as, by 2014-15, the Welsh Government's capital budget will be almost 50% lower in real terms than it was in 2009-10. We will look to explore more effective design of school buildings to make our investment work harder, and my officials are already meeting leading architectural organisations within and outside

oedd sail y rhaglen gyfalaf sydd wedi'i chytuno arni sy'n sicrhau y bydd pob un o'r 22 awdurdod lleol yn cael cymorth grant gan Lywodraeth Cymru o tua £700 miliwn y flwyddyn dros gyfnod o saith mlynedd, gan ddechrau yn 2014-15. Wedi dweud hynny, lle bo cyllid yn caniatáu, mae'n fwriad gennym gychwyn rhai prosiectau cyfalaf unigol yn gynharach. Bydd y buddsoddiad hwn yn adeiladu ar y £415 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf sydd eisoes yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru o'r rhaglen ariannu drosiannol.

Rhoddyd sicrwydd i awdurdodau o raglen gyfalaf tymor hir, ac mae hynny'n hanfodol yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Mae'r buddsoddiad mewn ysgolion a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2011 hefyd yn anfon neges gadarnhaol i'r diwydiant adeiladu fod y Llywodraeth yn cynllunio ar gyfer y tymor hir, a bydd buddsoddiad yn ein hysgolion yn darparu cefnogaeth y mae ei hangen yn fawr ar economi Cymru.

Bydd y rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain yn annog awdurdodau lleol i sicrhau buddiannau cymunedol, megis cyfleoedd hyfforddi a phrentisiaeth, drwy fabwysiadu dulliau caffael sy'n dod â buddiannau cymunedol, sy'n cynnwys cyfle cyfartal, cyfleoedd i gadwyni cyflenwi leol, yn enwedig i sefydliadau llai, ac effeithiau amgylcheddol cadarnhaol.

Byddaf yn parhau i weithio gyda'r Gweinidog cyllid ar y mater o sicrhau cyfalaf ychwanegol, gan gynnwys datblygu ffynonellau eraill o arian. Mae cydweithio ar draws sector cyhoeddus Cymru yn hanfodol er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r prosiectau a'r rhaglenni strategol a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar economi Cymru o ran cyflogaeth uniongyrchol ac addysgu ein gweithlu yn y dyfodol.

Mae'n bwysig ein bod yn gwneud y mwyaf o'n buddsoddiad o'r bunt Gymreig, oherwydd, erbyn 2014-15, bydd cyllideb cyfalaf Llywodraeth Cymru bron i 50% yn is mewn termau real nag yr oedd yn 2009-10. Byddwn yn edrych i archwilio dyluniadau mwy effeithiol o adeiladau ysgol er mwyn gwneud i'r buddsoddiad weithio'n galetach, ac mae fy swyddogion eisoes yn cyfarfod â'r

Wales to explore innovative ways of delivering schools for the twenty-first century.

The announcement of nearly £1.4 billion is an important contribution to the Wales infrastructure investment plan, identifying and prioritising our investment into the schools estate through the twenty-first century schools programme.

Finally, it is important to recognise how far we have come since the launch of the twenty-first century schools programme in March 2010. Securing capital investment in these difficult economic times is essential, not only for better education outcomes, but also for improving the economy of our communities.

I want schools in Wales to be places that inspire our young people, that can accommodate twenty-first century technology, and that can be adapted to meet the changing needs of learners in a rapidly developing knowledge economy. Schools also need to be resources for their local communities, and they need to work seamlessly and coherently with providers of education and training.

My statement underlines our commitment, as a Welsh Government, to improving the lives of people in Wales. I am pleased to expand further on the statement that we made in December.

Angela Burns: I agree with your penultimate paragraph in your statement, Minister, as I, too, want schools in Wales to be places that inspire our young people and that can accommodate twenty-first century technology. That is why I had to read this statement three or four times, because, to be truthful, it is like *Groundhog Day*: it adds practically nothing to the statement that you issued on 5 December. I have been through the statement with a fine-toothed comb and have compared it to the one issued on 5 December and it is pretty much a cut-and-paste job. I still do not get what you are telling us today that is so different. I looked forward to this statement, because it is vital that we get schools fit for the twenty-first

prif sefydliadau pensaernïol yng Nghymru a thu hwnt er mwyn edrych ar ffyrdd arloesol o ddarparu ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

Mae'r cyhoeddiad o bron i £1.4 biliwn yn gyfraniad pwysig at y cynllun buddsoddi mewn seilwaith i Gymru, gan nodi a blaenoriaethu ein buddsoddiad yn yr ystâd ysgolion drwy'r rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

Yn olaf, mae'n bwysig cydnabod pa mor bell rydym wedi dod ers lansio'r rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain ym mis Mawrth 2010. Mae sicrhau buddsoddiad cyfalaf yn y cyfnod economaidd anodd hwn yn hanfodol, nid yn unig ar gyfer canlyniadau addysg gwell, ond hefyd er mwyn gwella economi ein cymunedau.

Rwyf am i ysgolion yng Nghymru fod yn fannau sy'n ysbrydoli ein pobl ifanc, a all gynnwys technoleg yr unfed ganrif ar hugain, ac y gellir eu haddasu er mwyn cwrdd ag anghenion newidiol dysgwyr mewn economi wybodaeth sy'n datblygu'n gyflym. Mae hefyd angen i ysgolion fod yn adnoddau ar gyfer eu cymunedau lleol, ac mae angen iddynt weithio'n ddi-dor ac yn synhwyrol â darparwyr addysg a hyfforddiant.

Mae fy natganiad yn tanlinellu ein hymrwymiad, fel Llywodraeth Cymru, i wella bywydau pobl yng Nghymru. Rwyf yn falch i allu ehangu ymhellach ar y datganiad a wnaethom ym mis Rhagfyr.

Angela Burns: Rwyf yn cytuno â'r paragraff olaf ond un yn eich datganiad, Weinidog, oherwydd fy mod i, hefyd, am i ysgolion yng Nghymru fod yn fannau sy'n ysbrydoli ein pobl ifanc ac a all gynnwys technoleg yr unfed ganrif ar hugain. Dyna pam y bu'n rhaid i mi ddarllen y datganiad hwn dair neu bedair gwaith, oherwydd, i fod yn onest, mae'n debyg i *Groundhog Day*: nid yw'n ychwanegu fawr ddim at y datganiad a gyhoeddwyd gennych ar 5 Rhagfyr. Rwyf wedi bod drwy'r datganiad gyda chrib mân ac wedi ei gymharu â'r un a gyhoeddwyd ar 5 Rhagfyr ac, mewn difrif, nid yw'n ddim mwy nag ymarfer torri-a-gludo. Rwyf yn dal yn methu â gweld beth sydd mor wahanol yn yr hyn rydych yn ei ddweud wrthym heddiw.

century. Apart from the usual swipe at the UK Government—and financial mismanagement at a UK level by the previous Labour Government is why we are in the state that we are—the rest of the statement is pretty much exactly what was stated on 5 December. In fact, if you had not had referred so clearly to the statement on 5 December as you finished, I would have wondered whether your officials had forgotten that you had made it.

The only new part in the statement is your comment about wanting to explore more effective designs for school buildings to make the investment work harder, and that you are meeting the leading architectural organisations. I assume that that is because you relieved Martin Lipson of his job of trying to bring twenty-first century schools to Wales in the same way that he helped Tony Blair's Government to bring the Building Better Schools for the Future programme to the Westminster group.

The Presiding Officer: Order. Are you planning on asking any questions?

Angela Burns: Indeed I am, Presiding Officer. I would like to ask the Minister a question on an issue that he has not addressed in his statement, which is: can he confirm that local authorities have enough money in their budgets to carry out these capital investments? Can he also confirm that money will not be wasted in the twenty-first century schools programme? I draw your attention to the enormous build at Queen Elizabeth High School in Carmarthen, and the fact that Carillion plc, which was the private company that did that build, has apparently walked off the site, wanting to write off £1 million in debt rather than to go back and put right what it did wrong. That shows something about the management of that project. We want to ensure that that does not happen in the rest of Wales. Can you expand on your statement on 5 December—I was expecting to see this reflected in your statement today—and provide further news on your investment plan for the further education sector? Finally, you mention your talks with the Minister for

Roeddwn yn edrych ymlaen at y datganiad hwn, gan ei bod yn hanfodol ein bod yn cael ysgolion sy'n addas at yr unfed ganrif ar hugain. Ar wahân i'r feirniadaeth arferol o Lywodraeth y DU—a chamreolaeth ariannol y Llywodraeth Lafur flaenorol yw'r rheswm pam rydym yn y sefyllfa hon—mae gweddill y datganiad fwy neu lai yn union yr un fath â datganiad 5 Rhagfyr. Yn wir, pe na byddech wedi cyfeirio mor glir at y datganiad ar 5 Rhagfyr wrth ichi orffen, byddwn wedi tybio bod eich swyddogion wedi anghofio ichi ei wneud o gwbl.

Yr unig ran newydd yn y datganiad yw eich sylwadau am yr awydd i archwilio dyluniadau mwy effeithiol ar gyfer adeiladau ysgolion er mwyn gwneud i'r buddsoddiad weithio'n galetach, ac eich bod yn cwrdd â'r prif sefydliadau pensaernïol. Rwyf yn cymryd yn ganiataol bod hynny oherwydd ichi ryddhau Martin Lipson o'i swydd o geisio dod ag ysgolion yr unfed ganrif ar hugain i Gymru yn yr un ffordd ag y cynorthwyodd Lywodraeth Tony Blair i ddod â'r rhaglen Building Better Schools for the Future i grŵp San Steffan.

Y Llywydd: Trefn. A ydych yn bwriadu gofyn unrhyw gwestiynau?

Angela Burns: Ydw, Lywydd. Hoffwn ofyn cwestiwn i'r Gweinidog ar fater nad yw wedi mynd i'r afael ag ef yn ei ddatganiad, sef: a all gadarnhau bod gan awdurdodau lleol ddigon o arian yn eu cyllidebau i wneud y buddsoddiadau cyfalaf hyn? A all hefyd gadarnhau na fydd arian yn cael ei wastraffu ar y rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain? Hoffwn dynnu eich sylw at y gwaith adeiladu enfawr yn Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth yng Nghaerfyrddin, a'r ffaith yr ymddengys bod Carillion ccc, sef y cwmni preifat a wnaeth y gwaith adeiladu, wedi cerdded allan o'r safle, gan fodloni ar wneud colled o £1 filiwn yn hytrach na dychwelyd yno ac unioni'r hyn a wnaeth o'i le. Mae hynny'n dangos rhywbeth am reolaeth y prosiect hwnnw. Rydym am sicrhau nad yw hynny'n digwydd yng ngweddill Cymru. A allwch chi ymhelaethu ar eich datganiad ar 5 Rhagfyr—roeddwn wedi disgwyl gweld hyn yn eich datganiad heddiw—a darparu newyddion pellach ar eich cynllun buddsoddi ar gyfer y sector

Finance on other investment opportunities or ways of raising funding to help make the Welsh pound go further. Can you update us on whether you have been able to come to any sensible conclusions on that?

Leighton Andrews: That is the first time I have ever been attacked for being consistent. What we are trying to do today is to give Members a chance to comment on the proposals that we are making under the twenty-first century schools programme. We published the proposals in our written statement in December, and this is the first opportunity for Members to question me in detail on those proposals. That is why I am making this oral statement today. We are trying to be helpful to Members in that process. I confirm that, in the plans we have approved, we have managed to approve all the outline programmes of investment submitted to us by individual local authorities. In the context, which Members here are very familiar with, of our capital budgets being cut by 40% by the UK Government, that is something of which we can be proud. This is a seven year programme of investment, from 2014-15, and there is a £700 million investment from the Welsh Government, working alongside local authorities to deliver this programme. I will not comment on particular programmes in particular local authorities. The management of those projects is a matter for them. If there are issues with regard to particular schools in particular authorities, I assume that the Member will take those issues up with the relevant local authority. In my department we have moved to a single capital pool, which includes projects in schools and in further and higher education. That enables us to make the most efficient use of the capital that is available to us. It enables us to be flexible, to bring forward projects where we are able to do so, and to accommodate the delays that often take place, as everyone in this Chamber is aware, when you are developing major capital projects. Therefore, if some slip, we will bring others forward. Given the constraints upon us, we have provided a successful programme, working alongside local authorities, which, of course, have borrowing powers, while we do not.

addysg bellach? Yn olaf, roeddech yn sôn am eich trafodaethau â'r Gweinidog cyllid am gyfleoedd buddsoddi eraill neu ffyrdd o godi arian i helpu i wneud y bunt Gymreig fynd ymhellach. A allwch ein diweddarau ynghylch a ydych wedi gallu dod i unrhyw gasgliadau synhwyrol ar hynny?

Leighton Andrews: Dyna'r tro cyntaf i mi erioed gael fy meirniadu am fod yn gyson. Yr hyn rydym yn ceisio ei wneud heddiw yw rhoi cyfle i Aelodau wneud sylwadau ar y cynigion yr ydym wedi'u gwneud o dan y rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Cyhoeddwyd y cynigion yn ein datganiad ysgrifenedig ym mis Rhagfyr, a dyma'r cyfle cyntaf i Aelodau fy holi yn fanwl ar y cynigion hynny. Dyna pam rwyf wedi gwneud y datganiad llafar hwn heddiw. Rydym yn ceisio helpu Aelodau fel rhan o'r broses honno. Gallaf gadarnhau, yn y cynlluniau sydd wedi'u cymeradwyo gennym, ein bod wedi llwyddo i gymeradwyo'r holl raglenni amlinellol o fuddsoddiad a gyflwynwyd i ni gan awdurdodau lleol unigol. Yn y cyd-destun, sy'n gyfarwydd iawn i Aelodau, o Lywodraeth y DU yn torri 40% o'n cyllidebau cyfalaf, mae hynny'n rhywbeth y gallwn fod yn falch ohono. Mae hon yn rhaglen saith mlynedd o fuddsoddiad, o 2014-15 ymlaen, ac mae'n cynnwys buddsoddiad o £700 miliwn gan Lywodraeth Cymru, sy'n gweithio ochr yn ochr ag awdurdodau lleol i ddarparu'r rhaglen. Ni allaf roi sylwadau ar raglenni penodol mewn awdurdodau lleol penodol. Mae rheoli'r prosiectau hynny yn fater iddynt hwy. Os oes materion mewn perthynas ag ysgolion arbennig mewn awdurdodau penodol, rwyf yn disgwyl y bydd yr Aelod yn codi'r materion hynny â'r awdurdod lleol perthnasol. Yn fy adran i, rydym wedi symud i gronfa cyfalaf unigol, sy'n cynnwys prosiectau mewn ysgolion ac mewn addysg bellach ac addysg uwch. Mae hynny'n ein galluogi i wneud y defnydd mwyaf effeithlon o'r cyfalaf sydd ar gael i ni. Mae'n ein galluogi i fod yn hyblyg, i gyflwyno prosiectau lle'r ydym yn gallu gwneud hynny, ac i ddarparu ar gyfer yr oedi sy'n digwydd yn aml, fel y gŵyr pawb yn y Siambr, wrth ddatblygu prosiectau cyfalaf mawr. Felly, os bydd oedi â rhai, byddwn yn dod ag eraill yn eu blaen. O ystyried y

cyfyngiadau arnom, rydym wedi darparu rhaglen lwyddiannus, gan weithio ochr yn ochr ag awdurdodau lleol, sydd, wrth gwrs, â phwerau benthyca nad oes gennym ni.

Mick Antoniw: Unlike the party opposite, I am pleased to have this opportunity to comment and to ask a question about your statement. I congratulate you on the programme. Having started from a bleak position, when there was going to be such a shortage of capital, through innovation and links with the local authorities we have massively expanded the capital available. In my constituency, we are not only getting a new £15 million school in Y Pant school, we are getting a new £5 million Welsh-medium school, as well as repairs and so on. I congratulate not only you on what has been achieved, but some of the local authorities, in particular, Rhondda Cynon Taf, which received a package of £160 million, which will make a real difference. In contrast to the bleating and whining heard from the opposition, I have had phone calls and messages of overwhelming support for the package and what we will be able to achieve with this seven-year package.

Leighton Andrews: I thank the Member for Pontypridd for drawing attention to the reality of the investment. This is a genuine partnership between the Welsh Government and local Government. I am pleased that the Welsh Local Government Association, a year or so ago, wrote to the Permanent Secretary to say that this was one of the best examples of collaboration between central and local government in Wales. The reality will be seen in the buildings that will be developed during the next few years.

3.00 p.m.

Simon Thomas: I thank the Minister for bringing forward an oral statement. It is always good to have an opportunity to question a Minister, and he is one of the few that regularly comes to the Chamber, so, I thank him for that. Self-plagiarism is not a sin, so I suppose I cannot accuse him of that either. However, I have to say that I am

Mick Antoniw: Yn wahanol i'r blaid gyferbyn, rwyf yn falch o gael cyfle i wneud sylwadau ar eich datganiad ac i ofyn cwestiwn yn ei gylch. Rwyf yn eich llongyfarch ar y rhaglen. Ar ôl cychwyn o le llwm, pan oeddem yn wynebu prinder cyfalaf difrifol, drwy arloesi a'r cysylltiadau â'r awdurdodau lleol, rydym wedi ehangu'n aruthrol y cyfalaf sydd ar gael. Yn fy etholaeth i, nid yn unig rydym yn cael Ysgol y Pant newydd gwerth £15 miliwn, rydym hefyd yn cael ysgol cyfrwng Cymraeg newydd gwerth £5 miliwn, yn ogystal â gwaith atgyweirio ac yn y blaen. Rwyf nid yn unig yn eich llongyfarch chi ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni, ond yn llongyfarch rhai o'r awdurdodau lleol, yn arbennig Rhondda Cynon Taf, sydd wedi derbyn pecyn gwerth £160 miliwn, a fydd yn gwneud gwahaniaeth go iawn. Yn wahanol i'r breffu a'r nadu rydym yn ei glywed gan yr wrthblaid, rwyf i wedi cael galwadau ffôn a negeseuon o gefnogaeth aruthrol i'r pecyn a'r hyn y byddwn yn gallu ei gyflawni gyda'r pecyn saith mlynedd hwn.

Leighton Andrews: Diolch i'r Aelod dros Bontypridd am dynnu sylw at realiti'r buddsoddiad. Mae hon yn bartneriaeth wirioneddol rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol. Rwyf yn falch yr ysgrifennodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, tua blwyddyn yn ôl, at yr Ysgrifennydd Parhaol i ddweud mai hwn oedd un o'r enghreifftiau gorau o gydweithio rhwng llywodraeth ganolog a llywodraeth leol yng Nghymru. Bydd y realiti hwn i'w weld yn yr adeiladau a fydd yn cael eu datblygu yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Simon Thomas: Diolch i'r Gweinidog am wneud datganiad llafar. Mae bob amser yn dda cael cyfle i holi Gweinidog, ac mae ef yn un o'r ychydig rai sy'n dod i'r Siambr yn rheolaidd; felly, rwyf yn diolch iddo am hynny. Nid yw hunan-lên-ladrad yn bechod; felly, mae'n debyg na allaf ei gyhuddo o hynny ychwaith. Fodd bynnag, mae'n rhaid

disappointed that there has been no real progress since his last statement in December. As the Members opposite pointed out, this is substantially the same statement.

I think it is worth reminding ourselves why this project is so important because, as the Minister himself has acknowledged in earlier statements, 63% of Welsh schools are in a 'reasonable condition'. By inference, 37% are 'not in a reasonable condition'. In particular, the Wales Audit Office's report, which looked at capital investment in schools, demonstrated that both the foundation phase and the curriculum changes for post-14 and post-16 education meant that many schools needed to have a more integrated campus and that there was too much ad hoc development of buildings over the years. The twenty-first century schools initiative is meant to address that and the growing demand for Welsh-medium education, which is part of the successful Welsh-medium education strategy put in place by the previous Government and continued by the present Minister. Therefore, I would like to ask the Minister, on that basis, what progress has seriously been made on the twenty-first century schools scheme? In particular, he says in his statement that his intention, where funds allow, is to bring forward individual capital projects at an earlier stage. Is this a realistic intention? He may not be able to name those projects now. However, will he name the authorities that may be in the running for those projects and will he, at least, give a timetable as to when we might have a fourth wonderful oral statement from him through which he will at least be able to say which of these projects are given the go-ahead for either between now and 2014, or even from 2014 onwards?

Has he given any further thought in his interaction with local authorities about how they can properly respond to the demand for Welsh-medium education? There is a particular issue around getting rid of surplus school places and preparing for Welsh-medium education, because the two may not

imi ddweud fy mod yn siomedig nad oes cynnydd gwirioneddol wedi'i wneud ers ei ddatganiad diwethaf ym mis Rhagfyr. Fel y nododd yr Aelodau gyferbyn, yr un datganiad yw hwn, i raddau helaeth.

Credaf ei bod yn werth atgoffa ein hunain pam y mae'r prosiect hwn mor bwysig oherwydd, fel y bu i'r Gweinidog ei hun gydnabod mewn datganiadau cynharach, mae 63% o ysgolion Cymru mewn 'cyflwr rhesymol'. Gellir dod i'r casgliad, felly, nad yw 37% mewn 'cyflwr rhesymol'. Yn benodol, dangosodd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, a oedd yn ystyried buddsoddiadau cyfalaf mewn ysgolion, fod y cyfnod sylfaen a'r newidiadau i'r cwricwlwm ar gyfer addysg ôl-14 ac addysg ôl-16 yn golygu bod angen campws mwy integredig ar lawer o ysgolion, a bod gormod o adeiladau dros y blynyddoedd wedi'u datblygu mewn modd ad hoc. Nod menter ysgolion yr unfed ganrif ar hugain yw mynd i'r afael â hynny a'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg, sy'n rhan o'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg lwyddiannus a roddwyd ar waith gan y Llywodraeth flaenorol, ac y mae'r Gweinidog presennol yn parhau â hi. Felly, hoffwn ofyn i'r Gweinidog, ar y sail honno, pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ddifrif ar gynllun ysgolion yr unfed ganrif ar hugain? Yn benodol, mae'n dweud yn ei ddatganiad mai ei fwriad yw cyflwyno prosiectau cyfalaf unigol yn gynharach, lle y bo cyllid yn caniatáu hynny. A yw hwn yn fwriad realistig? Efallai na fydd yn gallu enwi'r prosiectau hynny yn awr. Fodd bynnag, a fydd yn enwi'r awdurdodau a fydd, efallai, yn cael eu hystyried mewn perthynas â'r prosiectau hynny, ac a wnaiff roi amserlen o leiaf ar gyfer pryd y bydd yn cyflwyno pedwerydd datganiad gwych ar lafar i ni a fydd yn ei alluogi i ddweud o leiaf pa brosiectau ymhlith y rhain a fydd yn cael eu cymeradwyo fel eu bod yn cael eu cyflwyno naill ai cyn 2014, neu hyd yn oed yn 2014 ac ar ôl hynny?

A yw wedi meddwl rhagor wrth ryngweithio ag awdurdodau lleol ynghylch sut y gallant ymateb yn briodol i'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg? Mae mater penodol ynghylch cael gwared ar leoedd gwag mewn ysgolion a pharatoi ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, oherwydd efallai na fydd y ddau yn

be happening in the same place in a local authority, and that may need a period of transition. I hope that he will confirm that the projects he is looking at and the programme he is putting in place are flexible enough to adapt to that, in order to answer the demand for Welsh-medium education.

He says in his statement that he will continue to work with the Minister for finance on securing additional capital investment. This is another perennial that comes up in every statement. We have heard this for nine months. What are these alternative investment models? Plaid Cymru suggested a national investment model called Build for Wales. You could look at local investment models similar to Build for Wales. The Minister flirted with PFI for several months and several times over the summer. That was ruled out as much by the Treasury in London as it was by Jane Hutt. We are now back to discussing alternative investment models and we want to see some flesh on these bones before they are completely eviscerated. Will he say how he would expect to add, therefore, to this additional capital? He is right to say that he expects the capital budget to be almost 50% lower, in real terms, over the next three to four years. It is unfortunate that the national UK-wide Labour Party has bought into this austerity budget. Ed Balls has confirmed that there will be no further capital investment coming to this Government in Wales not just for this Westminster parliamentary term, but for the two years following that, because the Labour Party has bought into the complete austerity package in London. Given that lack of investment, even after the next Assembly elections, he must get a move-on with these alternative capital schemes. I hope he will be able to tell us something soon about alternative ideas that he has.

Leighton Andrews: I find it a little strange that since this statement relates to a programme that will begin in 2014-15, I am accused of making no progress between 5 December 2011 and 17 January 2012. This is a programme that I have announced and which does not kick in until 2014-15. What I

digwydd yn yr un lle mewn awdurdod lleol, ac efallai y bydd angen cyfnod pontio. Rwyf yn gobeithio y bydd yn cadarnhau bod y prosiectau y mae'n edrych arnynt a'r rhaglen y mae'n ei rhoi ar waith yn ddigon hyblyg i addasu i hynny, er mwyn ateb y galw am addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae'n dweud yn ei ddatganiad y bydd yn parhau i weithio gyda'r Gweinidog cyllid ar sicrhau buddsoddiad cyfalaf ychwanegol. Dyma fater arall sy'n codi ym mhob datganiad. Rydym wedi clywed hyn am naw mis. Beth yw'r modelau buddsoddi amgen hyn? Awgrymodd Plaid Cymru fodel buddsoddi cenedlaethol o'r enw Adeiladu dros Gymru. Gallech ystyried modelau buddsoddi lleol sy'n debyg i Adeiladu dros Gymru. Bu'r Gweinidog yn ymwneud â menter cyllid preifat am sawl mis a sawl gwaith yn ystod yr haf. Diystyrwyd hynny gan y Trysorlys yn Llundain i'r un graddau ag y'i diystyrwyd gan Jane Hutt. Rydym yn awr wedi dychwelyd at drafod modelau buddsoddi amgen, ac rydym am weld rhywfaint o gnawd ar yr esgryn hyn cyn iddynt gael eu diberfeddu'n gyfan gwbl. A wnaiff ddweud, felly, sut y byddai'n disgwyl ychwanegu at y cyfalaf ychwanegol hwn? Mae'n gywir dweud ei fod yn disgwyl i'r gyllideb gyfalaf fod bron 50% yn is, mewn termau real, dros y tair neu bedair blynedd nesaf. Mae'n anffodus bod Plaid Lafur genedlaethol y DU wedi derbyn y gyllideb hon ar gyfer cyfnod o galedi. Mae Ed Balls wedi cadarnhau na fydd buddsoddiad cyfalaf pellach yn dod i Lywodraeth Cymru, nid yn unig yn ystod tymor seneddol presennol San Steffan, ond yn y ddwy flynedd ganlynol, oherwydd mae'r Plaid Lafur wedi derbyn y pecyn toriadau llawn yn Llundain. O ystyried bod diffyg buddsoddiad, hyd yn oed ar ôl etholiadau nesaf y Cynulliad, rhaid iddo fwrw ymlaen ar frys â'r cynlluniau cyfalaf amgen hyn. Rwyf yn gobeithio y bydd yn gallu dweud rhywbeth wrthym yn fuan am y syniadau eraill sydd ganddo.

Leighton Andrews: Gan fod y datganiad hwn yn ymwneud â rhaglen a fydd yn dechrau yn 2014-15, rwyf yn ei chael ychydig yn rhyfedd fy mod yn cael fy nghyhuddo nad wyf wedi gwneud dim cynnydd rhwng 5 Rhagfyr 2011 a 17 Ionawr 2012. Mae hon yn rhaglen rwyf wedi'i

am doing today, as I said in answer to the opposition spokesperson, is give Members an opportunity to raise any questions they may have.

The Plaid Cymru spokesperson is right to say that we face significant challenges in respect of our capital budget. The situation has been made worse by the mishandling of the UK economy by the Liberal Democrat-Conservative administration at Westminster. There is no doubt about that. The programme we have outlined is one we have agreed with local authorities. They have brought forward the schemes they think they need to undertake to address many of the issues he has raised, including the demand for Welsh-medium education and resolving issues of surplus places. We are seeking to work in partnership with them to resolve those issues. Specifically in respect of places for Welsh-medium education, he will be aware that we have recently concluded the consultation on our school standards Bill, and we will be moving forward with legislation in that area. We are looking at what we can do to ensure effective planning on the part of local authorities of future provision through the medium of Welsh, and we continue to implement the Welsh-medium education strategy, which I launched as a Minister in the One Wales Government.

We have recently announced ways in which we are going to help local authorities open up new streams for borrowing in respect of a number of projects in the portfolio of my colleague the Minister for Local Government and Communities, including transport projects. That will enable local authorities to develop a stream for borrowing funding, which indicates that we are already putting in place practical proposals in respect of alternative finance. The Member referred to the private finance initiative. I must remind him that the most extensive use of the private finance initiative in Wales by a local authority was by Rhondda Cynon Taf council when it was run by Plaid Cymru.

Aled Roberts: Thank you for this statement,

chyhoeddi ac nid yw'n dechrau hyd nes 2014-15. Yr hyn rwyf yn ei wneud heddiw, fel y dywedais wrth ateb llefarydd yr wrthblaid, yw rhoi cyfle i Aelodau ofyn unrhyw gwestiynau sydd ganddynt.

Mae llefarydd Plaid Cymru yn gywir i ddweud ein bod yn wynebu heriau sylweddol o ran ein cyllideb gyfalaf. Gwnaed y sefyllfa'n waeth oherwydd bod yr economi wedi cael ei chamreoli gan weinyddiaeth y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Ceidwadwyr. Nid oes amheuaeth am hynny. Rydym wedi cytuno ag awdurdodau lleol ar y rhaglen rydym wedi'i hamlinellu. Maent wedi cyflwyno cynlluniau y maent yn credu y mae angen iddynt ymgymryd â hwy i fynd i'r afael â llawer o'r materion a gododd, gan gynnwys y galw am addysg cyfrwng Cymraeg a datrys materion yn ymwneud â lleoedd gwag. Rydym yn ceisio gweithio mewn partneriaeth â hwy i ddatrys y problemau hynny. O ran lleoedd ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn benodol, bydd yn gwybod inni orffen yr ymgynghoriad ar ein Bil safonau ysgol yn ddiweddar, a byddwn yn ymgymryd â deddfwriaeth yn y maes hwnnw. Rydym yn edrych ar yr hyn y gallwn ei wneud i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol, ac rydym yn parhau i weithredu'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg, a lansiais pan oeddwn yn Weinidog yn Llywodraeth Cymru'n Un.

Gwnaethom gyhoeddi yn ddiweddar ym mha ffyrdd y byddwn yn helpu awdurdodau lleol i agor ffrydiau benthyca newydd ar gyfer nifer o brosiectau ym mhortffolio fy nghyd-Weinidog, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, gan gynnwys prosiectau trafndiaeth. Bydd hynny'n galluogi awdurdodau lleol i ddatblygu ffrwd ar gyfer cyllid benthyca, sy'n dangos ein bod eisoes yn rhoi cynigion ymarferol ar waith mewn perthynas â chyllid amgen. Cyfeiriodd yr Aelod at y fenter cyllid preifat. Mae'n rhaid imi ei atgoffa mai cyngor Rhondda Cynon Taf, pan oedd yn cael ei redeg gan Blaid Cymru, oedd yr awdurdod lleol yng Nghymru a ddefnyddiodd y fenter cyllid preifat i'r graddau helaethaf.

Aled Roberts: Diolch am y datganiad hwn,

Minister. I would welcome some detail from you on a few matters. You mentioned that the original proposals from local authorities have been reassessed. I am not clear from your statement whether that has led to any reprioritising as far as programmes are concerned, where some schemes may have fallen out of band A or B. I would also echo some of Angela's remarks regarding the use of architects. Our experience in Wrexham was certainly that there was a difficulty with architecture companies being able to deliver, particularly where a number of schemes came to the market at the same time. That certainly led to problems as far as local procurement was concerned in relation to particular schemes, albeit under the precursor to this transition scheme.

Finally, I would like some clarification of one of the references in today's statement. The previous two speakers have already talked about the investigation into the sources of funding. I realise that that is with regard to extending the twenty-first century schools programme or bringing forward schemes within the programme. I appreciate the pressure on capital budgets overall, but you will realise that capital grant support to local authorities was withdrawn because of the pressures on the transitional programme up to 2014. Is there any scope in the discussions you are undertaking with the Minister for finance to include the identification of capital sources to fund local authority capital maintenance programmes, which, at the moment, are being held in abeyance? I am thinking in particular of works that are required with regard to asbestos removal in schools and some of the toilet issues we have been looking into as the Children and Young People Committee. I appreciate that money is tight, but I would like clarification as to whether any additional money is going to be made available to those particular streams.

Leighton Andrews: Where we have the opportunity to bring forward additional capital sums—which does happen from time to time, and we will bid to the central capital pools within the Welsh Government, as we have done successfully in the past to bring forward projects—we will do so. We have been able to announce additional money for

Weinidog. Byddwn yn croesawu cael rhai manylion gennych ar rai materion. Gwnaethoch grybwyll bod cynigion gwreiddiol awdurdodau lleol wedi cael eu hailasesu. Nid yw'n glir i mi ar ôl eich datganiad a yw hynny wedi arwain at ail-flaenoriaethu o ran y rhaglenni, lle y gall rhai cynlluniau fod wedi disgyn o fand A neu B. Byddwn hefyd yn ategu rhai o sylwadau Angela ynghylch y defnydd o benseiri. Ein profiad yn Wrecsam yn sicr oedd bod anhawster o ran gallu cwmnïau pensaernïaeth i gyflawni, yn arbennig yn yr achosion hynny pan ddaeth nifer o gynlluniau i'r farchnad ar yr un pryd. Yn sicr, arweiniodd hynny at broblemau o ran caffael yn lleol mewn perthynas â chynlluniau penodol, er bod hynny wedi digwydd o dan ragflaenydd y cynllun pontio hwn.

Yn olaf, hoffwn eglurhad ynghylch rhywbeth y cyfeiriwyd ato yn y datganiad heddiw. Mae'r ddau siaradwr blaenorol eisoes wedi sôn am yr ymchwiliad i ffynonellau cyllid. Rwyf yn sylweddoli bod hynny'n ymwneud ag ymestyn rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain neu ddwyn cynlluniau ymlaen o fewn y rhaglen. Rwyf yn cydnabod bod pwysau ar gyllidebau cyfalaf yn gyffredinol, ond byddwch yn sylweddoli bod cymorth grant cyfalaf i awdurdodau lleol wedi cael ei dynnu'n ôl oherwydd y pwysau ar y rhaglen drosiannol hyd at 2014. A oes unrhyw le yn eich trafodaethau â'r Gweinidog cyllid i gynnwys canfod ffynonellau cyfalaf i ariannu rhaglenni cynnal a chadw cyfalaf awdurdodau lleol, nad ydynt, ar hyn o bryd, yn cael eu rhoi ar waith? Rwyf yn meddwl yn benodol am y gwaith sydd angen ei wneud i gael gwared ar asbestos mewn ysgolion a rhai o'r materion ynghylch toiledau rydym wedi bod yn eu harchwilio yn y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc. Rwyf yn gwerthfawrogi bod arian yn brin, ond hoffwn eglurhad ynghylch a fydd arian ychwanegol ar gael i'r ffrydiau penodol hynny.

Leighton Andrews: Lle y bo'r cyfle gennym i gyflwyno symiau cyfalaf ychwanegol—sy'n digwydd o bryd i'w gilydd, a byddwn yn cyflwyno cynnig i gronfa gyfalaf ganolog Llywodraeth Cymru, fel rydym wedi'i wneud yn llwyddiannus yn y gorffennol i gyflwyno prosiectau—byddwn yn gwneud hynny. Rydym wedi gallu cyhoeddi arian

local authorities in a number of areas recently, and the priorities that the Member refers to are well understood in that regard.

I certainly hear what he says about the issues of capacity among architecture practices in Wales, which is something I will take back to my officials to discuss. He is right to say that if a large number of projects come through at the same time, it could cause difficulties with capacity, and we will look at that. What we have sought to do here is meet the priorities set down by specific local authorities. As I have said, we have approved, in principle, all the outline programmes of investment that have been submitted to us by each local authority. Given the capital challenges facing us, that is an encouraging development.

Ann Jones: I welcome the investment of £1.4 billion, despite the 40% cut to capital from Westminster, which we must recognise as having played a part. I particularly welcome the £73.4 million for Denbighshire. Do you agree that monitoring how local education authorities progress these capital moneys, together with the 50% that they must match fund, will be key to delivering projects in the areas where we want to see a joining up with other Government programmes? What discussions will your officials have with local authorities to ensure that the projects that they have banded, for which you have found money, will be the ones that will be delivered first in the interest of pupils' experience at schools?

Leighton Andrews: My colleague, the Member for the Vale of Clwyd, is right to raise the issue of monitoring the implementation of different capital programmes. My officials have regular and extensive conversations with local authority officers in the development of their plans as they have submitted them to us, and we will continue to have discussions as we go forward. We also have the framework of the twenty-first century schools programme, and I co-chair the board with the education spokesperson for the Welsh Local

ychwanegol i awdurdodau lleol mewn nifer o feysydd yn ddiweddar, a deallir y blaenoriaethau y mae'r Aelod yn cyfeirio atynt yn dda yn hynny o beth.

Yn sicr rwyf yn gwrandao ar yr hyn y mae'n ei ddweud am gapasiti cwmnïau pensaernïaeth yng Nghymru, a byddaf yn trafod hynny â'm swyddogion. Mae'n gywir wrth ddweud y gellid achosi anawsterau o ran capasiti pe bai nifer fawr o brosiectau'n ymddangos ar yr un pryd, a byddwn yn rhoi sylw i hynny. Yr hyn rydym wedi ceisio ei wneud yma yw bodloni'r blaenoriaethau a bennwyd gan awdurdodau lleol penodol. Fel y dywedais, rydym wedi cymeradwyo, mewn egwyddor, pob rhaglen fuddsoddi fras y mae awdurdodau lleol wedi'i chyflwyno inni. O ystyried yr heriau sy'n ein hwynebu mewn perthynas â chyfalaf, mae hynny'n ddatblygiad calonogol.

Ann Jones: Rwyf yn croesawu'r buddsoddiad o £1.4 biliwn, er gwaethaf y ffaith bod San Steffan wedi torri cyfalaf 40%, ac mae'n rhaid inni gydnabod bod hynny wedi chwarae rhan. Croesawaf yn arbennig y £73.4 miliwn ar gyfer Sir Ddinbych. A ydych yn cytuno bod monitro sut y mae awdurdodau addysg lleol yn ymdrin â'r arian cyfalaf hwn, ynghyd â'r 50% y mae'n rhaid iddynt ei ddarparu fel arian cyfatebol, yn allweddol wrth gyflawni prosiectau yn yr ardaloedd lle rydym am weld rhaglenni'n ymuno â rhaglenni eraill y Llywodraeth? Pa drafodaethau y bydd eich swyddogion yn eu cael ag awdurdodau lleol i sicrhau mai'r prosiectau y maent wedi'u bandio, yr ydych wedi dod o hyd i arian ar eu cyfer, a fydd yn cael eu cyflwyno gyntaf er lles profiad disgyblion mewn ysgolion?

Leighton Andrews: Mae fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Ddyffryn Clwyd, yn iawn i godi'r mater ynghylch monitro sut y gweithredir rhaglenni cyfalaf gwahanol. Mae fy swyddogion yn cael sgysiau rheolaidd ac eang â swyddogion awdurdodau lleol wrth ddatblygu eu cynlluniau fel y maent wedi'u cyflwyno i ni, a byddwn yn parhau i gael trafodaethau wrth inni fynd ymlaen. Mae gennym hefyd fframwaith rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, ac rwyf yn cydgadeirydd y bwrdd gyda llefarydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar

Government Association. Therefore, there is a framework for us to address any issues that may arise and cause us to explore issues of general principle. I know that the Member for the Vale of Clwyd has a number of particular schemes in mind and she never fails to remind me of them at every opportunity, informally and formally.

Lindsay Whittle: I have had a chest infection and a few sleepless nights, but I am sure that I will have no sympathy. I wonder how many sleepless nights educationalists have had as a result of what I consider to be a delay. Many local authorities are becoming frustrated. Within two hours of this announcement, one progressive, forward-thinking local authority in the South Wales East region will be discussing twenty-first century schools programmes. That is important, particularly in terms of how it will reflect on Welsh-language education, for which, as we heard earlier, there is a huge demand; it has taken off.

Minister, I do not welcome the phasing, but I accept the difficulties that you have. I am not sure that every local authority will be able to afford to borrow. What will happen to those that cannot afford to borrow? How will their pupils fare? During the recess, I read a newspaper article about the Minister, which said that people either love or hate Leighton Andrews. Those are two powerful emotions, but I will not rise to any bait; I am not into deciding whether he is the Mr Marmite of Welsh politics. However, I urge the Minister to examine the budgets at the end of every financial year to ensure that every single penny is spent and that, if some councils cannot afford to spend in their areas, we reallocate the money to councils that can. We also have to look at how we can help pupils in local authority areas that cannot afford to borrow. The window of opportunity for our young people in education, by and large, is only open once, and it is important that we keep that window open.

Leighton Andrews: I am aware of some of the issues that the Member for South Wales East raises in relation to Welsh-medium

addysg. Felly, mae fframwaith fel y gallwn fynd i'r afael ag unrhyw faterion a all godi ac a fydd yn achosi inni archwilio materion o egwyddor gyffredinol. Gwn fod gan yr Aelod dros Ddyffryn Clwyd nifer o gynlluniau penodol mewn golwg ac mae'n manteisio ar bob cyfle i'm hatgoffa amdanynt, yn anffurfiol ac yn ffurfiol.

Lindsay Whittle: Rwyf wedi cael haint ar y frest ac ychydig o nosweithiau digwsg, ond gwn na fyddaf yn cael cydymdeimlad. Tybed faint o nosweithiau digwsg y mae addysgwyr wedi'u cael o ganlyniad i'r hyn rwyf yn ei ystyried yn oedi. Mae llawer o awdurdodau lleol yn dechrau teimlo'n rhwystredig. Lai na dwy awr ar ôl gwneud y cyhoeddiad hwn, bydd un awdurdod lleol blaengar yn rhanbarth Dwyrain De Cymru yn trafod rhaglenni ysgolion yr unfed ganrif ar hugain. Mae hynny'n bwysig, yn enwedig o ran sut y bydd yn ystyried addysg Gymraeg, y mae galw mawr amdani, fel y clywsom yn gynharach; mae wedi cynyddu'n aruthrol.

Weinidog, nid wyf yn croesawu gwneud pethau fesul cam, ond rwyf yn derbyn yr anawsterau sy'n eich wynebu. Nid wyf yn siŵr y bydd pob awdurdod lleol yn gallu fforddio benthg. Beth fydd yn digwydd i'r rhai na allant fforddio benthg? Beth fydd y sefyllfa o safbwynt y disgyblion? Yn ystod y toriad, darllenais erthygl mewn papur newydd am y Gweinidog, a oedd yn dweud bod pobl naill ai'n caru neu'n casáu Leighton Andrews. Mae'r rheini'n ddau emosiwn pwerus, ond ni fyddaf yn cymryd yr abwyd; nid wyf am benderfynu ai ef yw Mr Marmite gwleidyddiaeth Cymru. Fodd bynnag, rwyf yn annog y Gweinidog i archwilio'r cyllidebau ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol i sicrhau bod pob ceiniog yn cael ei wario, ac os nad yw rhai cynghorau'n gallu fforddio gwario yn eu hardaloedd, mae'n rhaid inni ailddyrrannu'r arian i'r cynghorau sy'n gallu. Mae angen inni hefyd roi sylw i sut y gallwn helpu disgyblion mewn ardaloedd awdurdodau lleol na all fforddio benthg. Dim ond un cyfle sydd gan ein pobl ifanc mewn addysg, fwy neu lai, ac mae'n bwysig inni achub ar y cyfle hwnnw.

Leighton Andrews: Rwyf yn gwybod am rai o'r materion y mae'r Aelod dros Dwyrain De Cymru yn eu codi mewn perthynas ag addysg

education in the borough of Caerphilly. There are a number of issues still to be explored in the local authority, and statutory procedures for school reorganisation may be required in order to increase provision there. I would not comment on any aspect of the plans because, at some stage in the future, they may come to me for determination.

3.15 p.m.

The issue of borrowing powers is well understood. Local authorities in Wales have borrowing powers and the Welsh Government presently does not. That is why we are seeking to work in co-operation with them, and that is why we have opened up other streams of revenue support to enable them to borrow for capital programmes. If he is suggesting that there are some local authorities that are not in a position to borrow, their local electorates may wish to ask why that is the case. We understand that there is a programme of prudential borrowing that local authorities are embarking upon. We have drawn up our plans in the context of their ability to borrow, and they have made their submissions to us on their ability to use their own funds and their borrowings to support those programmes. One of the advantages of planning a programme as far in advance as we are is that, where local authorities have been unable to develop their plans on the timescale that they originally anticipated, it will allow us the flexibility to move forward with other schemes in other authorities. That is certainly what we will be seeking to do.

Mike Hedges: First, I welcome this bold and ambitious programme of investment in schools throughout Wales. It is certainly well thought of by people I have spoken to—teachers, headteachers and parents—in Swansea East. The school that my daughter used to attend, Ysgol Gymraeg Lôn Las, and Glyncollen Primary School, of which I am the chair of governors, are in desperate need of replacement, and are both part of the scheme. That is warmly welcomed by headteachers, teachers, parents and pupils as well, because they realise how substandard some of the accommodation is.

cyfrwng Cymraeg ym mwrdeistref Caerffili. Mae nifer o faterion y mae angen eu harchwilio o hyd yn yr awdurdod lleol, ac efallai y bydd angen gweithdrefnau statudol i ad-drefnu ysgolion er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth yno. Ni fyddwn yn gwneud sylwadau ar unrhyw agwedd ar y cynlluniau oherwydd efallai y bydd yn rhaid imi wneud penderfyniad arnynt rywbryd yn y dyfodol.

Deellir y mater ynghylch pwerau benthyca yn dda. Mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru bwerau benthyca ac nid oes gan Lywodraeth Cymru y pwerau hynny ar hyn o bryd. Dyna pam rydym yn ceisio cydweithio â hwy, a dyna pam rydym wedi agor ffrydiau eraill o gefnogaeth refeniw er mwyn eu galluogi i fenthyca ar gyfer rhaglenni cyfalaf. Os yw'n awgrymu bod rhai awdurdodau lleol nad ydynt mewn sefyllfa i fenthyg, efallai yr hoffai eu hetholwyr lleol ofyn beth yw'r rheswm dros hynny. Rydym yn deall bod yna raglen o fenthyca darbodus y mae awdurdodau lleol yn dechrau arni. Rydym wedi llunio ein cynlluniau yng nghyd-destun eu gallu i fenthyca, ac maent wedi gwneud eu cyflwyniadau inni yn ôl eu gallu i ddefnyddio eu harian eu hunain a'u benthyciadau i gefnogi'r rhaglenni hynny. Un o fanteision cynllunio rhaglen mor bell ymlaen llaw yw y bydd yn caniatáu hyblygrwydd inni symud ymlaen gyda chynlluniau eraill mewn awdurdodau eraill lle mae awdurdodau lleol wedi methu â datblygu eu cynlluniau o fewn yr amser a ragwelwyd ganddynt yn wreiddiol. Dyna'n sicr y byddwn yn ceisio ei wneud.

Mike Hedges: Yn gyntaf, rwyf yn croesawu'r rhaglen feiddgar ac uchelgeisiol hon o fuddsoddi mewn ysgolion ledled Cymru. Mae pobl rwyf wedi siarad â hwy—yn athrawon, penaethiaid a rhieni—yn Nwyrain Abertawe yn sicr yn meddwl llawer ohoni. Mae Ysgol Gymraeg Lôn Lâs, cyn-ysgol fy merch, ac Ysgol Gynradd Glyncollen, lle rwyf yn gadeirydd y llywodraethwyr, angen eu newid yn ddybryd, ac maent yn rhan o'r cynllun. Caiff hyn groeso mawr gan benaethiaid, athrawon, rhieni a disgyblion hefyd, gan eu bod yn sylweddoli pa mor wael yw safon rhai o'r adeiladau.

I have four questions for the Minister. Has the programme been affected by the substantial cut in the Assembly's capital allocation from the Westminster Government? How many submitted schools were not approved by the department? Will the Minister join me in urging local authorities to use their potential borrowing capacity in order to meet their share of the expenditure? Will he confirm that local authorities are not constrained by this and that, if they can gather money through prudential borrowing or by the sale of land, they can spend more on building schools, and that we can have more schools in the system if local authorities manage to raise additional money?

Leighton Andrews: My colleague the Member for Swansea East identifies the key questions. First, the programme that we have announced has been affected by the cuts in our capital budget, which have been imposed this year and in the years to come, by the UK Government. I am pleased to say that we have been able to approve all of the schemes that have been submitted to us by local authorities in their strategic outline plans. He is absolutely right to remind local authorities of their ability to use prudential borrowing to maximise their investment and ours in this programme. He is also right to remind local authorities that they are not constrained by the investment that we are bringing forward, but that they can also use the receipts from the sale of land or buildings alongside their own borrowings to develop the programme further. I very much welcome his acknowledgement of the efforts that we are making to improve schools in his constituency.

Mae gennyf bedwar cwestiwn i'r Gweinidog. A yw'r toriad sylweddol yn nyranid cyfalaf y Cynulliad oddi wrth Lywodraeth San Steffan wedi effeithio ar y rhaglen? Faint o ysgolion a gyflwynwyd na chafodd eu cymeradwyo gan yr adran? A wnaiff y Gweinidog ymuno â mi i annog awdurdodau lleol i ddefnyddio eu gallu posibl i fenthyca er mwyn cyflawni eu cyfran hwy o'r gwariant? A wnaiff gadarnhau nad yw awdurdodau lleol yn cael eu cyfyngu gan hyn ac y byddant, os gallant gasglu arian drwy fenthyca darbodus neu werthu tir, yn gallu gwario mwy ar adeiladu ysgolion, ac y gallwn gael mwy o ysgolion yn y system os bydd awdurdodau lleol yn llwyddo i godi arian ychwanegol?

Leighton Andrews: Mae fy nghyd-aelod, yr Aelod ar gyfer Dwyrain Abertawe yn nodi'r cwestiynau allweddol. Yn gyntaf, mae'r toriadau yn ein cyllideb gyfalaf, sydd wedi cael eu pennu eleni ac yn y blynyddoedd i ddod, gan Lywodraeth y DU, wedi effeithio ar y rhaglen a gyhoeddwyd gennym. Rwy'n falch o ddweud ein bod wedi gallu cymeradwyo'r holl gynlluniau a gyflwynwyd inni gan awdurdodau lleol yn eu cynlluniau amlinellol strategol. Mae'n gwbl gywir i atgoffa awdurdodau lleol o'u gallu i ddefnyddio benthyca darbodus i wneud y defnydd gorau o'u buddsoddiad hwy a'n buddsoddiad ninnau yn y rhaglen hon. Mae hefyd yn gywir i atgoffa awdurdodau lleol nad yw'r buddsoddiad a gyflwynir gennym yn cyfyngu arnynt, ond gallant hefyd ddefnyddio derbyniadau o werthu tir neu adeiladau ochr yn ochr â'u benthyciadau eu hunain i ddatblygu'r rhaglen ymhellach. Rwy'n croesawu'n fawr ei gydnabyddiaeth o'r ymdrechion rydym yn eu gwneud i wella ysgolion yn ei etholaeth.

Datganiad: Cwrdd â'r Her Tai: Creu Consensws ar gyfer Gweithredu Statement: Meeting the Housing Challenge: Building a Consensus for Action

The Minister for Housing, Regeneration and Heritage (Huw Lewis): I have spoken before about the substantial challenges that face us in meeting people's housing needs in very difficult economic times. I know that Members recognise those challenges. Tough decisions need to be made to make the best

Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (Huw Lewis): Rwyf wedi siarad cyn hyn am yr heriau sylweddol rydym yn eu hwynebu wrth ddiwallu anghenion tai pobl mewn cyfnod economaidd anodd iawn. Rwy'n gwybod bod yr Aelodau'n cydnabod yr heriau hynny. Rhaid gwneud penderfyniadau anodd

use of limited resources, but we all share a desire to do the best that we can for the people we represent. While some of our views differ, we share common ground, for example on the need for robust action to tackle the scandalous waste that empty properties represent. These homes are much needed across Wales to tackle the increasing demand for housing. I know that the importance of housing as an economic driver and to the construction sector in particular is also recognised.

The challenges are immense. We are not immune to economic pressures affecting the whole of the UK, neither are we immune to some UK Government policies—welfare reform, for example. The Department for Work and Pensions has publicised the financial effects of the changes, but I am extremely concerned about the likely social impacts. They could, and probably will, include increased rent arrears, having to forego basic requirements to meet shortfalls in rent, tenants moving to substandard private rented accommodation, increased use of bed-and-breakfast accommodation or, at worst, homelessness.

As a result of the referendum, we can now deliver bespoke policies that reflect the distinctive needs of people in Wales and our principles of equity, fairness and support for society, including, importantly, our most vulnerable people. However, our financial settlements mean that that will be extremely challenging. That is why I want to build a consensus on how we respond to the challenges, where making a difference to the lives of everyone is our mutual goal.

Towards the end of next year, I will introduce a housing Bill. Legislation is by no means always the answer, but the Bill is a significant opportunity to address identified problems. In the spring, I will publish my proposals for the Bill, and for other non-legislative action to help people meet their housing needs. The paper that I published before Christmas sets out my thoughts on some of the challenges and priorities. I have made a clear commitment to working with all

er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau cyfyngedig, ond rydym i gyd yn cytuno i wneud y gorau y gallwn i'r bobl rydym yn eu cynrychioli. Er bod barn rhai ohonom yn wahanol, rydym yn rhannu tir cyffredin, er enghraifft, o ran yr angen am weithredu cadarn i fynd i'r afael â'r gwastraff gwarthus a geir gan eiddo gwag. Mae angen y cartrefi hyn ar draws Cymru i fynd i'r afael â'r galw cynyddol am dai. Rwy'n gwybod bod pwysigrwydd tai fel sbardun economaidd ac i'r sector adeiladu yn arbennig yn cael ei gydnabod hefyd.

Mae'r heriau yn aruthrol. Nid ydym wedi ein diogelu rhag pwysau economaidd sy'n effeithio ar y DU gyfan, ac nid ydym yn ddiogel rhag rhai o bolisiau Llywodraeth y DU—diwygio lles, er enghraifft. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cyhoeddi effeithiau ariannol y newidiadau, ond rwyf yn bryderus iawn am yr effeithiau cymdeithasol tebygol. Gallent, ac mae'n bosibl y byddant, yn cynnwys mwy o ôl-ddyledion rhent, gorfod ildio anghenion sylfaenol i dalu'r diffygion yn y rhent, tenantiaid yn symud i lety rhent preifat nad yw'n bodloni safonau, cynnydd yn y defnydd o lety gwely a brecwast neu, y gwaethaf, digartrefedd.

O ganlyniad i'r refferendwm, gallwn bellach ddarparu polisiau wedi'u teilwra'n arbennig sy'n adlewyrchu anghenion penodol pobl yng Nghymru a'n hegwyddorion ninnau, sef cydraddoldeb, tegwch a chefnogaeth ar gyfer cymdeithas, gan gynnwys yr hyn sy'n bwysig, sef ein pobl fwyaf agored i niwed. Fodd bynnag, mae ein setliadau ariannol yn golygu y bydd hynny yn heriol iawn. Dyna pam rwyf am greu consensws ar sut rydym yn ymateb i'r heriau, lle mae gwneud gwahaniaeth i fywydau pawb yn nod i bob un ohonom.

Tua diwedd y flwyddyn nesaf, byddaf yn cyflwyno Bil tai. Nid deddfwriaeth yw'r ateb bob amser, wrth reswm, ond mae'r Bil yn gyfle pwysig i fynd i'r afael â phroblemau a nodwyd. Yn y gwanwyn, byddaf yn cyhoeddi fy nghynigion ar gyfer y Bil, ac ar gyfer camau eraill nad ydynt yn rai deddfwriaethol, i helpu pobl i ddiwallu eu hanghenion tai. Mae'r papur a gyhoeddais cyn y Nadolig yn nodi fy ystyriaethau o ran rhai o'r heriau a'r blaenoriaethau. Rwyf wedi gwneud

parties. None of us have all the answers but pooling thoughts and ideas can generate a strong body of action that can make a real difference to people's lives. I have already spoken to some Members about issues in the paper but this debate is the first opportunity for a broader exchange of views. I hope that it is the start of a detailed and constructive dialogue. We all know the impact that housing, particularly poor housing, has on people's social and economic wellbeing. For people without a home or those who lose a home, many benefits are lost and the effects can be devastating for adults and children alike. Housing is an essential part of our commitment to tackling poverty and inequalities. It also makes a major contribution to improving the environment and to tackling climate change.

I am pleased that the Auditor General for Wales's recent report acknowledges that the quality of social housing is improving as a result of the Welsh housing quality standard, and its benefits for tenants. Around £1.6 billion has been invested to date. Despite these challenging economic times, I am committed to continuing the investment. Despite significant cuts to capital budgets, this budget has been protected for the next two years. However, it is not just about bricks and mortar. It is also about helping people to live independently for as long as possible, which helps reduce demand on health and social services. Housing-related programmes, such as the Supporting People programme and the rapid response adaptations programme, do just that. The current economic situation, public spending cuts and tighter mortgage requirements have had a devastating effect on the housing market and, consequently, on house building—both affordable housing and market housing. Supply lags well behind demand, and that is creating huge problems. We must find ways of increasing house building. Releasing land is a key part of that and I am in the process of establishing a specialised team that will be pushing this forward alongside wider discussions with the Home Builders Federation, local authorities and housing associations, and my ministerial colleagues.

ymrwymiad clir i weithio gyda'r holl bleidiau. Nid yw'r atebion i gyd gan unrhyw un ond drwy ddod â'n meddyliau a syniadau at ei gilydd, gallwn greu casgliad o gamau gweithredu a allai wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl. Rwyf eisoes wedi siarad â rhai Aelodau am faterion yn y papur ond y ddadl hon yw'r cyfle cyntaf i gyfnewid safbwyntiau yn ehangach. Gobeithio mai dyma ddechrau deialog fanwl ac adeiladol. Gwyddom i gyd am yr effaith a gaiff tai, yn arbennig tai gwael, ar les cymdeithasol ac economaidd pobl. I'r bobl heb gartref neu'r rheini sy'n colli eu cartref, caiff llawer o fanteision eu colli, a gall yr effeithiau fod yn ddinistriol i oedolion a phlant fel ei gilydd. Mae tai yn rhan hanfodol o'n hymrwymiad i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb. Mae hefyd yn gwneud cyfraniad mawr at wella'r amgylchedd a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Rwyf yn falch bod adroddiad diweddar Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cydnabod bod ansawdd tai cymdeithasol yn gwella o ganlyniad i safon ansawdd tai Cymru, a'i fanteision i denantiaid. Mae tua £1.6 biliwn wedi cael ei fuddsoddi hyd yma. Er gwaethaf y cyfnod economaidd anodd hwn, rwyf wedi ymrwmo i barhau â'r buddsoddiad. Er gwaethaf toriadau sylweddol i gyllidebau cyfalaf, mae'r gyllideb hon wedi cael ei diogelu am y ddwy flynedd nesaf. Fodd bynnag, nid brics a mortar yn unig sy'n bwysig yma. Mae hefyd yn ymwneud â helpu pobl i fyw yn annibynnol cyhyd ag y bo modd, sy'n helpu i leihau'r galw ar wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae rhaglenni sy'n ymwneud â thai, fel y rhaglen Cefnogi Pobl a'r rhaglen addasiadau brys, yn gwneud hynny. Mae'r sefyllfa economaidd bresennol, toriadau i wariant cyhoeddus a gofynion morgais llymach wedi cael effaith andwyol ar y farchnad dai ac, o ganlyniad, ar adeiladu tai—yn dai fforddiadwy a thai'r farchnad agored. Nid oes digon o dai bell ffordd i gwrdd â'r galw, ac mae hynny'n peri problemau enfawr. Rhaid inni ddod o hyd i ffyrdd o adeiladu mwy o dai. Mae rhyddhau tir yn rhan allweddol o hynny ac rwyf wrthi'n sefydlu tîm arbenigol a fydd yn gwthio hyn ymlaen, ynghyd â thrafodaethau ehangach â'r Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi, awdurdodau lleol a chymdeithasau tai, a'm

cyd-Weinidogion.

I am looking forward to the Communities, Equality and Local Government Committee's report on affordable housing, as it will make a significant contribution to our future thinking. I also want all Members' views and ideas. We need to consider where we should intervene and how, the impact of our interventions and who needs our help. Fairness and equality, and helping people whose needs cannot be met by the housing market, should be at the heart of our considerations. We will do all that we can. This Government has made a clear public commitment to making housing a greater priority in the coming years. My recent announcement of a £5 million programme to reduce the number of empty homes shows that we are serious. Some matters, such as housing benefit, are outside our control but we can help people to cope. For example, I am funding local authorities to work with landlords and negotiate on behalf of tenants to manage the benefits reductions.

Earlier, I mentioned housing as an economic driver. Our decision to invest a further £9m in more affordable housing reflects that. That will deliver around 130 much needed homes for families across Wales. The Welsh housing partnership, which we are part funding, will deliver a further 150 new affordable homes. I am pursuing additional developments, using publicly owned land. For example, the Caerphilly Miners' hospital site will see 82 new homes, of which 75% will be affordable.

Our commitment to regenerating communities is also addressing the housing shortage, in part. We have already announced a further £10 million of funding over two years. This will purchase empty, derelict or substandard properties in west Rhyl for redevelopment as affordable homes for local people.

My paper set out my thoughts on a wide range of housing issues. I want a holistic approach to people's housing needs,

Rwy'n edrych ymlaen at adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar dai fforddiadwy, gan y bydd yn gwneud cyfraniad sylweddol at ein ffordd o feddwl yn y dyfodol. Rwyf hefyd am gael barn a syniadau yr holl Aelodau. Mae angen inni ystyried lle y dylem ymyrryd a sut, effaith ein hymyriadau a phwy sydd angen ein help. Dylai tegwch a chydaddoldeb, a helpu pobl na ellir diwallu eu hanghenion gan y farchnad dai, fod wrth wraidd ein hystyriaethau. Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu. Mae'r Llywodraeth hon wedi gwneud ymrwymiad cyhoeddus clir i wneud tai yn fwy o flaenoriaeth yn y blynyddoedd i ddod. Mae fy nghyhoeddiad diweddar am raglen £5 miliwn i leihau nifer y cartrefi gwag yn dangos ein bod o ddifrif. Mae rhai materion, fel budd-dal tai, y tu hwnt i'n rheolaeth ni, ond gallwn helpu pobl i ymdopi. Er enghraifft, rwyf yn ariannu awdurdodau lleol i weithio gyda landlordiaid a negodi ar ran tenantiaid i reoli'r gostyngiad mewn budd-daliadau.

Yn gynharach, soniais am dai fel sbardun economaidd. Mae ein penderfyniad i fuddsoddi £9 miliwn yn ychwanegol mewn mwy o dai fforddiadwy yn adlewyrchu hynny. Bydd hyn yn darparu tua 130 o gartrefi sydd eu hangen yn ddirfawr ar deuluoedd ar draws Cymru. Rydym yn rhannol ariannu partneriaeth tai Cymru, a bydd y bartneriaeth honno hefyd yn darparu 150 o gartrefi fforddiadwy newydd. Rwyf yn mynd ar drywydd datblygiadau ychwanegol, gan ddefnyddio tir mewn perchnogaeth gyhoeddus. Er enghraifft, bydd 82 o gartrefi newydd ar safle Ysbyty Glowyr Caerffili, a bydd 75% ohonynt yn fforddiadwy.

Mae ein hymrwymiad i adfywio cymunedau hefyd yn mynd i'r afael â'r prinder tai, yn rhannol. Rydym eisoes wedi cyhoeddi £10 miliwn ychwanegol o gyllid dros ddwy flynedd. Bydd hyn yn prynu eiddo gwag, adfeiliedig neu eiddo nad yw'n cyrraedd y safon yng ngorllewin y Rhyl ar gyfer eu hail-ddatblygu fel tai fforddiadwy i bobl leol.

Roedd fy mhapur yn nodi fy syniadau o ran ystod eang o faterion yn ymwneud â thai. Rwyf am weld agwedd gyfannol tuag at

regardless of tenure. The aim must be that everyone has a home that they can afford, which is in good condition. This means exploring our role, as a Government, as a steward of the housing market, recognising that we cannot control the market, but that we need to use our powers of influence as effectively as we can. The increasingly important private rented sector needs attention to ensure that people can enjoy the higher standards and reputation that exist elsewhere. We must also open our minds to new forms of ownership and finance, particularly co-operative housing, which works so well in Scandinavia. We need to do more to prevent homelessness in the first place, which means better joint working between public and third sector service providers. Working more closely with the private sector and lenders is also vital.

Public funding is tight and difficult choices have to be made. I know that the Government will not be able to do everything. The need to prioritise makes it even more important to share our ideas and thinking in a full and frank debate in the coming months. This is the opportunity for all of us, together, to develop a shared agenda to meet people's needs. I look forward to hearing Members' views and ideas.

The Presiding Officer: I remind Members that this is an opportunity to question the Minister and not to have too many long preambles.

Mark Isherwood: Thank you for your statement and for the emphasis on building consensus for action. We have a housing supply crisis; I will not go into the history, because I want to look to the future and the solutions that we can deliver to tackle that. As you say, tough decisions need to be taken. Legislation is not always the answer, although the housing Bill can help to address that where existing powers do not permit. Housing, as I have said many times, is the key vehicle for sustainable community regeneration. While recognising that bricks and mortar do not stand alone, they can link to so much else. However, without the bricks

anghenion tai pobl, waeth beth fo'u deiliadaeth. Mae'n rhaid pennu nod o sicrhau bod gan bawb gartref fforddiadwy sydd mewn cyflwr da. Mae hyn yn golygu edrych ar ein rôl, fel y Llywodraeth, goruchwyliwr y farchnad dai, gan gydnabod na allwn reoli'r farchnad, ond bod angen inni ddefnyddio ein pwerau dylanwadu mor effeithiol ag y gallwn. Mae'n rhaid troi ein sylwadau hefyd at y sector rhentu preifat gan fod hwnnw yn dod yn fwyfwy pwysig er mwyn sicrhau y gall pobl fwynhau'r safonau uwch ac enw da sy'n bodoli mewn mannau eraill. Mae'n rhaid inni hefyd fod yn fwy agored i ffurfiau newydd o berchnogaeth a chyllid, yn enwedig tai cydweithredol, sy'n gweithio mor dda yn Llychlyn. Mae angen inni wneud mwy i atal digartrefedd yn y lle cyntaf, sy'n golygu gwell cydweithio rhwng darparwyr gwasanaethau y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Mae gweithio'n agosach â'r sector preifat a benthycwyr hefyd yn hanfodol.

Mae arian cyhoeddus yn dynn a rhaid gwneud dewisiadau anodd. Rwy'n gwybod na fydd y Llywodraeth yn gallu gwneud popeth. Mae'r angen i flaenoriaethu yn ei gwneud yn bwysicach fyth inni rannu ein syniadau a'n meddyliau mewn trafodaeth lawn ac agored yn ystod y misoedd nesaf. Dyma'r cyfle i bob un ohonom, gyda'i gilydd, ddatblygu agenda cytûn er mwyn diwallu anghenion pobl. Edrychaf ymlaen at glywed barn a syniadau'r Aelodau.

Y Llywydd: Rwy'n atgoffa'r Aelodau mai cyfle i holi'r Gweinidog yw hwn ac i beidio â chael rhagarweiniad rhy hir.

Mark Isherwood: Diolch i chi am eich datganiad ac am y pwyslais ar feithrin consensws ar gyfer gweithredu. Mae gennym argyfwng yn ein cyflenwad o dai; nid wyf am drafod yr hanes, gan fy mod am edrych i'r dyfodol a'r atebion y gallwn eu cyflawni i fynd i'r afael â hynny. Fel y dywedwch, rhaid gwneud penderfyniadau anodd. Nid deddfwriaeth yw'r ateb bob amser, er y gall y Bil tai helpu i fynd i'r afael â hynny lle nad yw pwerau presennol yn caniatáu. Tai, fel rwyf wedi dweud sawl gwaith, yw'r cyfrwng allweddol ar gyfer adfywio cymunedol cynaliadwy. Wrth gydnabod nad yw brics a mortar yn sefyll ar eu pen eu hunain, gallant

and mortar, the rest will not happen.

You mentioned a great number of issues, but I will start by referring to tighter mortgage requirements. I am aware that you have a section 106 working group that is seeking ways, with mortgage lenders and others, to provide section 106 planning gain restrictions applying to the development of affordable housing that will be more acceptable to lenders and enable more affordable homes to be delivered through the planning system. We would welcome your comments on how you feel that that can agree guidance on best practice that will be taken forward at local authority level. Also on mortgage lenders, you will be aware that one of the biggest issues has been a lack of mortgage indemnity and, therefore, the high deposits required of first-time buyers. Both England and Scotland—in fact, Scotland launched this ahead of England—have announced mortgage indemnity schemes that would cover mortgages up to 95% and only require 5% from buyers. I know that Conwy is also looking at the local authority mortgage scheme, which was also launched in Scotland before England, as to what role it can play alongside the work that is being done on section 106 to work with mortgage lenders to overcome some of the barriers that exist.

You referred to the Welsh housing quality standard. You may have heard me referring earlier to the report to which you referred from the auditor general, which came out last Friday, which points to weaknesses in leadership historically on the Welsh housing quality standard, when the Welsh Government did not act swiftly enough to support and monitor progress or to put an effective framework in place to demonstrate value for money for the investment that was going in. However, most importantly, it refers to the main shortfall being in areas where tenants voted against proposals to transfer local authority housing stock to a new housing association or where tenants have yet to be balloted on such proposals.

gysylltu â chymaint o bethau eraill. Fodd bynnag, heb y brics a morter, ni fydd y gweddill yn digwydd.

Nodwyd llawer o faterion gennych, ond byddaf yn dechrau drwy gyfeirio at ofynion morgais llymach. Rwy'n ymwybodol bod gennych weithgor adran 106 sy'n gweithio gyda benthycwyr morgeisi ac eraill, i ddarparu cyfyngiadau lles cynllunio adran 106 sy'n gymwys i ddatblygu tai fforddiadwy a fydd yn fwy derbyniol i fenthycwyr ac yn galluogi mwy o dai fforddiadwy i gael eu darparu drwy'r system gynllunio. Byddem yn croesawu eich sylwadau ar sut rydych yn teimlo y gallai hynny gytuno ar ganllawiau arfer gorau y gellir eu cyflwyno gan awdurdodau lleol. Hefyd, o ran benthycwyr morgeisi, byddwch yn ymwybodol mai un o'r trafferthion mwyaf yw'r diffyg indemniad morgais a'r blaendaliadau uchel, felly, sy'n ofynnol gan brynwyr tro cyntaf. Mae Lloegr a'r Alban—yn wir, cafodd hyn ei lansio yn yr Alban cyn Lloegr—wedi cyhoeddi cynlluniau indemniad morgais a fyddai'n cynnwys morgeisi o hyd at 95% gan ofyn am ddim ond 5% gan y prynwyr. Gwn fod Conwy, hefyd, yn ystyried y cynllun morgais awdurdod lleol, a gafodd ei lansio hefyd yn yr Alban cyn Lloegr, o ran pa rôl y gall ei chwarae ochr yn ochr â'r gwaith sy'n cael ei wneud ar adran 106 i weithio gyda benthycwyr morgeisi i oresgyn rhai o'r rhwystrau sy'n bodoli.

Cyfeiriasoch at y safon ansawdd tai Cymru. Efallai eich bod wedi fy nghlywed yn cyfeirio yn gynt at yr adroddiad y cyfeiriasoch ato gan yr archwilydd cyffredinol, a gyhoeddwyd ddydd Gwener diwethaf, sy'n cyfeirio at wendidau hanesyddol mewn arweinyddiaeth o ran safon ansawdd tai Cymru, pan na weithredodd Llywodraeth Cymru yn ddigon cyflym i gynnal a monitro cynnydd, na rhoi fframwaith effeithiol ar waith i ddangos gwerth am arian ar gyfer y buddsoddiad a oedd yn cael ei wneud. Fodd bynnag, yn bwysicaf oll, cyfeiria at y prif ddiffyg mewn ardaloedd lle y pleidleisiodd tenantiaid yn erbyn cynigion i drosglwyddo stoc dai awdurdod lleol i gymdeithas tai newydd neu lle nad yw tenantiaid wedi pleidleisio eto ar gynigion o'r fath.

3.30 p.m.

What role do you feel, therefore, that the Welsh Government can play in better helping understanding in those areas—I live in north-east Wales, where Wrexham voted against, and Flintshire is going to ballot shortly. I must declare that my wife is on the transfer board. I put that on record. I emphasise the fact that transfer can generate, according to the Chartered Institute of Housing, five times more money to put into tenants' homes, as well as creating wider regeneration, jobs, environmental gain and economic benefit. Also, I emphasise that the associations are not-for-profit social enterprises, so any profit goes back into development. These are not, as some scaremonger, private organisations that are seeking to rip off the tenants.

Moving on to your comments about the Supporting People programme, it is obviously pivotal and I welcome the support that the Welsh Government has continued to give to this programme. However, how do you respond to the cross-party concern being expressed in north Wales that the new formula might redirect 20% of the funding going into north Wales for programmes there to other parts of Wales, and the need, recognised by Cymorth Cymru and others, for the independent third sector to have a strategic voice in the new regional panels that will be making the decisions on future priorities?

I have already referred to mortgage requirements. You referred to working with housebuilders, which is critical. Housebuilders recognise that they are now a key component in delivering affordable housing in future. You referred to the land issue, and I am pleased to see that you are having discussions with the Home Builders Federation, local authorities and housing associations. However, will you also consider having direct discussions with larger building companies? I am not saying this for party political reasons, but, last November, at a housing market event hosted by the National House-Building Council in the Wales

Pa rôl, felly, y gall Llywodraeth Cymru ei chwarae yn eich barn chi o ran gwella dealltwriaeth yn yr ardaloedd hynny—rwyf i'n byw yng ngogledd-ddwyrain Cymru, lle pleidleisiodd Wrecsam yn erbyn, a bydd pleidlais yn fuan yn Sir y Fflint. Rhaid i mi ddatgan bod fy ngwraig yn aelod o'r bwrdd trosglwyddo. Rhoddaf hynny ar gofnod. Rwyf yn pwysleisio'r ffaith y gall trosglwyddo, yn ôl y Sefydliad Tai Siartredig, gynhyrchu pum gwaith cymaint o arian i'w wario ar gartrefi tenantiaid, yn ogystal â chreu adfywio, swyddi, a buddiannau amgylcheddol ac economaidd ehangach. Rwyf hefyd yn pwysleisio mai mentrau cymdeithasol nid-er-elw yw'r cymdeithasau, felly mae unrhyw elw yn mynd yn ôl i'w ddatblygu. Nid yw'r rhain, fel y mae rhai yn ceisio ei awgrymu gan godi bwganod, yn gyrrff preifat sy'n ceisio cymryd mantais ar denantiaid.

Gan symud ymlaen i'ch sylwadau am y rhaglen Cefnogi Pobl, mae'n amlwg yn un ganolog ac rwyf yn croesawu'r gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i'w rhoi i'r rhaglen hon. Fodd bynnag, sut ydych yn ymateb i'r pryder trawsbleidiol sy'n cael ei fynegi yn y gogledd y gallai'r fformiwla newydd ailgyfeirio 20% o'r arian sy'n mynd i raglenni yng ngogledd Cymru i rannau eraill o Gymru, ac i'r angen, a gydnabyddir gan Cymorth Cymru ac eraill, i'r trydydd sector annibynnol gael llais strategol yn y paneli rhanbarthol newydd a fydd yn gwneud y penderfyniadau ar flaenoriaethau'r dyfodol?

Rwyf eisoes wedi cyfeirio at ofynion morgesi. Rydych yn cyfeirio at weithio gydag adeiladwyr tai, sy'n hanfodol. Mae adeiladwyr tai yn cydnabod eu bod bellach yn elfen allweddol o ran darparu tai fforddiadwy yn y dyfodol. Rydych yn cyfeirio at dir, ac rwyf yn falch o weld eich bod yn cael trafodaethau â'r Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi, awdurdodau lleol a chymdeithasau tai. Fodd bynnag, a wnewch chi hefyd ystyried cael trafodaethau uniongyrchol â chwmnïau adeiladu mwy? Nid wyf yn dweud hyn am resymau pleidiol, ond, fis Tachwedd diwethaf, mewn digwyddiad marchnad dai a gynhaliwyd gan

Millennium Centre, following a lunchtime event in the Assembly, a number of managing directors of major home build companies came to speak to me, as the only Assembly Member present, and told me that they had had great difficulty in arranging meetings to meet Ministers in the Welsh Government to discuss this very agenda. They told me that they had written three times and not had a response. I suspect that you may not have seen those letters, but I know that—

The Presiding Officer: Order. Mark Isherwood, you have spoken for as long as the Minister. Can you come to questions now, please?

Mark Isherwood: Okay. On empty homes, will you work to build upon the progress in north Wales to establish a network across the counties of empty homes officers? I have already previously welcomed the Welsh housing partnership. In terms of the additional £9.2 million that you have announced for 130 homes, will you engage with Community Housing Cymru, which, I believe, feels that the multiplier could generate a lot more than 130 homes from that sum of money? On the private rented sector—there is only one point after this—

The Presiding Officer: Order. That must be the final point, because we are limiting other people's time to speak, Mark.

Mark Isherwood: Will you engage with the National Landlords Association over its proposals for social letting agencies and accreditation? I wish to speak to you separately about West Rhyl, because a number of issues have arisen there. Thank you.

Huw Lewis: I will attempt to quickly run through the points that Mark has raised, and I thank him for the constructive way in which he has approached today's statement. First, we need to take a look at section 106 agreements, particularly where we may be facing issues surrounding stalled developments. I have asked my officials to pay special attention to that, and we are

y Cyngor Adeiladu Tai Cenedlaethol yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, yn dilyn digwyddiad amser cinio yn y Cynulliad, daeth nifer o gyfarwyddwyr rheoli cwmnïau adeiladu mawr i siarad â mi, fel yr unig Aelod Cynulliad a oedd yn bresennol, a dweud wrthyf eu bod wedi cael anhawster mawr wrth drefnu cyfarfodydd i gyfarfod â Gweinidogion Llywodraeth Cymru i drafod yr union agenda hwn. Dywedasant wrthyf eu bod wedi ysgrifennu dair gwaith ond heb gael ymateb. Efallai na welsoch y llythyrau hynny, ond gwn fod—

Y Llywydd: Trefn. Mark Isherwood, rydych wedi siarad cyhyd â'r Gweinidog. Allwch chi ofyn eich cwestiynau nawr, os gwelwch yn dda?

Mark Isherwood: Iawn. Ar gartrefi gwag, a wnewch chi ddatblygu'r cynnydd a wnaed yng ngogledd Cymru i sefydlu rhwydwaith o swyddogion cartrefi gwag ar draws y siroedd? Rwyf wedi croesawu partneriaeth tai Cymru o'r blaen. O ran y £9.2 miliwn ychwanegol rydych wedi ei gyhoeddi ar gyfer 130 o gartrefi, a wnewch chi gysylltu â Cartrefi Cymunedol Cymru, sydd, rwyf yn credu, yn teimlo y gallai'r lluosydd gynhyrchu llawer mwy na 130 o gartrefi gyda'r swm hwnnw o arian? Ar y sector rhentu preifat—dim ond un pwynt sydd gennyf ar ôl hwn—

Y Llywydd: Trefn. Mark, mae'n rhaid i hwnnw fod y pwynt olaf, oherwydd ein bod yn cyfyngu ar amser pobl eraill i siarad.

Mark Isherwood: A fyddwch yn ymgysylltu â'r Gymdeithas Landlordiaid Cenedlaethol ynghylch ei chynigion ar gyfer asiantaethau gosod cymdeithasol ac achredu? Rwyf yn dymuno siarad â chi ar wahân am orllewin y Rhyl, oherwydd bod nifer o faterion wedi codi yno. Diolch.

Huw Lewis: Byddaf yn ceisio mynd yn gyflym drwy'r pwyntiau a gododd Mark, ac rwyf yn diolch iddo am y modd adeiladol y mae wedi ymdrin â datganiad heddiw. Yn gyntaf, mae angen i ni edrych ar gytundebau adran 106, yn enwedig lle mae'n bosibl y byddwn yn wynebu materion yn ymwneud â datblygiadau sydd wedi pallu. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion roi sylw arbennig i

trying to get to grips—with the co-operation of housebuilders, incidentally, whom I have, of course, met—with the exact scale of this problem, to see how widespread it might be within Wales so that we can take appropriate action.

On the Welsh housing quality standard, I welcome the Wales Audit Office report as a useful tool for the future. I intend to embrace that report, learn lessons from it and take on board its recommendations. As I said, £1.6 billion has been put into this agenda over the last few years, and, over the next five years, £2.5 billion will be invested likewise. I regard it as a useful addition to the debate, therefore.

In terms of those areas of Wales that have voted 'no' in previous ballots, or have not balloted on housing stock transfer, there is no disguising that they are in a very difficult situation. That is why I very much hope for constructive and co-operative approaches from the UK Government when it comes to our upcoming negotiations on the housing revenue account subsidy formula, from which I would very much like to see Wales released. The attitude of Westminster, and its ability to apply itself speedily and constructively to that debate, will be critical.

Many north Wales representatives will be concerned about the changes coming through the Supporting People formula. Although this formula is very necessary, because we will, for the first time, be spending money based on a formula that takes into account need, rather than historical habit, it will impact in particular in areas in north Wales. I have, therefore, ensured that this is a phased change over five years, so that no local authority area should take a hit bigger than around 5% per year. Everyone is well aware of what is coming up, and everyone knows that it will be difficult and that there are areas that will need further attention and support from my officials. I will make sure that they receive it when they need it.

hynny, ac rydym yn ceisio mynd i'r afael ag union faint y broblem hon—gyda chydweithrediad adeiladwyr tai, gyda llaw, yr wyf, wrth gwrs, wedi cyfarfod â hwy—i weld pa mor gyffredin y gallai fod yng Nghymru er mwyn i ni gymryd camau priodol.

Ar safon ansawdd tai Cymru, rwyf yn croesawu adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru fel arf defnyddiol ar gyfer y dyfodol. Rwyf yn bwriadu derbyn yr adroddiad hwnnw, dysgu gwersi oddi wrtho a chymryd ei argymhellion o ddifrif. Fel y dywedais, mae £1.6 biliwn wedi cael ei roi i'r agenda hon yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a bydd £2.5 biliwn yn cael ei fuddsoddi yn yr un modd dros y pum mlynedd nesaf. Rwyf, felly, yn ei ystyried fel ychwanegiad defnyddiol at y drafodaeth.

O ran yr ardaloedd hynny o Gymru sydd wedi pleidleisio 'na' mewn pleidleisiau blaenorol, neu sydd heb gynnal pleidlais ar drosglwyddo'r stoc tai, ni ellir cuddio rhag y ffaith eu bod mewn sefyllfa anodd iawn. Dyna pam rwyf yn gobeithio'n fawr am agwedd adeiladol a chydweithredol o du Llywodraeth y DU yn ystod ein trafodaethau buan ar fformiwla'r cymhorthdal cyfrif refeniw tai, gan y byddwn yn falch iawn o weld Cymru'n cael ei rhyddhau. Bydd agwedd San Steffan, a'i allu i gymhwyso'i hun yn gyflym ac yn adeiladol i'r ddadl honno, yn hanfodol.

Bydd llawer o gynrychiolwyr gogledd Cymru yn pryderu am y newidiadau sy'n dod yn sgîl y fformiwla Cefnogi Pobl. Er bod y fformiwla hon yn angenrheidiol iawn, gan y byddwn, am y tro cyntaf, yn gwario arian yn seiliedig ar fformiwla sy'n ystyried angen, yn hytrach nag arfer hanesyddol, bydd yn effeithio yn arbennig ar ardaloedd yng ngogledd Cymru. Felly, rwyf wedi sicrhau y bydd hwn yn newid graddol dros bum mlynedd, fel na ddylai unrhyw ardal awdurdod lleol gael ei tharo â mwy na thua 5% y flwyddyn. Mae pawb yn ymwybodol o'r hyn sydd ar y gweill, ac mae pawb yn gwybod y bydd yn anodd, a bod meysydd y bydd angen rhagor o sylw a chefnogaeth arnynt gan fy swyddogion. Byddaf yn sicrhau eu bod yn cael y sylw hwnnw pan fyddant ei angen.

Ann Jones: I thank the Minister for his statement, because the housing challenges facing us as an Assembly, and you as a Government, Minister, are all evidenced in parts of my constituency. I again thank you for the £10 million that is going towards putting some of those problems right in the west end of Rhyl. As I have said many times, if we get the west end of Rhyl right, then Denbighshire and Rhyl will both prosper.

I am keen to see a partnership approach, but only if it brings about the outcome of a good-quality house for those who are in substandard housing at the moment or who perhaps do not even have a home.

The mix of housing options, from renting to buying, and from shared equity to ownership, needs to be identified clearly and marketed effectively. My concern is that consumer demand is not always met by the design of the markets—of course, demand is led by availability and, to some extent, competition. So, as long as alternative housing models, including the co-operative model, are on the outskirts of our thinking, there is a danger that they will never be developed. What specific measures is the Welsh Government taking to ensure that families and individuals are presented with a full range of options through your housing Bill?

Huw Lewis: I thank the Member for her comments. The £10 million for west Rhyl is part of an ongoing commitment, and I guarantee that Rhyl will remain at the centre of our priorities. The regeneration of Rhyl very much depends on our getting the housing balance in the community right—that is perhaps truer of that community than of almost anywhere else in Wales.

The Member is quite right to point to the importance of there being a range of options for people. That is absolutely critical. A previous emphasis on housing for social rent as being at the centre of absolutely all of our thinking as a Government must change. Many more people, in all forms of tenure, will face the problem of holding on to affordable, good-quality accommodation,

Ann Jones: Diolchaf i'r Gweinidog am ei ddatganiad, oherwydd bod yr heriau tai sy'n ein hwynebu fel Cynulliad, a chi fel y Llywodraeth, Weinidog, i gyd i'w gweld yn blaen mewn rhannau o fy etholaeth i. Diolch unwaith eto i chi am y £10 miliwn a fydd yn mynd i'r afael â rhai o'r problemau hynny yng ngorllewin y Rhyl. Fel yr wyf wedi dweud sawl gwaith, os llwyddwn ni i gael pethau'n iawn yng ngorllewin y Rhyl, yna bydd Sir Ddinbych a'r Rhyl yn ffynnu.

Rwyf yn awyddus i weld dull partneriaeth, ond dim ond os, yn sgîl hynny, y daw â thai o ansawdd da ar gyfer y rhai sydd mewn tai gwael ar hyn o bryd neu sydd, efallai, hyd yn oed heb gartref.

Mae angen nodi'n glir y gymysgedd o opsiynau tai, gan gynnwys rhentu a phrynu, ecwiti a rennir a pherchnogaeth, a'u marchnata'n effeithiol. Fy mhryder i yw nad yw galw gan ddefnyddwyr bob amser yn cael ei ddiwallu gan y farchnad—wrth gwrs, caiff y galw ei arwain gan argaeledd ac, i ryw raddau, gan gystadleuaeth. Felly, os yw modelau tai eraill, gan gynnwys y model cydweithredol, ond ar ymylon ein ffordd o feddwl, mae perygl na chânt byth eu datblygu. Pa fesurau penodol y mae Llywodraeth Cymru yn eu rhoi ar waith i sicrhau bod yr ystod lawn o ddewisiadau yn cael eu cyflwyno i deuluoedd ac unigolion drwy eich Bil tai?

Huw Lewis: Diolch i'r Aelod am ei sylwadau. Mae'r £10 miliwn ar gyfer gorllewin y Rhyl yn rhan o ymrwymiad parhaus, ac rwyf yn gwarantu y bydd y Rhyl yn parhau i fod wrth wraidd ein blaenoriaethau. Mae adfywio'r Rhyl yn dibynnu'n fawr ar gael y cydbwysedd tai yn y gymuned yn iawn—efallai fod hynny'n fwy gwir yn y gymuned honno na bron unman arall yng Nghymru.

Mae'r Aelod yn hollol iawn i grybwyll pwysigrwydd cael amrywiaeth o opsiynau i bobl. Mae hynny'n gwbl hanfodol. Rhaid i'r pwyslais blaenorol ar dai cymdeithasol ar rent fel craidd ein holl syniadau fel Llywodraeth newid. Bydd llawer mwy o bobl mewn pob math o ddaliadaeth yn wynebu'r broblem o barhau i fyw mewn tai fforddiadwy o ansawdd, p'un a ydynt yn

whether they are owner-occupiers in the private rented sector or in shared ownership or some other form of ownership. We have to address all of those categories over the coming years to ensure that we help people through these very difficult times.

Leanne Wood: Minister, in your statement you are right to point out the difficulties that are being, and will be, posed by the UK Government's welfare reforms. There is no doubt that those reforms will make life a lot more difficult for many people. I am sure that you will agree that it is plain wrong that those on the lowest incomes should be forced to pay for the mistakes of the bankers and corporations responsible for this financial crisis, yet that is what is happening.

I have a number of questions for you on this statement, Minister. How do you intend to meet housing demand of around 14,000 units a year when the construction rate is lower than 7,000 a year and is likely to be lower in future now that there are no targets, as there were under the One Wales Government? When are we likely to see housing targets from you? What, exactly, is being done about implementation? There is a lot in this statement about working together, but not much about actually doing. What steps are you intending to take to protect those communities where Welsh is still a living community language? How will you ensure that such communities remain viable when housing is such a key issue for those communities? We have had little detail here on your plans to tackle homelessness, which, as you aware, is a growing problem. What direction does the Welsh Government intend to take to reduce homelessness? Do you support Shelter Cymru's call for an integrated support package for anyone facing homelessness, a statutory duty to prevent homelessness applicable across the public sector, and an end to the category of intentional homelessness? Finally, I am glad that you made mention of your trip to Sweden and the model of co-operative housing that is very popular there. I am sure that you would find a lot of support in this Chamber for going down a more co-operative road. However, what concrete steps can you take to encourage and promote the setting up

berchen-ddeiliaid yn y sector rhentu preifat neu mewn perchnogaeth a rennir neu fath arall o berchnogaeth. Mae'n rhaid inni fynd i'r afael â phob un o'r categorïau hynny dros y blynyddoedd nesaf er mwyn sicrhau ein bod yn helpu pobl drwy'r cyfnod anodd hwn.

Leanne Wood: Weinidog, rydych yn iawn i dynnu sylw yn eich datganiad at yr anawsterau sy'n bodoli, ac a fydd yn dod i'r amlwg, yn sgîl diwygiadau lles Llywodraeth y DU. Nid oes amheuaeth na fydd y diwygiadau hynny yn gwneud bywyd yn llawer anos i lawer o bobl. Rwyf yn siŵr y byddwch yn cytuno ei bod yn gwbl anghywir mai'r rhai sydd ar yr incwm isaf ddylai orfod talu am gamgymeriadau'r bancwyr a'r corfforaethau sy'n gyfrifol am yr argyfwng ariannol hwn, ac eto dyna beth sy'n digwydd.

Mae gennyf nifer o gwestiynau am y datganiad hwn, Weinidog. Sut ydych chi'n bwriadu bodloni'r galw am tua 14,000 o unedau y flwyddyn pan fo'r gyfradd adeiladu yn is na 7,000 y flwyddyn ac yn debygol o fod yn is yn y dyfodol a ninnau'n awr heb dargedau, yn wahanol i fel ag yr oedd o dan Lywodraeth Cymru'n Un? Pryd ydym yn debygol o weld targedau tai gennych? Beth yn union sy'n cael ei wneud ynghylch gweithredu? Mae llawer yn y datganiad hwn ynglŷn â chydweithio, ond dim llawer am weithredu. Pa gamau rydych yn bwriadu eu cymryd i amddiffyn y cymunedau hynny lle mae'r Gymraeg yn dal i fod yn iaith gymunedol fyw? Sut fyddwch chi'n sicrhau bod cymunedau o'r fath yn parhau i fod yn hyfyw pan fo tai yn fater mor allweddol i'r cymunedau hynny? Ni chawsom lawer o fanylion am eich cynlluniau i fynd i'r afael â digartrefedd, sydd, fel y byddwch yn ymwybodol, yn broblem gynyddol. Pa gyfeiriad y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei gymryd i leihau digartrefedd? A ydych yn cefnogi galwad Shelter Cymru am becyn cymorth integredig i unrhyw un sy'n wynebu digartrefedd, am ddyletswydd statudol ar draws y sector cyhoeddus i atal digartrefedd, ac i roi terfyn ar y categori o ddigartrefedd bwriadol? Yn olaf, rwyf yn falch ichi sôn am eich taith i Sweden a'r model tai cydweithredol sy'n boblogaidd iawn yno. Rwyf yn siŵr y byddech yn dod o hyd i lawer o gefnogaeth yn y Siambr hon i gymryd llwybr mwy cydweithredol. Fodd

of co-operative housing?

Huw Lewis: I thank the Member for those points and questions. The UK Government welfare reforms will have a negative impact—that is for sure. It is extraordinarily difficult to lay hands upon exactly the extent to which that will impact upon our communities in Wales, or whether they will have some kind of cross-border effect, in addition to the impact that they will have on Welsh communities, as people in the north-west of England, and perhaps the south-west of England, are driven away from more expensive properties in search of those that are cheaper. This will need constant attention. Given that we do not have these powers in the Assembly, it will be absolutely central that we have good advisory services out there, helping people in communities to work their way through those changes. That is why I have asked officials to draw up plans for a completely revamped national advisory service on housing, and development work on that national advisory service is under way as I speak. There will be targets connected to housing, although these will not, as in previous Assemblies, simply be connected to housing for social rent. I intend to implement targets across a range of housing need. I anticipate that the first targets will be for the empty properties fund, which will go ahead, with targets attached, in April. I intend to ensure that those targets are realistic, as well as ambitious, so we will take time to ensure that we get them right.

On homelessness, Leanne is quite right to emphasise the importance of the issue. Figures on homelessness are rising for the first time in a decade. I have protected the homelessness budget, we will implement our 10-year homelessness plan, and the door is open with regard to legislative change, including on issues such as the interpretation that we might have, or a duty to prevent homelessness across the public sector. I very much hope that that will be part of a cross-party discussion between now and the development of the White Paper this spring and of the Bill the following year. In terms of the development of co-operative housing, I am working with officials and advisers from

bynnag, pa gamau pendant allwch eu cymryd i annog a hyrwyddo sefydlu mentrau tai cydweithredol?

Huw Lewis: Diolch i'r Aelod am y pwyntiau a'r cwestiynau hynny. Bydd diwygiadau lles Llywodraeth y DU yn cael effaith negyddol—does dim dwywaith am hynny. Mae'n anodd iawn rhagweld i ba raddau'n union y byddant yn effeithio ar gymunedau yng Nghymru, neu a fyddant yn cael effaith draws-ffiniol, ar ben yr effaith ar gymunedau Cymru, wrth i bobl yng ngogledd-orllewin Lloegr, ac efallai de-orllewin Lloegr, orfod gadael llety mwy costus i chwilio am lety rhatach. Bydd angen rhoi sylw cyson i hyn. O ystyried nad oes gennym y pwerau hyn yn y Cynulliad, bydd yn gwbl ganolog bod gennym wasanaethau cynghori da i helpu pobl mewn cymunedau i ddeall y newidiadau hynny. Dyna pam rwyf wedi gofyn i swyddogion lunio cynlluniau gwbl newydd ar gyfer gwasanaeth cynghori cenedlaethol ar dai, ac mae'r gwaith datblygu ar y gwasanaeth cynghori cenedlaethol hwnnw ar y gweill wrth i mi siarad. Bydd targedau ar dai yn cael eu llunio, er na fydd y rhain, fel mewn Cynulliadau blaenorol, yn gysylltiedig â thai cymdeithasol ar rent yn unig. Rwyf yn bwriadu gweithredu targedau ar draws ystod eang o anghenion tai. Rwyf yn rhagweld mai ar y gronfa eiddo gwag y bydd y targedau cyntaf yn cael eu llunio, a gaiff eu cyhoeddi, gyda thargedau ynghlwm â hwy, ym mis Ebrill. Rwyf yn bwriadu sicrhau bod y targedau yn realistig, yn ogystal ag uchelgeisiol, felly byddwn yn cymryd digon o amser i sicrhau eu bod yn gywir.

Mae Leanne yn hollol iawn i bwysleisio pwysigrwydd digartrefedd. Mae ffigurau ar ddigartrefedd ar gynnydd am y tro cyntaf mewn degawd. Rwyf wedi gwarchod y gyllideb ar ddigartrefedd, byddwn yn gweithredu ein cynllun digartrefedd 10 mlynedd, ac mae'r drws yn agored o ran newid deddfwriaethol, gan gynnwys ar faterion fel y dehongliad y gallai bod gennym neu ddyletswydd i atal digartrefedd ar draws y sector cyhoeddus. Rwyf yn mawr obeithio y bydd hyn yn rhan o drafodaeth drawsbleidiol rhwng nawr a datblygiad y Papur Gwyn yn y gwanwyn a'r Bil y flwyddyn ganlynol. O ran datblygu tai cydweithredol, rwyf yn gweithio gyda

outside the Welsh Government at the moment to draw up plans for financial models that would sustain our first co-operative housing pioneer projects, as we will be calling them. We are also working to locate the first parcels of land that would be suitable for such development.

Peter Black: Minister, we have had a number of statements now on the proposed housing Bill, so much so that, when it is published, I expect that it will be named after the Manic Street Preachers album, *Forever Delayed*. All we seem to be doing is talking about it and not seeing much action. I take on board what you said in your statement about legislation not being the be-all and end-all, and a lot of work can be done on housing outside of that Bill. I was disappointed, therefore, to find very little of that work outlined in the statement, which appears to be yet another discussion paper, when there are, clearly, pressing needs for housing in Wales and you need to take action to respond. We are facing a supply-side crisis in Wales in that, as Leanne Wood has pointed out, the number of homes being built are roughly half what is required each year. As a result, house prices are being kept up, which means that people cannot afford to purchase or rent those homes.

3.45 p.m.

We also have a situation whereby first-time buyers in particular cannot get mortgages to buy homes and, as a result, their housing needs are not being met. That is partly because of the financial situation, but also because this Government does not seem to have a clear policy on the provision of intermediate housing with slightly higher rents that those people would be able to afford, and which would assist greatly in relieving the pressure on housing supply that we face at the moment. In the spirit of the constructive relationship that you have invited, Minister, I ask whether you are looking at a mortgage guarantee scheme for first-time buyers along the lines of the scheme introduced in England? If you prefer not to make comparisons with England, how

swyddogion ac ymgynghorwyr y tu allan i Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd i lunio cynlluniau ar gyfer modelau ariannol a fyddai'n cynnal ein prosiectau tai cydweithredol arloesol cyntaf, fel y byddwn yn eu galw. Rydym hefyd yn gweithio i ddod o hyd i'r darnau cyntaf o dir a fyddai'n addas ar gyfer datblygiadau o'r fath.

Peter Black: Weinidog, rydym wedi cael nifer o ddatganiadau ar y Bil tai arfaethedig erbyn hyn; gymaint felly fel, pan gaiff ei gyhoeddi, rwyf yn disgwyl y bydd yn cael ei enwi ar ôl albwm y Manic Street Preachers, *Forever Delayed*. Mae'n ymddangos mai'r unig beth rydym yn ei wneud yw siarad am y peth heb fawr o weithredu. Rwyf yn cytuno â'r hyn y mae'r datganiad yn ei ddweud bod hyn yn llawer ehangach ei gwmpas na deddfwriaeth yn unig, ac y gellir gwneud llawer o waith ar dai y tu allan i'r Bil. Roeddwn yn siomedig, felly, i weld bod cyn lleied o'r gwaith hwnnw wedi'i amlinellu yn y datganiad, sy'n ymddangos fel papur trafod arall, a hithau'n glir bod gwir angen am dai yng Nghymru a bod angen i chi gymryd camau i ymateb. Rydym yn wynebu argyfwng ar yr ochr gyflenwi yng Nghymru oherwydd, fel y dywedodd Leanne Wood, hanner nifer y cartrefi sydd eu hangen y flwyddyn sy'n cael eu hadeiladu. O ganlyniad, mae prisiau tai'n cael eu cadw'n uchel, sy'n golygu na all pobl fforddio i brynu na rhentu'r cartrefi hynny.

Mae gennym hefyd sefyllfa lle na all prynwyr tro cyntaf yn benodol gael morgeisi i brynu tai ac, o ganlyniad, nid yw eu hanghenion tai yn cael eu diwallu. Mae hynny yn rhannol oherwydd y sefyllfa ariannol, ond hefyd oherwydd nad yw'n ymddangos bod gan y Llywodraeth hon bolisi clir o ran y ddarpariaeth o dai canolradd gyda rhent sydd ychydig yn uwch y byddai'r bobl hynny yn gallu eu fforddio, ac a fyddai'n cynorthwyo i leddfu'r pwysau ar y cyflenwad tai sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd. Yn unol ag ysbryd y berthynas adeiladol rydych wedi ei gwahodd, Weinidog, gofynnaf a ydych yn edrych ar gynllun gwarant morgais ar gyfer prynwyr tro cyntaf sy'n debyg i'r cynllun a gyflwynwyd yn Lloegr? Os yw'n well gennych beidio â gwneud cymariaethau â Lloegr, beth am y

about the mortgage schemes that have been introduced by a number of local authorities in Wales, notably Conwy and Powys, with a number of other councils considering similar schemes? Have you considered a pan-Wales scheme to help first-time buyers?

In terms of the finance available, I take on board the many comments that you made about the lack of capital. I note that Welsh housing budgets are being cut by £120 million over the period of the comprehensive spending review, and obviously we can have a debate as to why that is, but clearly there is a need to get more capital money into housing. We have raised with you on a number of occasions the need for a bond scheme to raise private money for housing in the form of a community finance initiative. That could be done in a mutual way, as you have already indicated. I understand that registered social landlords have put together a package worth around £75 million, but of course no bond issue worth its name could really be entered into for less than £100 million, because you do not get the economies of scale. What is the Welsh Government doing to bring that bond issue up to £100 million or more, which would make it worth while and inject a substantial sum of money into housing, as well as making additional money—the extra £25 million or more—available for public services? If the Welsh Government were able to provide revenue streams, it could happen. It might require a special purpose vehicle, but I do not see any work going on publicly to deliver that.

You will be aware that registered social landlords have borrowing powers that can be used for the wider community benefit, and that those borrowing powers can be used to get a greater bang for your buck, if you like, in terms of investment in housing and community facilities. What work has been undertaken by the Welsh Government to explore that particular avenue?

Leanne Wood mentioned targets; when will we see targets for social housing and intermediate housing that are both meaningful and deliverable, so that providers have something to work to? Presiding

cynlluniau morgais sydd wedi cael eu cyflwyno gan nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru, yn enwedig Conwy a Phowys, gyda nifer o gynghorau eraill yn ystyried cynlluniau tebyg? A ydych chi wedi ystyried cynllun Cymru gyfan i helpu prynwyr tro cyntaf?

O ran y cyllid sydd ar gael, rwy'n derbyn y nifer o sylwadau a wnaethoch am y diffyg cyfalaf. Nodaf fod cyllidebau tai Cymru yn cael eu torri £120 miliwn dros gyfnod yr adolygiad cynhwysfawr o wariant, ac mae'n amlwg y gallwn gael trafodaeth ynghylch y rheswm dros hynny, ond mae'n amlwg bod angen cael mwy o arian cyfalaf ar gyfer tai. Rydym, ar sawl achlysur, wedi codi'r angen am gynllun bond i gynyddu arian preifat ar gyfer tai ar ffurf menter cyllid cymunedol. Gallai hynny gael ei wneud mewn ffordd gydfuddiannol, fel rydych eisoes wedi nodi. Rwyf yn deall bod landlordiaid cymdeithasol cofrestredig wedi llunio pecyn gwerth tua £75 miliwn, ond wrth gwrs ni allai unrhyw ddyroddiad bond gwerth ei halen fod yn werth llai na £100 miliwn, oherwydd nad ydych yn cael yr arbedion maint. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynyddu'r dyroddiad bondiau ri £100 miliwn neu fwy, a fyddai'n ei wneud yn fuddiol ac yn rhoi swm sylweddol o arian i'r maestai, yn ogystal â sicrhau bod arian ychwanegol—y £25 miliwn neu fwy—ar gael ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus? Pe bai Llywodraeth Cymru yn gallu darparu ffrydiau refeniw, gallai hyn ddigwydd. Efallai y byddai angen cyfrwng arbennig i'r diben, ond nid wyf yn gallu gweld unrhyw waith yn digwydd yn gyhoeddus i gyflawni hynny.

Byddwch yn ymwybodol bod gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig bwerau benthyca y gellir eu defnyddio er budd y gymuned ehangach, ac y gellir defnyddio'r bwerau benthyca hyn i gael gwerth mwy am eich arian, o ran buddsoddi mewn tai a chyfleusterau cymunedol. Pa waith mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i ystyried hynny?

Soniodd Leanne Wood am dargedau; pryd y byddwn yn gweld targedau ar gyfer tai cymdeithasol a thai canolradd sydd yn ystyrllon ac yn ymarferol, fel bod gan ddarparwyr rywbeth i weithio tuag ato?

Officer, I have a list that I have only just started, but I will conclude here, and I would be grateful if the Minister could start by addressing this point. I look forward to the constructive dialogue that the Minister has promised.

Huw Lewis: I thank the spokesperson for the Welsh Liberal Democrats for those comments. First, to take the point on this perceived delay in the Bill, the timetable for its introduction has been clear for months: we will have a White Paper this spring, and the Bill to become the first ever Welsh housing Act will be introduced in the autumn, probably October, of 2013. That has been crystal clear for months, so I can only assume that either the Member has not been listening, or he is being mischievous on that point. However, he is quite right to say that this is not all about the Bill; it is about practicalities, and things like capital and land, and today, as part of my statement, I mentioned that extra £9 million that we were able to inject into the social housing grant. That translates into 130 new homes, plus the £5 million recyclable loan fund for empty properties, which is a new initiative by the Welsh Government.

In terms of the Welsh housing partnership, I hope that it is the precursor to other models of drawing down capital so that we can get on with the business of building houses and the implementation, or practical side, of what we need to do.

In terms of the Member's comments on first-time buyers, we have the local authority mortgage scheme. Some Welsh local authorities are exploring the possibility of offering mortgages, as the Member said, to residents through such a scheme. My officials are exploring the use of an insurance captive with the mortgage market and with housebuilders, and work is ongoing there. In addition, homebuy still exists, of course, and three authorities in Wales—Conwy, Gwynedd and Torfaen—have opted to use their social housing grant for that purpose.

However, I would advise caution in relation

Lywydd, mae gennyf restr rwyf ond wedi'i dechrau, ond dof i derfyn yma, a byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog ddechrau drwy fynd i'r afael â'r pwynt hwn. Rwy'n edrych ymlaen at y ddeialog adeiladol y mae'r Gweinidog wedi'i haddo.

Huw Lewis: Diolch i lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru am y sylwadau hynny. Yn gyntaf, i gyfeirio at yr oedi tybiedig yn y Bil, mae'r amserlen ar gyfer ei gyflwyno wedi bod yn glir ers misoedd: bydd gennym Bapur Gwyn y gwanwyn hwn, a bydd y Bil a ddaw yn Ddeddf tai cyntaf erioed yng Nghymru yn cael ei gyflwyno yn yr hydref, yn ôl pob tebyg ym mis Hydref 2013. Mae hynny wedi bod yn gwbl glir ers misoedd, felly ni allaf ond tybio naill ai nad yw'r Aelod wedi bod yn gwrando, neu ei fod yn ddioreidus am y pwynt hwnnw. Fodd bynnag, mae'n gwbl iawn ddweud nad yw hyn yn ymwneud â'r Bil; ei fod yn ymwneud â materion ymarferol, a phethau fel cyfalaf a thir, a heddiw, fel rhan o fy natganiad, soniais am y £9 miliwn ychwanegol yr oedd yn bosibl i ni ei rhoi i'r grant tai cymdeithasol. Mae hynny'n cyfateb i 130 o gartrefi newydd, ynghyd â'r gronfa £5 miliwn o fenthyciad y gellir ei ailgylchu ar gyfer eiddo gwag, sydd yn fenter newydd gan Lywodraeth Cymru.

O ran partneriaeth tai Cymru, gobeithio ei fod yn rhagflaenydd i fodelau eraill o ddefnyddio cyfalaf fel y gallwn fwrw ymlaen â'r busnes o adeiladu tai a gweithredu, neu ar yr ochr ymarferol, yr hyn y mae angen inni ei wneud.

O ran sylwadau'r Aelod ynghylch prynwyr tro cyntaf, mae gennym y cynllun morgais awdurdodau lleol. Mae rhai o awdurdodau lleol Cymru yn ystyried y posibilrwydd o gynnig morgaeisi, fel y dywedodd yr Aelod, i drigolion drwy gynllun o'r fath. Mae fy swyddogion yn edrych i mewn i'r posibilrwydd o ddefnyddio *insurance captive* gyda'r farchnad forgeisi, ac adeiladwyr tai, ac mae'r gwaith hwnnw'n parhau. Yn ogystal, mae cymorth prynu ar gael o hyd wrth gwrs, ac mae tri awdurdod yng Nghymru—Conwy, Gwynedd a Thor-faen—wedi dewis defnyddio eu grant tai cymdeithasol at y diben hwnnw.

Fodd bynnag, byddwn yn cynghori unrhyw

to attempting to resuscitate, if you like, the first-time buyer market and would like to make two points in that regard. The first is that we must be realistic in terms of the resource that we can introduce into such a stimulation of the market. Secondly, it may be the case—and I believe that it is—that the housing market is changing for good and the days of 95% mortgages being accepted as normal may not necessarily map out the lie of the land in terms of the housing picture for the coming years. Our first priority should lie elsewhere when it comes to ensuring that people have access to good-quality affordable housing.

Vaughan Gething: Thank you for your statement, Minister. I would like to make two brief points. I welcome the further commitment to co-operative models of housing, but I am especially interested in the supply of land and what you said about publicly owned land being released. I am also interested in the statement about securing a unit to help to speed up the delivery of available land—especially brownfield land, I assume. Can you give us any more of an idea about when that unit should be in place and whether you expect certain outcomes with regard to the amount of land you expect that unit to deliver each year?

My second question is about what you had to say about housing being an economic driver, particularly for regeneration. Following on from what the Minister for Education and Skills had to say about having a community benefits outcome that he expects the school construction programme to deliver, could you say any more or give us a further idea of how you expect that procurement exercise, especially the public land that is released for social and affordable housing, to contribute community benefit outcomes, particularly with regard to the local supply chain?

Huw Lewis: I would like to thank the Member for Cardiff South and Penarth for those comments and questions. He is quite right to point to the issue of publicly owned land being released as absolutely critical in this difficult time and that it is an essential

un i fod yn bwyllog wrth geisio adfywio, os mynnwch chi, y farchnad prynwr tro cyntaf a hoffwn wneud dau bwynt ynghylch hynny. Y cyntaf yw bod rhaid inni fod yn realistig o ran yr adnoddau y gallwn eu cyflwyno i waith o'r fath o ysgogi'r farchnad. Yn ail, efallai bod y farchnad dai—ac rwy'n credu bod hyn yn wir—yn newid er gwell ac efallai na fydd y dyddiau pan oedd morgeisi 95% yn cael eu derbyn fel y norm o reidrwydd yn adlewyrchu sut y bydd pethau o ran y farchnad dai yn y blynyddoedd i ddod. Dylai ein blaenoriaeth gyntaf fod mewn mannau eraill o ran sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar dai fforddiadwy o ansawdd da.

Vaughan Gething: Diolch ichi am eich datganiad, Weinidog. Hoffwn wneud dau bwynt byr. Rwy'n croesawu'r ymrwymiad pellach i fodolau tai cydweithredol, ond mae diddordeb arbennig gennyf yn y syniad o gyflenwi tir a'r hyn a ddywedoch am dir sy'n eiddo cyhoeddus yn cael ei ryddhau. Mae diddordeb gennyf hefyd yn y datganiad ynghylch sicrhau uned i helpu i gyflymu'r broses o ddarparu tir sydd ar gael—yn enwedig tir llwyd, fe dybiaf. A allwch roi mwy o syniad ynghylch pryd y dylai'r uned honno fod wedi'i sefydlu ac a ydych yn disgwyl canlyniadau penodol o ran faint o dir rydych yn disgwyl i'r uned honno ei ddarparu bob blwyddyn?

Mae fy ail gwestiwn yn ymwneud â'r hyn oedd gennych i'w ddweud ynghylch tai fel sbardun economaidd, yn enwedig ar gyfer adfywio. Yn dilyn ymlaen o'r hyn ddywedodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ynghylch y manteision cymunedol y mae'n disgwyl i'r rhaglen adeiladu ysgolion eu cyflwyno, a allech chi ddweud mwy o gwbl neu roi unrhyw wybodaeth bellach inni o ran sut rydych yn disgwyl i'r dull hwn o gaffael, yn enwedig y tir cyhoeddus sy'n cael ei ryddhau ar gyfer tai cymdeithasol a fforddiadwy, gyfrannu at fanteision cymunedol, yn enwedig o ran y gadwyn gyflenwi leol?

Huw Lewis: Hoffwn ddiolch i'r Aelod dros Dde Caerdydd a Phenarth am y sylwadau a'r cwestiynau hynny. Mae yn llygad ei le i gyfeirio at y ffaith bod tir sy'n eiddo cyhoeddus, ac a gaiff ei ryddhau, yn gwbl hanfodol yn y cyfnod anodd hwn a'i fod yn

asset that can get housebuilding moving. I am reassured by developments such as the release of the NHS-owned land at the Caerphilly District Miners Hospital site that these things are possible. We are learning how to do these things more quickly. It is also true to say that these issues can be inordinately complex. Although we can clump together parcels of land under the heading 'publicly owned', there are quite often very different hurdles that need to be overcome in order to release different parcels of land that may be owned by different arms of Government. It is extraordinarily complex. That is why I have asked for a small team of officials—around three or four individuals—to work together constantly, day by day, in order to become experts in this regard and to concentrate fully on the release of land, so that every day, they nudge each parcel of land under consideration a step closer towards the point when we can build homes on that land. I anticipate that, in the coming year, we will be looking at between eight and 10 parcels of public land being released, although these vary in size and it would be difficult to quantify, without making too many hostages to fortune, exactly what that would mean in terms of housing numbers. However, it certainly runs into the hundreds.

In terms of community benefits, this remains at the centre—and I pay tribute to my predecessor in this regard. I would like to think that the community benefits side of housebuilding has been proved through the i2i programme in particular to be extraordinarily robust, and students of public procurement in general would do well to use the Welsh housing model of procurement as a model for the future.

Simon Thomas: Yr wyf yn croesawu'r datganiad, yn arbennig yr hyn y mae'r Gweinidog newydd ei ddweud am adeiladu ar lwyddiannau ei ragflaenydd. Mae gennyf ddau beth yn benodol i'w gofyn iddo. A wnaiff y Gweinidog ddweud mwy am y chynlluniau i ddod ag eiddo gwag yn ôl i'r farchnad neu ar gyfer eu rhentu? Mae cyfleoedd amlwg yn y maes hwn. Er enghraifft, mae prosiect ym Mhowys gyda galluogwyr tai gwledig Powys sydd yn cydweithio gyda landlordiaid i sicrhau bod eiddo ar gael. Hoffwn weld cynllun o'r fath

ased hanfodol a all roi hwb i'r bwriad o adeiladu tai. Mae'r datblygiadau fel rhyddhau tir sy'n eiddo i'r GIG ar safle Ysbyty Dosbarth Glowyr Caerffili yn rhoi sicrwydd imi fod y pethau hyn yn bosibl. Rydym yn dysgu sut i wneud y pethau hyn yn gyflymach. Mae hefyd yn wir i ddweud y gall y materion hyn fod yn rhy gymhleth. Er ein bod yn gallu rhoi clwstwr o dir gyda'i gilydd o dan y pennawd 'eiddo cyhoeddus', mae rhwystrau gwahanol iawn i'w goresgyn er mwyn rhyddhau gwahanol ddarnau o dir a allai fod yn eiddo i wahanol rannau o'r Llywodraeth. Mae'n hynod o gymhleth. Dyna pam rwyf wedi gofyn i dîm bach o swyddogion—tua thri neu bedwar unigolyn—i weithio gyda'i gilydd yn gyson, o ddydd i ddydd, er mwyn dod yn arbenigwyr yn hyn o beth, a chanolbwytio'n llwyr ar ryddhau tir, fel eu bod, bob dydd, yn gwrthio pob parcel o dir sydd o dan ystyriaeth gam yn nes at y pwynt lle y gallwn adeiladu tai ar y tir hwnnw. Rwy'n rhagweld y byddwn, yn y flwyddyn i ddod, yn edrych ar rhwng wyth a 10 parcel o dir cyhoeddus yn cael eu rhyddhau, er eu bod yn amrywio o ran maint a, heb greu gormod o wystlon ffawd, byddai'n anodd mesur beth yn union fyddai hynny yn ei olygu o ran nifer y tai. Fodd bynnag, mae'n gannoedd yn sicr.

O ran manteision cymunedol, mae hyn yn parhau yn ganolog—ac rwyf yn talu teyrnged i fy rhagflaenydd yn hyn o beth. Hoffwn feddwl bod manteision cymunedol adeiladu tai wedi cael eu profi trwy'r rhaglen i2i yn arbennig i fod yn hynod o gadarn, a byddai'n beth da i fyfyrwyr caffael cyhoeddus yn gyffredinol ddefnyddio model caffael tai Cymru fel model ar gyfer y dyfodol.

Simon Thomas: I welcome the statement, particularly what the Minister has just said on building on the successes of his predecessor. I have two specific questions. Will the Minister say more about the plans to bring empty properties back into the market or available for rent? There are clear opportunities there. For example, there is a project in Powys of rural housing enablers working with landlords to ensure that properties are made available. I would like to see a scheme of that kind available across Wales.

drwy Gymru gyfan.

Yn ail, o safbwynt y tenantiaid hynny sydd ag eiddo nad ydyw wedi ei wella i gyrraedd safon ansawdd tai Cymru eto, mae'r Gweinidog yn ymwybodol o'r broblem lle nad yw tenantiaid wedi symud o ofal y cyngor lleol oherwydd problemau cyfalaf. Pa gamau penodol y gall y Gweinidog eu cymryd i sicrhau nad ydym yn gadael y tenantiaid hynny ar ôl, a'u bod hwy hefyd yn gweld gwelliant sylweddol yn safon eu tai erbyn 2015-17?

Huw Lewis: I thank the Member for those questions. In terms of vacant properties, you are right to say that this is an important matter across Wales, and that different types of communities are plagued by the problem of vacant properties, meaning that different approaches would be required in each area. At the moment, we are negotiating with the WLGA as to how the empty properties fund could be put to best use. This will be co-ordinated regionally, based upon the regional pattern outlined in the Simpson review, with a lead authority taking the point position and making sure that we have a good co-ordinated empty properties delivery team within that region. Empty homes officers will be a critical part of that work.

However, this is an issue that goes further than just being a question for the empty properties recyclable loan. I also see the vacant properties issue as being part of our regeneration strategy and our manifesto commitment to emphasise the importance of our town centres, for instance, which will play into this when it comes to regeneration activity. It will mean that there will be access to investment that will not necessarily come through the empty properties fund, but which will give the same kind of result, which is to breathe life back into our town centres and reintroduce the idea of town centres as being good places in which to live.

There is also potential to widen the role and possibilities of intervention from local authorities and registered social landlords. If legal changes are needed to enable that to happen, so be it—that is up for discussion. RSLs in particular could be useful partners

Secondly, in terms of tenants in properties that have not yet been improved to meet the Welsh housing quality standard, the Minister will be aware of the problem of tenants not having moved from the care of local councils because of capital issues. What specific steps is he able to take to ensure that we do not leave those tenants behind, and that they too see significant improvements in their homes by 2015-17?

Huw Lewis: Diolchaf i'r Aelod am y cwestiynau hynny. O ran eiddo gwag, rydych yn iawn i ddweud fod hwn yn fater pwysig ar draws Cymru, a bod gwahanol fathau o gymunedau yn poeni ynghylch y broblem o eiddo gwag. Mae hyn yn golygu y byddai angen mynd i'r afael â hyn mewn gwahanol ffyrdd ym mhob ardal. Ar hyn o bryd, rydym yn trafod y ffordd orau o ddefnyddio'r gronfa eiddo gwag â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o ran. Bydd hyn yn cael ei gydgyssylltu'n rhanbarthol, yn seiliedig ar y patrwm rhanbarthol a amlinellir yn adolygiad Simpson, gydag awdurdod arweiniol yn arwain a sicrhau bod gennym dîm da ar gyfer cydgysylltu eiddo gwag o fewn y rhanbarth hwnnw. Bydd swyddogion cartrefi yn rhan hanfodol o'r gwaith hwnnw.

Fodd bynnag, mae hyn yn fater sy'n mynd ymhellach na bod yn ddim ond cwestiwn ar gyfer y benthyciad ailgylchu eiddo gwag. Rwyf hefyd yn ystyried y mater eiddo gwag yn rhan o'n strategaeth adfywio a'n hymrwymiad manifesto i bwysleisio pwysigrwydd canol ein trefi, er enghraifft, a fydd yn rhan o hyn wrth ystyried gwaith adfywio. Bydd yn golygu y bydd yn bosibl cael gafael ar fuddsoddiad na fydd, o reidrwydd, yn dod drwy'r gronfa eiddo gwag, ond a fydd yn rhoi yr un math o ganlyniad, sef bywyd yn ôl i ganol ein trefi ac ailgyflwyno'r syniad bod canol trefi yn lleoedd da i fyw ynddynt.

Mae yna hefyd botensial i ehangu rôl a phosibiliadau ymyrraeth gan awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Os bydd angen newidiadau cyfreithiol er mwyn caniatáu i hynny ddigwydd, boed felly—mae hynny i'w

regarding the various ways in which we could bring vacant properties back into social use for one reason or another.

The Presiding Officer: Thank you, Minister, and perhaps I should also say, 'Thank you, birthday boy'.

drafod. Gallai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn arbennig fod yn bartneriaid defnyddiol o ran y gwahanol ffyrdd y gallem ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd cymdeithasol am ryw reswm neu'i gilydd.

Y Llywydd: Diolch, Weinidog, ac efallai y dylwn ddweud, 'Pen-blwydd hapus,' hefyd.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 3.58 p.m.
The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 3.58 p.m.*

Creu Cymunedau Mwy Diogel i Bawb—Gwella Ansawdd Bywyd i Bobl Cymru Creating Safer Communities for All—Improving the Quality of Life for the People of Wales

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of William Graham, amendment 2 in the name of Peter Black, and amendment 3 in the name of Jocelyn Davies.

Y Dirprwy Lywydd: Rwyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw William Graham, gwelliant 2 yn enw Peter Black a gwelliant 3 yn enw Jocelyn Davies.

Cynnig NDM4889 Jane Hutt

Motion NDM4889 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi'r gwaith sydd wedi'i gyflawni gan Lywodraeth Cymru a'r asiantaethau sy'n bartner iddi i hybu'r agenda Diogelwch Cymunedol ac i greu Cymru ddiogelach i bawb.

Notes the work carried out by the Welsh Government and partner agencies to further the Community Safety agenda and create a safer Wales for all.

The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant): I move the motion.

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant): Cynigiau y cynnig.

While many of the drivers of community safety are not devolved to Wales, we are committed to working within the powers that we have to keep citizens in Wales safe. We know that community safety is consistently a priority for local people, and that people across Wales are concerned about the impact that UK Government cuts have had on the safety of their communities. I have made it clear that we cannot replace the thousands of police officers who may lose their jobs as a result of these cuts, but this Welsh Labour Government is committed to ensuring that we will continue to do what we can to keep

Er nad yw llawer o gyfrifoldebau diogelwch cymunedol wedi cael eu datganoli i Gymru, rydym wedi ymrwymo i weithio o fewn y pwerau sydd gennym i ddiogelu dinasyddion yng Nghymru. Rydym yn gwybod bod diogelwch cymunedol yn gyson yn flaenoriaeth i bobl leol, a bod pobl ledled Cymru yn pryderu am yr effaith y mae toriadau Llywodraeth y DU wedi ei chael ar ddiogelwch eu cymunedau. Rwyf wedi ei gwneud yn glir na allwn gael miloedd o swyddogion yr heddlu yn lle y rhai a allai golli eu swyddi o ganlynid i'r toriadau hyn, ond mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi

communities safe.

That is why one of our key commitments is to fund an additional 500 community support officers, who will be a visible presence in reassuring communities and helping to make them safe. We have a strong history of working in partnership with Welsh police forces, and that is why, in less than a year since the last Assembly elections, we will be seeing CSOs hit the streets in communities across Wales. The first newly trained officers in Gwent will graduate from their training in the next two weeks. These officers will support the work that we already undertake in Communities First areas, where our funding is helping local communities, such as Thornhill in Torfaen, to develop closer links with the police and to create activities for young people, keeping them off the streets and engaged in worthwhile activities.

4.00 p.m.

Effective partnership working has also been key in tackling the blight of drug and alcohol misuse in Wales. Locally, we have empowered community safety partnerships and area planning boards to tackle substance misuse, and we have supported them with significant increases in funding to commission services, to tackle local problems and to provide support for particular groups, such as offenders and young substance misusers. Alongside this, we have increased the number of people receiving treatment, which has contributed towards a reduction in the harm caused by illegal drugs. We are continuing to review our work in the area to ensure maximum impact, strengthening the role of area planning boards on commissioning and funding services.

In keeping our communities safe, we continue to see a reduction in the number of first-time entrants into the youth justice

ymrwymo i sicrhau y byddwn yn parhau i wneud yr hyn a allwn i gadw cymunedau'n ddiogel.

Dyna pam mai un o'n hymrwymiaid allweddol yw ariannu 500 o swyddogion cymorth cymunedol, a fydd yn bresenoldeb gwledol mewn cymunedau i dawelu meddyliau a helpu i'w gwneud yn ddiogel. Mae gennym hanes cryf o weithio mewn partneriaeth â heddluoedd Cymru, a dyna pam y byddwn, lai na blwyddyn ers etholiad diwethaf y Cynulliad, yn gweld swyddogion cymorth cymunedol ar y strydoedd mewn cymunedau ledled Cymru. Bydd y swyddogion cyntaf i gael eu hyfforddi yng Ngwent yn graddio o'u hyfforddiant yn ystod y pythefnos nesaf. Bydd y swyddogion hyn yn cefnogi'r gwaith rydym eisoes yn ei wneud mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, lle y mae ein cyllid yn helpu cymunedau lleol, fel Thornhill yn Nhor-faen, i ddatblygu cysylltiadau agosach â'r heddlu ac i greu gweithgareddau i bobl ifanc, gan eu cadw oddi ar y strydoedd a sicrhau eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwerth chweil.

Bu gweithio effeithiol mewn partneriaeth hefyd yn allweddol wrth fynd i'r afael â mellthith camddefnyddio cyffuriau ac alcohol yng Nghymru. Yn lleol, rydym wedi grymuso partneriaethau diogelwch cymunedol a byrddau cynllunio ardal i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau, ac rydym wedi eu cefnogi gyda chynnydd sylweddol yn yr arian i gomisiynu gwasanaethau, i fynd i'r afael â phroblemau lleol ac i roi cefnogaeth i grwpiau penodol, megis troseddwyr a chamddefnyddwyr sylweddau ifanc. Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi cynyddu nifer y bobl sy'n derbyn triniaeth, sydd wedi cyfrannu tuag at ostyngiad yn y niwed a achosir gan gyffuriau anghyfreithlon. Rydym yn parhau i adolygu ein gwaith yn y maes i sicrhau y ceir yr effaith fwyaf posibl, gan gryfhau rôl byrddau cynllunio ardal o ran comisiynu gwasanaethau a'u cyllido.

Wrth gadw ein cymunedau'n ddiogel, rydym yn parhau i weld gostyngiad yn nifer y rheini sy'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder

system, and the number of young people in custody. This has been achieved by working in partnership with the youth justice board. I am pleased that this will continue to operate as an arm's-length body. The programme for government includes the prevention of youth offending Bill. The scope of the legislation will be informed by a consultation, to be carried out during the summer of this year, ahead of the planned introduction of the Bill in 2013-14. The aim is to further reduce the number of children and young people entering the youth justice system, to provide better support for children and young people in the system and to strengthen the accountability and co-operation of local and regional partnerships.

I am grateful for cross-party support on the issue of tackling domestic abuse. That remains one of my priorities. That is why I have not only maintained my commitment to protect funding this year but, in this difficult financial climate, increased the capital budget by £1.3 million, bringing it to a total of £2 million. We are also beginning work on the domestic abuse Bill, which was highlighted in our manifesto. The Bill aims to ensure that all public bodies across Wales recognise the part that they need to play in tackling the blight of domestic abuse. It will contribute to the wider work that we have been doing in this area to tackle stereotypes and to support victims—for example, through our ongoing publicity campaigns, the most recent of which is Live Fear Free, focused on raising awareness of potential signs of domestic abuse and challenging the myth that violence or abuse against women will be accepted.

Across my portfolio area we have been working to improve road safety, and we have seen significant improvements in recent years. I believe that every fatality in Wales is one too many, which is why I remain committed to road safety intervention through education, engineering and enforcement and to continue to achieve casualty reduction.

Members will be aware of the work under way by the UK Government that will have an

ieuenctid am y tro cyntaf, ac yn nifer y bobl ifanc yn y ddalffa. Cyflawnwyd hynny drwy weithio mewn partneriaeth gyda'r bwrdd cyfiawnder ieuenctid. Rwyf yn falch y bydd yn parhau i weithredu fel corff hyd braich. Mae'r rhaglen lywodraethu yn cynnwys y Bil ynghylch atal troseddu ymhlith ieuenctid. Bydd cwmpas y ddeddfwriaeth yn cael ei lywio gan ymgynghoriad, a fydd yn cael ei gynnal yn ystod yr haf, cyn cyflwyno'r Bil, y bwriedir ei wneud yn 2013-14. Y nod yw parhau i leihau nifer y plant a phobl ifanc sy'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid, rhoi cymorth gwell i blant a phobl ifanc sydd yn y system a chryfhau atebolrwydd a chydweithrediad partneriaethau lleol a rhanbarthol.

Rwyf yn ddiolchgar am y gefnogaeth drawsbleidiol dros fynd i'r afael â cham-drin domestig. Mae hynny'n dal yn un o'm prif flaenoriaethau. Dyna pam fy mod wedi cadw fy ymrwymiad i ddiogelu cyllid eleni ac, yn yr hinsawdd ariannol anodd hon, wedi cynyddu'r gyllideb gyfalaf £1.3 miliwn, gan greu cyfanswm o £2 filiwn. Rydym hefyd yn dechrau gweithio ar y Bil ynghylch cam-drin domestig, a amlygwyd yn ein manifest. Nod y Bil yw sicrhau bod yr holl gyrff cyhoeddus ledled Cymru yn cydnabod y rhan y mae angen iddynt ei chwarae wrth fynd i'r afael â mellitith cam-drin yn y cartref. Bydd yn cyfrannu at y gwaith ehangach y buom yn ei wneud yn y maes hwn i fynd i'r afael â stereoteipiau ac i gefnogi dioddefwyr—er enghraifft, drwy ein hymgyrchoedd cyhoeddusrwydd parhaus. Byw Heb Ofn yw'r un diweddaraf, sy'n canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth ynghylch arwyddion posibl cam-drin domestig a herio'r myth y bydd trais neu gam-drin yn erbyn menywod yn cael eu derbyn.

Ar draws fy mhortffolio, rydym wedi bod yn gweithio i wella diogelwch ar y ffyrdd, ac rydym wedi gweld gwelliannau sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf. Credaf fod un farwolaeth yng Nghymru yn ormod, a dyna pam rwyf yn dal wedi ymrwymo i ymyriadau ym maes diogelwch ar y ffyrdd drwy addysg, peirianeg a gorfodaeth ac i barhau i leihau nifer y bobl a gaiff eu hanafu neu eu lladd.

Bydd yr Aelodau'n gwybod am y gwaith y mae Llywodraeth y DU wrthi'n ei wneud a

impact on community safety in Wales, namely the introduction of police and crime commissioners and panels. While I remain strongly opposed, in principle, now that the legislation is in place, there will be police and crime commissioners in Wales in November 2012. It is, therefore, important that we put measures in place to maintain and build on the effective partnership arrangements that exist and that have been benefiting citizens in Wales. I am keen that the role of the Welsh Government in relation to community safety is reflected in any new arrangements. I have highlighted to the Minister of State for Policing and Criminal Justice a number of issues unique to Wales, particularly a lack of clarity in relation to the appointment of police and crime panels. I am pleased that there is an indication of willingness to work together to achieve an outcome that suits the needs of Wales. I will be working to ensure that this happens. My officials will be engaging with the Home Office regarding the details over the coming months. Despite the difficulties associated with the police working as a non-devolved body within a devolved landscape, I do not believe that the time is right to seek devolution of responsibility for policing, given the huge financial risks that may be involved.

I thank Members for their interest in the debate today and look forward to their contributions.

Gwelliant 1 William Graham

Dileu popeth ar ôl 'iddi' a rhoi yn ei le:

ar yr agenda Diogelwch Cymunedol ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud mwy i wella diogelwch cymunedol yng Nghymru, gan ymgysylltu'n llawn â phartneriaid i hybu agenda gynhwysol a chreu Cymru ddiogelach i bawb.

Mark Isherwood: I move amendment 1 in the name of William Graham.

While all reductions in crime are to be

fydd yn cael effaith ar ddiogelwch cymunedol yng Nghymru, sef cyflwyno comisiynwyr a phaneli'r heddlu a throseddu. Er fy mod yn parhau i wrthwynebu hynny'n gryf, mewn egwyddor, gan fod y ddeddfwriaeth bellach yn bodoli, bydd comisiynwyr yr heddlu a throseddu yng Nghymru ym mis Tachwedd 2012. Mae'n bwysig, felly, ein bod yn rhoi mesurau ar waith i gynnal y trefniadau partneriaeth effeithiol sy'n bodoli ac sydd wedi rhoi budd i ddinasyddion yng Nghymru ac i'w datblygu. Rwyf yn awyddus i rôl Llywodraeth Cymru o ran diogelwch cymunedol gael ei hadlewyrchu mewn unrhyw drefniadau newydd. Rwyf wedi tynnu sylw'r Gweinidog Gwladol dros Gyfiawnder Troseddol a Phlisma at nifer o faterion sy'n unigryw yng Nghymru, yn enwedig y ffaith bod diffyg eglurder mewn perthynas â phenodi paneli'r heddlu a throseddu. Rwyf yn falch bod parodrwydd wedi'i fynegi i gydweithio i sicrhau canlyniad sy'n addas i anghenion Cymru. Byddaf yn gweithio i sicrhau bod hyn yn digwydd. Bydd fy swyddogion yn cysylltu â'r Swyddfa Gartref ynghylch y manylion dros y misoedd nesaf. Er gwaethaf yr anawsterau sy'n gysylltiedig â'r ffaith bod yr heddlu yn gweithio fel corff nad yw wedi'i ddatganoli mewn cyd-destun datganoledig, nid wyf o'r farn mai dyma yw'r amser i geisio datganoli cyfrifoldeb am blisma, o ystyried y risgiau ariannol enfawr a allai fod yn gysylltiedig â hynny.

Hoffwn ddiolch i'r Aelodau am eu diddordeb yn y ddadl heddiw ac edrychaf ymlaen at glywed eu cyfraniadau.

Amendment 1 William Graham

Delete all after 'agencies' and replace with:

on the Community Safety agenda and calls on the Welsh Government to do more to improve community safety in Wales, engaging fully with partners to promote an inclusive agenda and create a safer Wales for all

Mark Isherwood: Cynigiau welliant 1 yn enw William Graham.

Er y dylid croesawu pob gostyngiad yn nifer

welcomed, it is worrying that the most recent figures for Wales show that violence against the person, sexual offence and robbery incidents increased between 2001 and 2009. Devolved Welsh Government responsibilities include police authority revenue funding, community safety, relations with the police and other criminal justice agencies. UK police funding in England and Wales is set to fall by £1 billion by 2014. However, Labour's March 2010 UK budget had included police funding reductions of £545 million by 2014, and Ed Miliband has already made deficit reduction and spending commitments, which mean that Labour cuts or tax rises would be similar in amount to those announced by the UK coalition Government.

Ann Jones: When Labour was looking at the budget before the last election it spoke to the police about a cut that would be acceptable—if cuts are ever acceptable—to police authorities, whereby they would not have to cut front-line policing. That was set at about 12%. However, the Conservative coalition has gone to 20%. Do you not think that that is reckless?

Mark Isherwood: I will tell you what the shadow chancellor, Ed Balls, said last week. He said that Labour still lacked credibility, that there would have to be difficult decisions, that Labour would have to make cuts in policing and that he could say, unequivocally, that Labour could make no commitment to reverse any of the Government's tax rises or spending cuts.

Last October, during the Communities, Equality and Local Government Committee inquiry into community safety in Wales, I referred to two committee inquiries during the second Assembly into the proposed police merger, in which I took part. This found not only that a merger of Welsh police forces would have generated deficits of between £78 million and £120 million by 2012, but also

y troseddau, mae'n destun pryder bod y ffigurau diweddaraf ar gyfer Cymru yn dangos bod nifer yr achosion o drais yn erbyn yr unigolyn, o drosedd rhywiol ac o ladradau wedi cynyddu rhwng 2001 a 2009. Mae cyfrifoldebau datganoledig Llywodraeth Cymru yn cynnwys cyllid refeniw i awdurdodau heddlu, diogelwch cymunedol, a chysylltiadau â'r heddlu ac asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill. Disgwylir i gyllid yr heddlu yng Nghymru a Lloegr ostwng £1 biliwn erbyn 2014. Fodd bynnag, roedd cyllideb y Blaid Lafur ar gyfer y DU ym mis Mawrth 2010 yn cynnwys gostyngiadau o £545 miliwn yng nghyllid yr heddlu erbyn 2014, ac mae Ed Miliband eisoes wedi gwneud ymrwymadau ynghylch gwariant a lleihau'r diffyg, sy'n golygu y byddai toriadau Llafur neu godiadau mewn treth y byddai'n eu rhoi ar waith yn debyg o ran maint i'r rhai a gyhoeddwyd gan Lywodraeth glymblaid y DU.

Ann Jones: Pan oedd y Blaid Lafur yn edrych ar y gyllideb cyn yr etholiad diwethaf, siaradodd â'r heddlu am y toriad y byddai awdurdodau heddlu'n ei dderbyn—os gall toriadau fod yn dderbyniol—ac a fyddai'n golygu na fyddent yn gorfod gwneud toriadau mewn perthynas â phlisma rheng flaen. Penderfynwyd mai tua 12% fyddai. Fodd bynnag, mae clymblaid y Ceidwadwyr wedi penderfynu y bydd yn 20%. Onid ydych yn meddwl bod hynny'n ddi-hid?

Mark Isherwood: Dywedaf wrthyf yr hyn a ddywedodd Ed Balls, canghellor yr wrthblaid, yr wythnos diwethaf. Dywedodd fod diffyg hygredd yn y Blaid Lafur o hyd, y byddai'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd, y byddai Llafur yn gorfod gwneud toriadau mewn perthynas â phlisma ac y gallai ddweud, yn ddigamsyniol, na allai Llafur ymrwmo i wrthdroi unrhyw un o godiadau treth y Llywodraeth na'i thoriadau.

Fis Hydref diwethaf, yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i ddiogelwch cymunedol yng Nghymru, cyfeiriais at ddau ymholiad pwyllgor a gynhaliwyd yn ystod yr ail Gynulliad i'r cynnig ynghylch uno'r heddlu, y cymerais ran ynddynt. Canfu y byddai uno heddluoedd Cymru wedi creu diffygion o rhwng £78 miliwn a £120 miliwn erbyn

that there would have had to be an equalisation of police precepts, meaning higher increases in south Wales and lower increases elsewhere. The Association of Chief Police Officers Cymru replied that the funding differences are still there. The chair of the Welsh police authorities stated that there was still a will to equalise, but that this had been prevented by Welsh Government.

Welsh Conservatives recognise the important role played by both unwarranted police community support officers and warranted special constables in enhancing community safety. However, responding to my other questions, ACPO said that special constables have a level of training that allows them to have police powers; PCSOs do not. Referring to the additional 500 PCSOs, ACPO said that we have to be really careful in how we designate and use these individuals, because there could be unintended consequences in how effective they are and what they deal with. The Mayor of London, Boris Johnson, has funded an extra 10,000 special constables as warranted officers to help to fill the gap. Special constables are more than just volunteers. With proper training and a warrant in their hand, they have a role to play.

Labour voted against the legislative consent motion relating to the new police and crime panels. In a letter to Assembly Members, the UK Minister said that rejecting the legislative consent motion would not stop police and crime commissioners from being introduced; it would merely prevent the special arrangements for Wales, which allow a Welsh Government representative on the new police and crime panels, from taking effect. Baroness Randerson said in the House of Lords that there is something rather foolish in the Minister concerned negotiating a solution, putting it to the Assembly and then abstaining on his own solution—which he had agreed with Ministers in Westminster. Although Welsh Labour has been highly critical of the introduction of police commissioners, Labour politicians have been

2012, ond hefyd y byddai wedi golygu bod angen cyfartalu praeseptau'r heddlu, gan olygu y byddai codiadau uwch yn ne Cymru a chodiadau is mewn mannau eraill. Ymateb Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru oedd bod y gwahaniaethau o ran cyllid yn bodoli o hyd. Dywedodd cadeirydd awdurdodau heddlu Cymru bod dymuniad i gyfartalu o hyd, ond bod Llywodraeth Cymru wedi atal hynny.

Mae Ceidwadwyr Cymru yn cydnabod y rôl bwysig y mae swyddogion cymorth yr heddlu sydd heb warant a chwinstabliaid arbennig â gwarant yn ei chwarae o ran gwella diogelwch cymunedol. Fodd bynnag, gan ymateb i'm cwestiynau eraill, dywedodd Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru fod lefel hyfforddiant cwnstabliaid arbennig yn caniatáu iddynt gael pwerau plismona; nid oes gan swyddogion cymorth yr heddlu hynny. Gan gyfeirio at y 500 o swyddogion cymorth yr heddlu, dywedodd Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru fod yn rhaid inni fod yn ofalus iawn yn y ffordd rydym yn defnyddio'r unigolion hyn, oherwydd gallai fod canlyniadau anfwriadol o ran pa mor effeithiol ydynt a'r hyn y maent yn ymdrin ag ef. Mae Boris Johnson, Maer Llundain, wedi ariannu 10,000 o gwnstabliaid ychwanegol fel swyddogion â gwarant er mwyn helpu i lenwi'r bwlch. Mae cwnstabliaid arbennig yn fwy na gwirfoddolwyr yn unig. O gael yr hyfforddiant priodol a chyda gwarant yn eu llaw, mae ganddynt rôl i'w chwarae.

Pleidleisiodd Llafur yn erbyn y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ynglŷn â phaneli newydd yr heddlu a throseddu. Mewn llythyr at Aelodau'r Cynulliad, dywedodd Gweinidog y DU na fyddai gwrthod y cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn atal comisiynwyr heddlu a throseddu rhag cael eu cyflwyno; ni fyddai ond yn atal y trefniadau arbennig ar gyfer Cymru, sy'n caniatáu i gynrychiolydd Llywodraeth Cymru fod ar baneli newydd yr heddlu a throseddu, rhag dod i rym. Dywedodd y Farwnes Randerson yn Nhŷ'r Arglwyddi ei bod braidd yn ffôl bod y Gweinidog o dan sylw wedi trafod ateb, wedi ei gyflwyno gerbron y Cynulliad, ac yna wedi ymatal mewn perthynas â'i ateb ei hun—y cytunodd arno â Gweinidogion yn San Steffan. Er bod Llafur Cymru wedi bod yn hynod feirniadol ynghylch cyflwyno

quick to state their intention to stand, including former Welsh First Secretary Alun Michael, who has declared his intention to stand for election as south Wales's first police commissioner.

It is of concern that the Welsh Government's right to be safe strategy has been described as 'cumbersome' and 'confusing', while delivery of the programme has been labelled 'piecemeal'. The Wales violence against women action group has also accused the Welsh Government of failing to work closely enough with the Home Office and the UK criminal justice system. While the Home Office has—

Ann Jones: Will you take an intervention?

Mark Isherwood: I do not think that I have time.

While the Home Office has confirmed longer-term funding for services, including independent domestic violence advisers, funding in Wales remains short term and insecure. These services support people through the criminal justice system. Conwy IDVA and the North Wales Women's Centre in Rhyl are both concerned about the implications for this after April 2012. Only by listening to those it calls its partner agencies—

The Deputy Presiding Officer: Order. Conclude your remarks.

Mark Isherwood: —will the Welsh Government improve community safety in Wales.

Gwelliant 2 Peter Black

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'n benodol gyfraniad cadarnhaol cynghorau lleol i wella diogelwch cymunedol, er enghraifft drwy gyllido

comisiynwyr yr heddlu, mae gwleidyddion Llafur wedi datgan eu bwriad i sefyll, gan gynnwys Alun Michael, cyn-Brif Ysgrifennydd Cymru, sydd wedi cyhoeddi ei fod yn bwriadu sefyll i'w ethol yn gomisiynydd cyntaf yr heddlu yn ne Cymru.

Mae'n destun pryder bod strategaeth Llywodraeth Cymru ynghylch yr hawl i fod yn ddiogel wedi'i disgrifio'n 'feichus' ac yn 'ddryslyd', tra bo'r modd y cyflwynwyd y rhaglen wedi cael ei alw'n 'dameidiog'. Hefyd, mae grŵp gweithredu Cymru ar drais yn erbyn menywod wedi cyhuddo Llywodraeth Cymru o beidio â gweithio'n ddigon agos gyda'r Swyddfa Gartref a system cyfiawnder troseddol y DU. Er bod y Swyddfa Gartref wedi—

Ann Jones: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Mark Isherwood: Nid wyf yn meddwl bod gennyf amser.

Er bod y Swyddfa Gartref wedi cadarnhau y bydd cyllid yn y tymor hwy ar gyfer gwasanaethau, gan gynnwys ymgynghorwyr annibynnol ar drais yn y cartref, mae cyllid yng Nghymru yn parhau i fod yn ansicr ac i gael ei ddarparu yn y tymor byr. Mae'r gwasanaethau hyn yn cefnogi pobl drwy'r system cyfiawnder troseddol. Mae ymgynghorwyr annibynnol Conwy ar drais yn y cartref a Chanolfan Merched Gogledd Cymru yn y Rhyl yn pryderu am y goblygiadau yn hyn o beth ar ôl mis Ebrill 2012. Dim ond drwy wrando ar y rheini y mae'n eu galw'n asiantaethau sy'n bartneriaid—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Rhaid i chi gloi eich sylwadau.

Mark Isherwood: —y bydd Llywodraeth Cymru'n gwella diogelwch cymunedol yng Nghymru.

Amendment 2 Peter Black

Add as new point at end of motion:

In particular notes the positive contribution that local councils make to improving community safety by, for example, funding

Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a chyflwyno cynlluniau gosod gatiâu.

Peter Black: I move amendment 2 in my name.

It is important to remember that it is not just the Home Office or the Welsh Government that help to improve community safety. Local councils, in particular, work very closely with local police forces to deliver initiatives in this regard. PCSOs are not the only solution to improving community safety, although, clearly, the additional 500 PCSOs—if they are being brought in in this financial year—are very welcome and an important addition to that work. In some areas, people are well served by PCSOs, particularly in areas where additional PCSOs are being funded locally. For example, in Wrexham, the council has funded 47 posts, one for each ward in the county. This has helped to provide a dedicated local presence on the streets. There are other initiatives that can be taken to improve community safety. For example, Cardiff has done a great deal of work to introduce alley gates that close off dark alleyways that have the potential to attract anti-social behaviour and which can be an access point for burglars. Cardiff has also introduced taxi marshals who work at the end of the night to help reduce potential incidents while people are queueing for taxis—an initiative that has been copied elsewhere in Wales.

Local licensing committees, working with the police, can have a great effect on reducing crime and increasing community safety by, for example, ensuring that venues provide plastic glasses on occasions when there is potential for trouble and staggering bar closing times so that there is no great influx of people on to the streets at particular times. The police appreciate that this reduces the possibility of crime and enables them to police the streets safely at night. Certainly, Swansea's licensing scheme for bouncers on the doors of pubs and clubs is an exemplar.

Police Community Support Officers and introducing alley gating.

Peter Black: Cynigiai welliant 2 yn fy enw i.

Mae'n bwysig cofio nad y Swyddfa Gartref na Llywodraeth Cymru yn unig sy'n helpu i wella diogelwch cymunedol. Mae cynghorau lleol, yn arbennig, yn gweithio'n agos iawn gyda heddluoedd lleol i gyflwyno mentrau yn hyn o beth. Nid swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yw'r unig ateb o ran gwella diogelwch cymunedol, er, yn amlwg, dylid croesawu'r ffaith y bydd 500 yn rhagor o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu—os y'u cyflwynir yn y flwyddyn ariannol hon—a byddant yn ychwanegiad pwysig at y gwaith hwnnw. Mewn rhai ardaloedd, mae pobl yn cael eu gwasanaethu'n dda gan swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu, yn enwedig mewn ardaloedd lle y mae nifer ychwanegol o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yn cael eu hariannu'n lleol. Er enghraifft, yn Wrecsam, mae'r cyngor wedi ariannu 47 o swyddi, sef un ar gyfer pob ward yn y sir. Mae hynny wedi helpu i sicrhau eu bod yn bresennol ar y strydoedd yn lleol. Mae mentrau eraill y gellir ymgymryd â hwy i wella diogelwch cymunedol. Er enghraifft, mae Caerdydd wedi gwneud llawer o waith i gyflwyno gatiâu strydoedd cefn sy'n cau strydoedd cefn tywyll a allai ddenu ymddygiad gwrthgymdeithasol ac a all fod yn bwynt mynediad i ladron. Mae Caerdydd hefyd wedi cyflwyno marsialiaid tacsis sy'n gweithio ar ddiwedd y noson i helpu i gadw trefn pan fo pobl yn ciwio am dacsî—mae honno'n fenter sydd wedi'i hefelychu mewn manau eraill yng Nghymru.

Gall pwyllgorau trwyddedu lleol, drwy weithio gyda'r heddlu, gael effaith fawr ar leihau troseddau a gwella diogelwch cymunedol drwy sicrhau, er enghraifft, fod lleoliadau'n darparu gwydrau plastig ar adegau pan fo'n bosibl y bydd helynt a darwahanu amseroedd cau fel nad oes niferoedd mawr o bobl ar y strydoedd ar adegau penodol. Mae'r heddlu yn cydnabod bod hynny'n lleihau'r posibilrwydd y bydd troseddu ac yn eu galluogi i blismona'r strydoedd yn ddiogel yn y nos. Yn sicr, mae cynllun trwyddedu Abertawe i fownsars

Swansea has also done a great deal of work as one of the first areas in Wales to introduce closed circuit television. The work that it has done on that has helped the police to manage the problems in the city centre at night, particularly on Friday and Saturday nights when things are particularly difficult around Wind Street and other parts of that area.

This motion is important, and I certainly agree that we should be noting the work carried out by the Welsh Government and others on community safety. I concur with the Minister on the domestic abuse agenda, which has had all-party support in the past, as have other initiatives to do with women's safety and trafficking. Dealing with those is a particularly important preoccupation of many Assembly Members here.

Reference has been made to the amount of money that police forces have had. Ann Jones made an intervention while Mark Isherwood was speaking earlier. I agree with Mark. Ed Balls has clearly indicated that he supports the cuts that have been brought in by the UK Government. That is an important admission on the part of the Labour Party, because it accepts—

Jenny Rathbone: Will you give way?

Peter Black: Let me just finish. The problems that the previous Government brought in—

The Deputy Presiding Officer: Order. Will the Member please sit down. Only one Member can speak at any one time.

Peter Black: The problems brought in by the previous Government with regard to its economic policy have had an impact and must be addressed. I am happy to give way to Jenny.

Jenny Rathbone: Can you clarify your comments, please? I do not think that Ed Balls is supporting the cuts that have been made, but recognising that they have already been made and that any incoming Labour

tafarnau a chlybiau yn gosod esiampl. Mae Abertawe hefyd wedi gwneud llawer iawn o waith o ran bod yn un o'r ardaloedd cyntaf yng Nghymru i gyflwyno teledu cylch cyfyng. Mae'r gwaith y mae wedi'i wneud yn y cyswllt hwnnw wedi helpu'r heddlu i reoli'r problemau yng nghanol y ddinas yn y nos, yn enwedig ar nos Wener a nos Sadwrn pan fydd pethau'n arbennig o anodd o amgylch Stryd y Gwynt a rhannau eraill o'r ardal honno.

Mae'r cynnig hwn yn bwysig, ac rwyf yn sicr yn cytuno y dylem nodi'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru ac eraill wedi'i wneud ar ddiogelwch cymunedol. Rwyf yn cytuno â'r Gweinidog ynghylch yr agenda cam-drin yn y cartref, y mae pob plaid wedi'i gefnogi yn y gorffennol, fel y cefnogwyd mentrau eraill yn ymwneud â diogelwch a masnachu menywod. Mae mynd i'r afael â'r materion hynny'n arbennig o bwysig i nifer o Aelodau'r Cynulliad sydd yma.

Cyfeiriwyd at y swm o arian y mae heddluoedd wedi'i gael. Ymyrrodd Ann Jones tra oedd Mark Isherwood yn siarad yn gynharach. Rwyf yn cytuno â Mark. Mae Ed Balls wedi nodi'n glir ei fod yn cefnogi'r toriadau y mae Llywodraeth y DU wedi'u cyflwyno. Mae hynny'n gyfaddefiad pwysig ar ran y Blaid Lafur, gan ei bod yn derbyn—

Jenny Rathbone: A wnewch chi ildio?

Peter Black: Gadewch imi orffen. Mae'r problemau a gyflwynodd y Llywodraeth flaenorol—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A wna'r Aelod eistedd i lawr, os gwelwch yn dda. Dim ond un Aelod all siarad ar y tro.

Peter Black: Mae'r problemau a gyflwynwyd gan y Llywodraeth flaenorol o ran ei pholisi economaidd wedi cael effaith ac mae'n rhaid rhoi sylw iddynt. Rwyf yn hapus i ildio i Jenny.

Jenny Rathbone: A allwch egluro eich sylwadau, os gwelwch yn dda? Ni chredaf fod Ed Balls yn cefnogi'r toriadau; mae yn hytrach yn cydnabod eu bod eisoes wedi'u gwneud ac na fyddai unrhyw Lywodraeth

Government would not be in a position to promise to simply reverse them, because the money may not be there.

Peter Black: I do not want to repeat what Mark Isherwood said, but Ed Balls admitted that Labour lacked credibility and warned that, even under his party, there would have to be cuts. He said:

‘There would have to be difficult decisions. We would have to have cuts in police. We’d have to have cuts in the schools budget. We’d have to have cuts in the defence budget’.

Clearly, the Labour Party has moved from being in the wrong place to being all over the place, but the focus is there and he is absolutely right that things have to be done. The cuts in the police are part of that.

Rhodri Glyn Thomas: Are you making the case, Peter, that three of the four political parties here in the Assembly are now in favour of the cuts, and that the only political party that opposes the cuts is Plaid Cymru?

Peter Black: I do not like to intrude on Plaid Cymru’s little fantasy land too much, Rhodri Glyn, but when you come to accept the reality of these things I am sure that people will start listening to you, too, and taking you seriously.

4.15 p.m.

It is important that we put the cuts in the police forces in context. We must, for example, remember the Wales Audit Office report last year, which identified that savings of £14 million could be found in Welsh police forces through civilianising police tasks and that between £24 million and £35 million in other efficiencies could be made without hitting front-line policing. We must also bear in mind that it is not the first time that there have been these cuts in the police forces, because, between 2007 and 2010, there was a cut of nearly 200 in front-line police officers in Wales, which was before the present Government came in.

Lafur yn gallu addo eu gwrthdroi, oherwydd efallai na fydd yr arian ar gael.

Peter Black: Nid wyf yn dymuno ailadrodd yr hyn a ddywedodd Mark Isherwood, ond cyfaddefodd Ed Balls nad oedd gan y Blaid Lafur hygredd, a rhybuddiodd y byddai hyd yn oed ei blaid ef yn gorfod gwneud toriadau. Dywedodd:

Byddai’n rhaid gwneud penderfyniadau anodd. Byddai’n rhaid inni wneud toriadau mewn perthynas â’r heddlu. Byddai’n rhaid inni dorri’r gyllideb ar gyfer ysgolion. Byddai’n rhaid inni dorri’r gyllideb amddiffyn.

Yn amlwg, mae’r Blaid Lafur wedi symud o fod yn y lle anghywir i fod ar chwâl, ond mae’r ffocws yno ac mae’n gwbl gywir bod yn rhaid gwneud pethau. Mae’r toriadau mewn perthynas â’r heddlu yn rhan o hynny.

Rhodri Glyn Thomas: A ydych yn honni, Peter, fod tair o’r pedair plaid wleidyddol yma yn y Cynulliad bellach o blaid y toriadau, ac mai Plaid Cymru yw’r unig plaid wleidyddol sy’n gwrthwynebu’r toriadau?

Peter Black: Nid wyf yn hoffi amharu gormod ar fyd ffantasi Plaid Cymru, Rhodri Glyn, ond pan fyddwch yn dod i dderbyn gwirionedd y materion hyn, rwyf yn siŵr y bydd pobl yn dechrau gwrandao arno chi, hefyd, a’ch cymryd chi o ddifrif.

Mae’n bwysig ein bod yn gosod y toriadau i’r heddlu mewn cyd-destun. Er enghraifft, rhaid i ni gofio adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru y llynedd, a oedd yn nodi y gallai heddluoedd Cymru wneud arbedion o £14 miliwn drwy gael staff nad ydynt mewn lifrau i wneud tasgau’r heddlu, ac y gellid gwneud arbedion effeithlonrwydd eraill o rhwng £24 a £35 miliwn heb effeithio ar blismona rheng flaen. Rhaid i ni hefyd gadw mewn cof nad hwn yw’r tro cyntaf y cafwyd toriadau fel hyn i’r heddluoedd, oherwydd, rhwng 2007 a 2010, cafwyd toriadau o bron i 200 o heddweision rheng flaen yng Nghymru, a oedd cyn i’r Llywodraeth bresennol ddod i rym.

The Deputy Presiding Officer: Order. Conclude your remarks now, please.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Cwblhewch eich sylwadau nawr, os gwelwch yn dda.

Peter Black: Under the previous Labour Government, there was a cut of £125 million in the money available to police forces. To conclude, the situation that we face is dire because of current economic circumstances, but, under those circumstances, many good initiatives are being put in place.

Peter Black: O dan y Llywodraeth Lafur flaenorol, bu toriad o £125 miliwn yn yr arian a oedd ar gael i heddluoedd. I gloi, mae'r sefyllfa sy'n ein hwynebu yn enbyd oherwydd yr amgylchiadau economaidd presennol, ond, o dan yr amgylchiadau hynny, mae llawer o fentrau da yn cael eu rhoi ar waith.

Gwelliant 3 Jocelyn Davies

Amendment 3 Jocelyn Davies

Cynnwys ar ddiwedd y cynnig:

Insert at end of motion:

ond yn credu y byddai hyn yn gwella eto fyth petai plismona'n cael ei ddatganoli i Gymru.

but believes this would be enhanced by the devolution of policing to Wales.

Rhodri Glyn Thomas: Cynigiaf welliant 3 yn enw Jocelyn Davies.

Rhodri Glyn Thomas: I move amendment 3 in the name of Jocelyn Davies.

Byddwn yn cefnogi gwelliant 1, yn enw William Graham, sy'n sefydlu egwyddor bwysig—nid da lle gellir gwell. Yn sicr, mae elfen hunanfodlon yn y cynnig a gyflwynwyd gan y Llywodraeth, ac rwyf yn gobeithio na fyddai'r Llywodraeth am geisio dadlau bod y sefyllfa bresennol yn dderbyniol ac yn gwbl foddhaol. Fel noda'r gwelliant, mae angen symud i wella'r sefyllfa honno.

We will support amendment 1, in the name of William Graham, which establishes an important principle—there is always room for improvement. There is definitely an element of self-satisfaction in the Government's motion, and I hope that the Government would not wish to argue that the current situation is acceptable and entirely satisfactory. As the amendment says, we need to take steps to improve the situation.

Rydym yn hapus i gefnogi gwelliant 2, yn enw Peter Black, sy'n cydnabod cyfraniad asiantaethau eraill, yn benodol cynghorau sir, i gydweithredu er mwyn sicrhau bod polisi cynhwysfawr yn mynd i'r afael â phroblemau cymunedol a thorcyfraith yn ein cymunedau. Er hynny, byddem am ehangu'r gydnabyddiaeth honno i gynghorau heblaw am y rhai a arweinir gan y Democratiaid Ryddfrydol—dyna'r unig rai y cyfeiriodd Peter Black atynt wrth gynnig ei welliant. Mae cynghorau sir eraill sydd wedi gweithio ar hyn, a gobeithio y bydd Peter Black am gydnabod eu gweithgaredd hwy drwy ei welliant. Dylem gydnabod y cyfraniad hollbwysig hwnnw, ac rwyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn barod i wneud hynny.

We are happy to support amendment 2, in the name of Peter Black, which recognises the contribution of other agencies, county councils in particular, in collaborating to ensure that there is a comprehensive policy to get to grips with community problems and crime in our communities. However, we would want to expand that recognition to councils other than those led by the Liberal Democrats—those are the only ones referred to by Peter Black in moving his amendment. Other county councils have worked hard on this, and I hope that Peter Black's amendment would recognise their work too. We should recognise that crucial contribution, and I am sure that the Minister will be willing to do so.

Mae gwelliant Plaid Cymru yn sefydlu egwyddor arall, sef yr angen i ddatganoli plismona ac i sicrhau bod heddluoedd yng

Plaid Cymru's amendment establishes another principle, namely the need to devolve policing and to ensure that police forces in

Nghymru yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a, thrwy hynny, yn atebol i bobl Cymru.

Mae'r Gweinidog eisoes wedi cydnabod bod problem o ran gweithio gydag asiantaeth nad yw wedi'i datganoli. Dywedodd hynny, ond, ar yr un pryd, mae'n dweud nad yw o blaid datganoli heddluoedd Cymru. Mae mewn lleiafrif yn hynny o beth, gan fod cydnabyddiaeth gyffredinol erbyn hyn bod angen datganoli heddluoedd. Yn ôl arolwg barn RMG Clarity ym mis Mai y llynedd, roedd 56% o boblogaeth Cymru o blaid gwneud hynny. Mae'r pedwar prif gwnstabl yng Nghymru yn cydnabod yr angen i ddatganoli'r heddluoedd ac yn datgan yn glir y byddai hynny'n fanteisiol ac yn gwneud y gwaith yn llawer mwy effeithiol. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi datgan yn swyddogol ei bod o blaid datganoli'r heddluoedd i fod yn atebol i Gynulliad Cymru, ond mae'r Gweinidog yn ei wrthwynebu.

I would like to take issue with the Minister on this fundamental point and to question why he opposes the principle of devolving police forces and making them accountable to the Assembly, and to the Government of Wales and the people of Wales. Clearly, and he has admitted this himself, it would be easier to have a comprehensive policy to address the issues of crime in our communities were that the case.

Bethan Jenkins: Do you not think that, if we had powers here over policing, we could have made a different decision in the National Assembly for Wales with regard to police commissioners, considering that the Chamber voted overwhelmingly against them?

Rhodri Glyn Thomas: You have highlighted one of the major problems here. We have a policy that is supported by the majority of parties in the Chamber, and by the Welsh Government, but it must accept a policy that is imposed upon us and it by the coalition Government in Westminster. It seems, Minister, that you are happier to see police forces in Wales accountable to a Tory Home Office in London than directed by the— [Interruption.] Well, I was referring

Wales are accountable to the National Assembly for Wales, and, therefore, to the people of Wales.

The Minister has already recognised that there is a problem in terms of working with a non-devolved agency. He has said that, but in the same breath he said that he is not in favour of devolving policing to Wales. He is in a minority in that regard, as it is widely recognised that there is a need to devolve policing. An RMG Clarity opinion poll last May showed that 56% of the Welsh population were in favour of doing so. Wales's four chief constables recognise the need to devolve policing and have stated clearly that that would be beneficial and would make their work much more effective. The Welsh Local Government Association has said that it is officially in favour of devolving policing so that forces are accountable to the National Assembly, but the Minister opposes that move.

Rwyf am anghytuno â'r Gweinidog ar y pwnt sylfaenol hwn a'i holi pam ei fod yn gwrthwynebu'r egwyddor o ddatganoli heddluoedd a'u gwneud yn atebol i'r Cynulliad, i Lywodraeth Cymru ac i bobl Cymru. Yn amlwg, ac mae wedi cyfaddef hyn ei hun, byddai hynny'n ei gwneud yn haws i gael polisi cynhwysfawr i fynd i'r afael â materion troseddu yn ein cymunedau.

Bethan Jenkins: A ydych yn credu, pe bai gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru bwerau dros blismona, y gallem fod wedi gwneud penderfyniad gwahanol yma mewn perthynas â chomisiynwyr yr heddlu, o ystyried y pleidleisiodd y Siambr o fwyafrif llethol yn eu herbyn?

Rhodri Glyn Thomas: Rydych wedi amlygu un o'r prif broblemau. Mae gennym bolisi sy'n cael ei gefnogi gan fwyafrif o'r pleidiau yn y Siambr, a chan Lywodraeth Cymru, ond rhaid iddi dderbyn polisi sy'n cael ei orfodi arnom ni ac ar y Llywodraeth gan y Lywodraeth glymblaid yn San Steffan. Ymddengys, Weinidog, eich bod yn hapusach i weld heddluoedd yng Nghymru yn atebol i Swyddfa Gartref Doriaidd yn Llundain yn hytrach na chael cyfarwyddwyd

specifically to the Home Office, which, in that sense, is a Tory Home Office in London. You seem to prefer to sit back and accept that there are difficulties. Why not argue the case for what is best for Wales, and for what everyone agrees is the best for Wales, and for what would be far more effective in terms of addressing these particular issues? I welcome the 500 police community support officers, but that is not what is needed. What is needed is police forces in Wales that are devolved and accountable to the people of Wales and that are working with the Welsh Government to address these serious issues.

Lynne Neagle: While I am pleased that, locally, the chief constable of Gwent Police has made protecting front-line services a No. 1 priority, and I believe that our commitment to create 500 extra PCSOs will make a real difference on the ground, there is little doubt that the debate around community safety in the years ahead will be shaped by the unprecedented cuts facing police forces up and down the country. Yes, Labour in Government accepted that the police would have to shoulder their fair share of the burden of deficit reduction, but, by cutting further and faster than is either necessary or economically wise, the Tories are risking years of hard-fought progress on the crime and community safety agenda—progress won only because of the sustained investment in policing that we saw for over a decade or more when Labour was at the helm in Westminster.

We grew used to the Tories' shameless and repeated misuse of crime statistics when in opposition, but the fact is, whether you look at police-recorded crime or the British crime survey, overall, crime decreased significantly under Labour—a record of which everyone on this side of the Chamber is justly proud. We did not just leave office with crime down and police numbers at record levels: our commitment to neighbourhood policing and the development of community safety

gan—[*Torri ar draws.*] Wel, roeddwn yn cyfeirio yn benodol at y Swyddfa Gartref, sydd, yn yr ystyr honno, yn Swyddfa Gartref Doriaidd yn Llundain. Ymddengys ei bod yn well gennych eistedd yn ôl a derbyn bod anawsterau. Pam na wnewch chi ddadlau dros yr hyn sydd orau i Gymru, a'r hyn y mae pawb yn gytûn sydd orau i Gymru, a dros yr hyn fyddai'n llawer mwy effeithiol o ran mynd i'r afael â'r materion penodol hyn? Rwyf yn croesawu'r 500 o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu, ond nid dyna sydd ei angen. Beth sydd ei angen yw heddluoedd yng Nghymru sydd wedi eu datganoli ac sy'n atebol i bobl Cymru, ac sy'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r materion difrifol hyn.

Lynne Neagle: Er fy mod yn falch, yn lleol, bod prif gwnstabl Heddlu Gwent wedi gwneud diogelu gwasanaethau rheng flaen yn brif flaenoriaeth, ac er fy mod yn credu y bydd ein hymrwymiad i greu 500 o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu ychwanegol yn gwneud gwahaniaeth go iawn, nid oes fawr o amheuaeth na fydd y drafodaeth ynghylch diogelwch cymunedol yn y blynyddoedd i ddod yn cael ei llywio gan y toriadau, nas gwelwyd o'r blaen, sy'n wynebu heddluoedd ledled y wlad. Do, derbyniodd y Blaid Lafur mewn Llywodraeth y byddai'n rhaid i'r heddlu ysgwyddo eu cyfran deg o'r baich o leihau'r diffyg ariannol, ond, drwy dorri'n ddyfnach ac yn gyflymach na'r hyn sydd naill ai'n angenrheidiol nac yn economaidd ddoeth, mae'r Torïaid yn peryglu blynyddoedd o gynnydd yr ymladdwyd yn galed i'w ennill ym maes trosedd a diogelwch cymunedol—cynnydd a enillwyd dim ond oherwydd y buddsoddiad parhaus mewn plismona a welsom am dros ddegawd neu fwy pan oedd Llafur wrth y llyw yn San Steffan.

Daethom i arfer â'r ffordd ddigwyilydd roedd y Torïaid yn camdefnyddio ystadegau trosedd dro ar ôl tro pan yn wrthblaid, ond y ffaith yw, pe edrychwch ar droseddau a gofnodir gan yr heddlu neu arolwg troseddu Prydain, yn gyffredinol, gostyngodd lefelau trosedd yn sylweddol o dan Lafur, sy'n record y mae pawb ar yr ochr hon i'r Siambr yn falch ohoni. Nid yn unig llwyddwyd i orffen ein cyfnod mewn pŵer gyda rhifau trosedd i lawr a niferoedd yr heddwision ar

partnerships represented no less than a sea change in the way that we think about crime and our communities. My party recognised that a joined-up multi-agency approach is essential to challenge the deep-rooted causes of anti-social behaviour, which causes so much misery. In the face of austerity, sustaining and building on that progress in Wales will undoubtedly be challenging, but we must do absolutely everything that we can.

It may shock some Members to hear that Gwent has the highest level of perceived anti-social behaviour of any police force area in the UK. Indeed, 22% of local respondents to the British crime survey stated that there is a high level of anti-social behaviour in their area—more than in the Metropolitan Police Service, Greater Manchester Police and Merseyside Police areas. This perception and fear of crime and anti-social behaviour certainly chimes with my experience and case load as a local Assembly Member, and we could and should be making more progress in this area.

I welcome that the Welsh Government is, for example, currently consulting on proposals to make it easier for social landlords to evict tenants who are blighting the lives of others, once all other avenues have been explored. We know that much anti-social behaviour is linked to housing and I dealt with a particularly harrowing case recently, where a local housing association took far too long to evict an individual who had caused abject misery to neighbours over many months. However, I recognise that eviction should be a last resort and I hope that we can learn lessons from initiatives such as Shelter's Valleys inclusion project, which works intensively with families in Caerphilly and Rhondda Cynon Taf who are causing anti-social behaviour in their local areas to identify and address the root causes of that behaviour.

eu huchaf erioed: roedd ein hymrwymiad i blismona yn y gymdogaeth a datblygu partneriaethau diogelwch cymunedol yn ddim llai na chwyldro yn y ffordd rydym yn meddwl am droseddau a'n cymunedau. Gwnaeth fy mhlaidd gydnabod bod dull aml-asiantaeth a chydlynol yn hanfodol er mwyn herio achosion dwfn o ymddygiad gwrthgymdeithasol, sy'n achosi cymaint o boen. Yn wyneb cyfnod o galedi, bydd cynnal ac adeiladu ar y cynnydd hwnnw yng Nghymru heb os yn heriol, ond mae'n rhaid i ni wneud popeth y gallwn ei wneud.

Gall synnu rhai Aelodau i glywed mai Gwent sydd â'r lefel uchaf o'r canfyddiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol o unrhyw ardal yr heddlu yn y DU. Yn wir, roedd 22% o'r ymatebwyr lleol i arolwg trosedd Prydain yn nodi bod lefel uchel o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu hardal—a oedd yn uwch nag ardaloedd yr Heddlu Metropolitan, Heddlu Manceinion Fwyaf a Heddlu Glannau Mersi. Mae'r canfyddiad hwn a'r ofn o drosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn sicr yn cyd-fynd â'm profiad i a'r llwyth achosion rwyf yn eu cael fel yr Aelod Cynulliad lleol, a gallem a dylem fod yn gwneud rhagor o gynnydd yn y maes hwn.

Rwyf yn croesawu'r ffaith, er enghraifft, bod Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn ymgynghori ar gynigion i'w gwneud yn haws i landlordiaid cymdeithasol gael gwared ar denantiaid sy'n difetha bywydau pobl eraill, unwaith y bydd pob trywydd arall wedi cael ei archwilio. Rydym yn gwybod bod llawer o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gysylltiedig â thai, ac roeddwn yn ymdrin ag achos arbennig o ddirdynnol yn ddiweddar, lle cymerodd cymdeithas tai leol ormod o amser o lawer i droi allan unigolyn a oedd wedi bod yn achosi diflastod truenus i'r cymdogion dros fisoedd lawer. Fodd bynnag, rwyf yn cydnabod y dylai troi allan fod yn ddewis olaf, ac rwyf yn gobeithio y gallwn ddysgu gwersi o fentrau megis prosiect cynhwysiant y Cymoedd Shelter, sy'n gweithio'n ddwys gyda theuluoedd yng Nghaerffili a Rhondda Cynon Taf sy'n achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu hardaloedd lleol er mwyn nodi a mynd i'r afael â'r achosion sydd wrth wraidd yr ymddygiad hwnnw.

There are other areas where I believe that the Welsh Government and its partners could be doing more to foster safer and more peaceful communities. For example, I believe that we should be doing more to tackle the scourge of illegal off-road biking, which is an issue on which I have campaigned for many years. While I recognise that it is an incredibly tough nut to crack, there has been far too much emphasis in the past on providing legal sites for off-road bikers and far too little thought for the decent, hard-working majority whose quality of life is so badly affected by the noise and environmental destruction caused.

I am also worried about the increasing number of Welsh local authorities that are choosing to switch off street lights in an attempt to reduce costs and their carbon footprint. While I understand that they are facing tough settlements and rising demands for services, I believe that switching off street lights should be a last resort, and then done only with the genuine agreement of the public that they serve. When I have raised this issue with the Minister, it has been highlighted to me that local authorities have no statutory duty to provide street lighting. That is an area that the Welsh Government could and should look at. I hope that these examples serve to underline the fact that community safety is about much more than just policing. While the Tory police cuts undoubtedly pose a serious threat to community safety in Wales, there is much that the Welsh Government and other agencies can do to mitigate their impact. Our commitment to creating 500 extra police community support officers is symbolic of the difference in approach between Wales and Westminster. Unlike the Tories, we will not abandon our communities.

Janet Finch-Saunders: I welcome the opportunity to speak in this important debate today. I am pleased to hear the Minister for Local Government and Communities mention bringing forward a domestic abuse Bill. All of us in the Chamber have an interest in the safety of our communities. Indeed, the protection of our citizens is arguably the most important duty of the Welsh Government. I

Mae meysydd eraill lle gallai Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid fod yn gwneud mwy i feithrin cymunedau mwy diogel a mwy heddychlon. Er enghraifft, credaf y dylem fod yn gwneud mwy i fynd i'r afael â phroblem beicio oddi-ar-y-ffordd anghyfreithlon, sydd yn fater y bwm yn ymgyrchu yn ei gyloch ers blynyddoedd lawer. Er fy mod yn cydnabod ei bod yn sefyllfa anodd iawn i'w datrys, bu llawer gormod o bwyslais yn y gorffennol ar ddarparu safleoedd cyfreithiol i feicwyr oddi-ar-y-ffordd, a dim hanner digon o bwyslais ar y mwyafrif parchus a gweithgar y mae ansawdd eu bywyd yn cael ei effeithio cymaint arno gan y sŵn a'r dinistr amgylcheddol a achosir.

Rwyf yn poeni hefyd am y nifer cynyddol o awdurdodau lleol Cymru sy'n dewis diffodd eu goleuadau stryd mewn ymgais i leihau costau a'u hól troed carbon. Er fy mod yn deall eu bod yn wynebu setliadau anodd a galwadau cynyddol am wasanaethau, credaf y dylai diffodd goleuadau stryd fod yn ddewis olaf, ac y dylid gwneud hynny ond â chytundeb gwirioneddol y cyhoedd y maent yn eu a gwasanaethu. Pan wyf wedi codi'r mater hwn gyda'r Gweinidog, dywedwyd wrthyf nad oes dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu goleuadau stryd. Dyna faes y gallai ac y dylai Llywodraeth Cymru edrych arno. Rwyf yn gobeithio y bydd yr enghreifftiau hyn yn fodd i danlinellu'r ffaith bod diogelwch cymunedol yn golygu llawer mwy na phlisma'n unig. Er nad oes amheuaeth nad yw toriadau'r Toriaid i'r heddlu yn fygythiad difrifol i ddiogelwch cymunedol yng Nghymru, mae llawer y gall Llywodraeth Cymru ac asiantaethau eraill ei wneud i liniaru eu heffaith. Mae ein hymrwymiad i greu 500 o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu ychwanegol yn arwydd o ddulliau gwahanol Cymru a San Steffan. Yn wahanol i'r Toriaid, ni fyddwn ni'n cefnu ar ein cymunedau.

Janet Finch-Saunders: Rwyf yn croesawu'r cyfle i siarad yn y ddadl bwysig hon heddiw. Rwyf yn falch o glywed y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn sôn am gyflwyno Bil ar gam-drin domestig. Mae pob un ohonom yn y Siambr â diddordeb yn niogelwch ein cymunedau. Yn wir, gellid dadlau mai diogelu ein dinasyddion yw dyletswydd bwysicaf Llywodraeth Cymru.

welcome the fact that progress has been made in the reduction of some crimes, such as burglary, theft from vehicles and fraud. Falling levels of such crimes are a sign of encouragement to us all and of the excellent work of our police officers, local authorities and partner agencies the length and breadth of Wales—they should be commended in that regard. It is with regret, however, that I note the increasing rates of violence against the person, sexual offences and robbery over recent years. The rise in the prevalence of such crimes poses a serious threat to the safety and security of our communities, and a concerted effort, as well as a co-ordinated approach, is an absolute necessity if we are to tackle the rising rates of such criminal behaviour. I recognise and welcome past drivers to progress that agenda, and strategies such as the violence against women strategy, ‘The right to be safe’, are an important statement of intent that crimes such as domestic abuse cannot, and will not be, tolerated under any circumstances. However, strategy documents alone cannot be the summit of our ambitions. The danger for our communities is that a strategy is announced, implemented and often forgotten about, in a way that can sometimes smack of ‘job done’. When it comes to community safety, we need to ensure a co-ordinated approach and a police force that is seen to be on the side of the law abiding, not the lawless. That is why I must call on Members to support amendment 1, tabled in the name of William Graham, which

‘calls on the Welsh Government to do more to improve community safety in Wales, engaging fully with partners to promote an inclusive agenda and create a safer Wales for all.’

The need for greater accountability and a more inclusive agenda is also the primary motivation for our party in supporting elected police commissioners. The introduction of police commissioners, chosen by the people, will make police forces in Wales more responsive to local needs, as articulated by communities themselves. That would be enhanced by the recruitment of more special

Rwyf yn croesawu'r ffaith bod cynnydd wedi ei wneud o ran gostyngiad mewn rhai troseddau, megis bwrghleriaeth, dwyn o gerbydau a thwyll. Mae gostyngiad yn y mathau hyn o droseddau yn hwb inni gyd ac yn arwydd o waith ardderchog ein heddwision, awdurdodau lleol ac asiantaethau partner ledled Cymru—dylent gael eu canmol yn hynny o beth. Fodd bynnag, nodaf gyda gofid y cyfraddau cynyddol o drais yn erbyn yr unigolyn, troseddau rhywiol a lladrata dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r cynnydd yn yr achosion o droseddau o'r fath yn fygythiad difrifol i ddiogelwch ein cymunedau, ac mae ymdrech ar y cyd, yn ogystal â chydlynu effeithiol, yn gwbl angenrheidiol os ydym am fynd i'r afael â'r cyfraddau cynyddol o ymddygiad troseddol o'r fath. Rwyf yn cydnabod ac yn croesawu'r ymdrechion yn y gorffennol i symud yr agenda hwnnw yn ei flaen, ac mae strategaethau fel y strategaeth i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, ‘Yr hawl i fod yn ddiogel’, yn ddatganiad pwysig na all ac na fydd troseddau fel cam-drin domestig yn cael eu goddef o dan unrhyw amgylchiadau. Fodd bynnag, ni all dogfennau strategaeth ar eu pen eu hunain fod yn binacl ein huchelgais. Y perygl i'n cymunedau yw bod strategaeth yn cael ei chyhoeddi a'i rhoi ar waith ac, yn aml, bydd yna'n cael ei hanghofio, a hynny mewn ffordd ychydig yn ffwrdd â hi. Pan ddaw'n fater o ddiogelwch cymunedol, mae angen i ni sicrhau dull cydlynol a heddlu yr ystyrir eu bod ar ochr y rhai sy'n ufuddhau i'r gyfraith ac nid y troseddwy. Dyna pam y mae'n rhaid i mi alw ar Aelodau i gefnogi gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw William Graham, sydd

‘yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud mwy i wella diogelwch cymunedol yng Nghymru, gan ymgysylltu'n llawn â phartneriaid i hybu agenda gynhwysol a chreu Cymru ddiogelach i bawb.’

Yr angen am ragor o atebolrwydd ag agenda mwy cynhwysol yw'r prif gymhelliant i'n plaid ni hefyd i gefnogi comisiynwyr yr heddlu etholedig. Bydd cyflwyno comisiynwyr yr heddlu, a ddewisir gan y bobl, yn gwneud heddluoedd yng Nghymru yn fwy ymatebol i anghenion lleol, fel y nodwyd gan y cymunedau eu hunain. Byddai hynny'n cael ei wella drwy recriwtio rhagor o

constables, which is a policy that we firmly advocate. Few issues are as emotive as community safety, and, when I speak to constituents on this subject, they often speak with one voice, saying that they want more visible and more responsive policing. We must ensure that those goals are delivered. Above all, we need to work co-operatively, think creatively and sustain the efforts of all key partners to bring levels of crime down across the board in Wales. Then, and only then, can we secure safer communities for all.

Keith Davies: Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i gyfrannu at y ddatl hon. Rwy'n cefnogi'r cynnig a gwelliant Peter Black. Rwy'n falch fy mod yn byw yng Nghymru: mae ymdeimlad o gymuned yma. Felly, mae'n bwysig imi ein bod yn sicrhau diogelwch ein cymunedau. O dan arweiniad Llafur yn y Cynulliad ac yn San Steffan, bu hwn yn amcan allweddol. Adlewyrchir ei bwysigrwydd gan nifer y camau, y strategaethau a'r cyfeiriadau a gymerwyd. Tra bu Llafur mewn Llywodraeth yn San Steffan, gwelwyd gostyngiad o 43% mewn trosedd. Cynyddodd cyllid y gwasanaeth prawf 70%, ac, o ganlyniad, gostyngodd aildrosedd 16% rhwng 2000 a 2008.

4.30 p.m.

Yn amlwg, i gyrraedd diogelwch llwyr, rhaid cydweithio gyda chymunedau lleol a datblygu rhwystrau i'w hamddiffyn rhag trais. Dyma a wnaed gan Lafur. O dan arweiniad Llafur yn San Steffan, cynyddodd cyllid awdurdodau'r heddlu yng Nghymru 38%, neu dros £100 miliwn, rhwng 1997 a 2010. Ar y llaw arall, cyflwynwyd toriadau o 20% gan Lywodraeth gyfredol San Steffan yng nghyllid yr heddlu, a allai arwain at golli 1,300 o swyddi yn y blynyddoedd nesaf.

Gwelir sawl enghraifft o'r strategaeth amlochrog hon yn ein manifesto a'r rhaglen lywodraethu. Un o'r pum addewid oedd dyblu nifer swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu. Yn y Cynulliad, cynyddwyd cyllid diogelwch cymunedol o £43 miliwn i £44 miliwn, a rhoddwyd £5 miliwn ychwanegol

gwnstabiliaid gwirfoddol, sy'n bolisi rydym yn gryf o'i blaid. Prin yw'r materion sydd mor emosynol â diogelwch cymunedol a, pan fyddaf yn siarad ag etholwyr ar y pwnc hwn, maent yn aml yn siarad ag un llais, gan ddweud eu bod am weld plismona mwy gweladwy a mwy ymatebol. Rhaid i ni sicrhau bod y nodau hynny'n cael eu cyflwyno. Yn anad dim, mae angen i ni gydweithio, meddwl yn greadigol a chynnal ymdrechion yr holl bartneriaid allweddol i ddod â lefelau trosedd i lawr ym mhob maes yng Nghymru. Bryd hynny'n unig y byddwn ni'n gallu sicrhau cymunedau mwy diogel i bawb.

Keith Davies: I am grateful for the opportunity to contribute to this debate. I support the motion and Peter Black's amendment. I am proud to live in Wales: there is a sense of community here. Therefore, it is important to me that we ensure the safety of our communities. Under the leadership of Labour in the Assembly and Westminster, that was a key aim. Its importance was reflected in the numerous steps, strategies and directions taken. While Labour was in Government in Westminster, there was a 43% decrease in crime. The budget for the probation service increased by 70%, and, as a result, reoffending rates decreased by 16% between 2000 and 2008.

Clearly, to achieve complete safety, there must be collaboration with local communities and we must develop barriers to violence. That is what Labour did. Under the leadership of Labour in Westminster, the budget of police authorities in Wales increased by 38%, or by over £100 million, between 1997 and 2010. On the other hand, the current Westminster Government has made cuts of 20% to the budget for the police, which could lead to the loss of 1,300 jobs in the next few years.

Several examples of this multi-sided strategy can be seen in our manifesto and the programme for government. One of the five commitments was to double the number of police community support officers. In the Assembly, the community safety budget increased from £43 million to £44 million,

ar gyfer swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu ar gyfer y ddwy flynedd nesaf. Crëwyd cronfa cymunedau diogel gan Lywodraeth Cymru, a defnyddiwyd y gronfa i fynd i'r afael â throseddau ieuencid, gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol a difrod troseddol. Crëwyd hefyd raglen graidd cyswllt ysgolion Cymru gyfan, a rhoddwyd 50% o'r cyllid gan Lywodraeth Cymru. Darparwyd cyfleon i fyfyrwyr wella'u gwybodaeth a dealltwriaeth o effeithiau cyffuriau, alcohol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ac o ddiogelwch personol. Cyflwynwyd y rhaglen yn 97% o ysgolion cynradd ac uwchradd Cymru.

Enghraifft arall yw Cymunedau yn Gyntaf. Nod allweddol Cymunedau yn Gyntaf yw diogelwch cymunedol, a nodwyd hynny fel thema yn y ddogfen gweledigaeth. Cydweithiodd partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf ledled Cymru â'r heddlu ar faterion megis hybu ymddygiad cymdeithasol, trefn cyhoeddus ac yn y blaen.

Yn wardiau Glanymor a Thyisha yn Llanelli, mae grŵp gweithredol cymunedau diogel, sydd yn enghraifft ffantastig o gydweithredu. Yn ystod y blynyddoedd cyntaf, gwelwyd gostyngiad o 15% mewn troseddu yn Nhyisha, wedi ei ddilyn gan ostyngiad o 10% yn y blynyddoedd canlynol. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn fisol â sefydliadau statudol a gwirfoddol i greu gweithrediadau a blaenoriaethau gyda'r darparwyr gwasanaethau sy'n gyfrifol am ddiogelwch cymunedol, er enghraifft timau plismona yn y gymdogaeth, y gwasanaeth tân, y cyngor sir a Gwasanaeth Erlyn y Goron. Un ymgyrch gan y grŵp oedd creu damwain ffordd ffug a alwyd yn 'Don't let it be you', er mwyn hybu diogelwch ymysg plant. Yn wreiddiol, dosbarthwyd posterï yn ysgolion y ddwy ward, ond, oherwydd arian o bartneriaeth diogelwch cymunedol, cynhyrchwyd 20,000 cerdyn post ychwanegol i'w rhoi i bob ysgol yn Llanelli. Yn ychwanegol at ymgyrch 'Don't let it be you', cyflwynwyd yr ymgyrch Respect, drwy ba un y cynhelir gweithdai gyda phobl hŷn ac ifanc i drafod beth hoffai pawb ei weld yn y gymuned. Mae hyn yn enghraifft wych o gynnwys pobl ifanc yn y sgwrs, i geisio agor eu meddwl er mwyn iddynt weld gwreiddiau'r problemau yn

with an additional £5 million provided for police community support safety officers over the next two years. The safer communities fund was created by the Welsh Government and was used to get to grips with youth offending, including anti-social behaviour and criminal damage. The all-Wales schools liaison core programme was also created, with 50% of its funding provided by the Welsh Government. Students were provided with opportunities to improve their knowledge and understanding of the effects of drugs, alcohol and anti-social behaviour and of personal safety. The programme was introduced into 97% of primary and secondary schools in Wales.

Another example is Communities First. The key aim of Communities First is community safety, and that is noted as a theme in the vision statement. Communities First partnerships across Wales have collaborated with the police on such issues as promoting social behaviour, public order and so on.

In the Glanymor and Tyisha wards in Llanelli, there is a safer communities action group that is a fantastic example of collaboration. During its first years, a 15% decrease in crime was seen in Tyisha, followed by a decrease of 10% in subsequent years. The group meets monthly with statutory and voluntary organisations to set activities and priorities with the service providers that are responsible for community safety, for example, the neighbourhood policing teams, the fire service and the Crown Prosecution Service. One campaign by the group saw the staging of a mock road accident, with the slogan 'Don't let it be you', to promote road safety among children. Originally, posters were distributed to schools in the two wards, but, as a result of funding from the community safety partnership, 20,000 additional postcards were produced to distribute to every school in Llanelli. In addition to the 'Don't let it be you' campaign, there was the Respect campaign, through which workshops were held with old and young people to discuss what everyone would like to see in the community. That is an excellent example of involving young people in discussions to try to open their minds to the root causes of

ogystal â ffyrdd i'w datrys.

Yn ddiweddar, bu myfyrwyr Coleg Sir Gâr yn perfformio *Kiddo's Choice*, sydd yn dangos canlyniadau troseddu a gwneud y dewisiadau anghywir. Mae'r perfformiad yn ymdrech ar y cyd rhwng Heddlu Dyfed-Powys, gwasanaeth y carchardai a thimau troseddau ieuentid. Ochr yn ochr â'r perfformiad, cynhelir gweithdai i'r plant, sy'n dangos iddynt sut brofiad yw cael eich arestio, mynd o flaen llys a bywyd yn y carchar.

Yr olaf, agwedd leol yr hoffwn gyfeirio ati yw'r prosiect peilot yn Llanelli ar leihau niwed, yr ymwelodd y Prif Weinidog ag ef yr wythnos diwethaf. Enillodd y prosiect hwn wobwr arloesi gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'n canolbwyntio ar 20 teulu yn ardal Llanelli, ac amcangyfrifir bod £750,000 i £1 filiwn yn cael ei arbed fesul teulu o'i weithredu.

Mohammad Asghar: A safer community is what we all aspire to achieve. Everyone wants to be able to walk down their street without fear of being mugged or assaulted. The BBC stated in December 2010 that the number of recorded hate crimes in Wales has more than doubled in the past five years. This statistic is utterly unacceptable. Nine out of 10 hate crimes and bullying cases go unreported to the police or other authorities because the victim is too scared to speak up, or they believe the incident is not important, or they do not recognise it as an incident or crime.

Hate crimes or incidents that include any behaviour that is perceived to be motivated by prejudice against or hate of age, disability, faith, belief or non-belief, sexual orientation, race, ethnicity, nationality, or those who are transgender, should be addressed by promoting a zero tolerance policy in schools and colleges. Everyone has the right to live without fear of encountering a hate crime or bullying because of differences between them and the perpetrator.

Hate crimes, bullying and harassment against ethnic minorities, for example, cannot be

problems as well as how to solve them.

Recently, students from Coleg Sir Gâr performed *Kiddo's Choice*, which is about the consequences of crime and making the wrong decisions. It is a co-production between Dyfed-Powys Police, the prison service and young offenders teams. Alongside the performance, workshops are held with the children that demonstrate to them what it is like to be arrested, stand trial, and to be in prison.

Finally, a local aspect that I would like to refer to is the pilot project in Llanelli on reducing harm, which the First Minister visited last week. The project won an innovation award from the Ministry of Justice. It focuses on 20 families in the Llanelli area, and it is estimated that it has saved £750,000 to £1 million per family.

Mohammad Asghar: Cymuned ddiogelach yw'r nod i bob un ohonom. Mae pawb am allu cerdded i lawr eu stryd heb ofni y bydd rhywun yn eu mygio neu ymosod arnynt. Dywedodd y BBC ym mis Rhagfyr 2010 fod nifer y troseddau casineb a gofnodwyd yng Nghymru wedi mwy na dyblu yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Mae'r ystadegyn hwn yn gwbl annerbyniol. Ni fydd yr heddlu nac awdurdodau eraill yn cael eu hysbysu o naw allan o bob 10 o droseddau casineb ac achosion o fwlio oherwydd bod gormod o ofn ar y dioddefwr, neu mae'n credu nad yw'r digwyddiad yn bwysig, neu nid yw'n ei gydnabod fel digwyddiad neu drosedd.

Dylid mynd i'r afael â throseddau casineb neu ddigwyddiadau sy'n cynnwys unrhyw ymddygiad sy'n cael ei ystyried fel un a gaiff ei ysgogi gan ragfarn neu gasineb yn erbyn oed, anabledd, ffydd, cred neu ddiffyg cred, cyfeiriadedd rhywiol, hil, ethnigrwydd, cenedligrwydd, neu'r rhai sy'n drawsrywiol, drwy hybu polisi o ddim goddefgarwch mewn ysgolion a cholegau. Mae gan bawb yr hawl i fyw heb ofni dod ar draws trosedd casineb neu fwlio oherwydd y gwahaniaethau rhyngddynt a'r tramgwyddwr.

Ni ellir mynd i'r afael â throseddau casineb, bwlio ac aflonyddu yn erbyn lleiafrifoedd

tackled effectively if the relevant authorities are not made aware of incidents. That is why the Welsh Government must raise awareness of hate crimes and bullying, which will undoubtedly lead to an increase in the number of incidents that are reported. It is necessary for the Welsh Government to promote a zero tolerance policy on hate crimes and bullying. This would aim to raise awareness of what constitutes homophobic, racist and gender bullying.

Domestic and sexual violence are different crimes, yet they are similar in that they are indiscriminate in their approach: victims are of all ages, socioeconomic backgrounds, ethnic groups and religions. Sadly, it is a male and female problem, and it affects 1 in 4 women, and 1 in 6 men. Again, the emphasis is on the Welsh Government, which must do more to highlight the issue and end domestic and sexual violence in and outside the home. Only last Monday, 12 January, a 14-year-old girl was sexually assaulted at 10 a.m., in broad daylight, in Newport. Crimes like this are not going to reinforce any public confidence in the Welsh Government. We must start taking measures now, Minister.

The Welsh Conservatives have always wanted to run a national awareness campaign against elder abuse and age discrimination. The current level of elder abuse in Wales is shocking. An estimated 39,000 older people in Wales are being abused or neglected in their own homes. The constant threat of scam letters, bills and phone calls can leave anyone, especially vulnerable people, feeling isolated and frightened. It is necessary to highlight the problem of these rip-offs, to ensure that people are not left feeling scared, isolated and unsafe in their own homes and communities. I have yet to see any evidence that the Welsh Government has worked closely with the Home Office or the UK criminal justice system on tackling violence against women, and opportunities to discuss how to curb the exceptionally high rates of crimes across Wales have been missed. I call

ethnig, er enghraifft, os na chaiff yr awdurdodau perthnasol eu hysbysu o'r digwyddiadau. Dyna pam y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru godi ymwybyddiaeth ynghylch troseddau casineb a bwlio, a bydd hyn yn sicr yn arwain at gynnydd yn nifer y digwyddiadau y daw'r awdurdodau yn ymwybodol ohonynt. Mae'n angenrheidiol i Lywodraeth Cymru hyrwyddo polisi o ddim goddefgarwch o ran troseddau casineb a bwlio. Byddai hyn yn anelu at godi ymwybyddiaeth ynghylch yr hyn a gaiff ei ystyried yn fwlio homoffbig, hiliol a rhywedd.

Mae trais yn y cartref a thrais rhywiol yn droseddau gwahanol, ond maent yn debyg o ran eu bod yn ddiwahân: ceir dioddefwyr o bob oed, cefndir economaidd-gymdeithasol, grwpiau ethnig a chrefyddau. Yn anffodus, mae'n broblem wrywaidd a benywaidd, ac mae'n effeithio ar 1 o bob 4 o ferched, ac 1 o bob 6 o ddynion. Unwaith eto, mae'r pwyslais ar Lywodraeth Cymru i wneud mwy i dynnu sylw at y mater a rhoi terfyn ar drais yn y cartref a thrais rhywiol yn y cartref a'r tu allan. Ddydd Llun diwethaf, 12 Ionawr, ymosodwyd yn rhywiol ar ferch 14 oed am 10 o'r gloch y bore, yng ngolau dydd, yng Nghasnewydd. Ni fydd troseddau fel hyn yn atgyfnerthu unrhyw hyder sydd gan y cyhoedd yn Llywodraeth Cymru. Mae'n rhaid inni ddechrau gweithredu nawr, Weinidog.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi bod eisiau rhedeg ymgyrch ymwybyddiaeth genedlaethol ynghylch cam-drin yr henoed a gwahaniaethu ar sail oedran. Mae'r lefel bresennol o gam-drin yr henoed yng Nghymru yn syfrdanol. Amcangyfrifir bod 39,000 o bobl hŷn yng Nghymru yn cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso yn eu cartrefi eu hunain. Gall y bygythiad parhaus o filiau, galwadau ffôn a llythyrau sgam wneud i unrhyw un, yn enwedig pobl sy'n agored i niwed, deimlo'n ynysig ac yn ofnus. Mae angen tynnu sylw at y broblem hon, er mwyn sicrhau nad yw pobl yn teimlo'n ofnus, yn ynysig ac yn anniogel yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain. Nid wyf wedi gweld tystiolaeth, hyd yma, fod Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos â'r Swyddfa Gartref na system gyfiawnder troseddol y DU i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, ac mae

on the Welsh Government to do much more to ensure that the scale of the problem of disability hate crime is recognised and that awareness of it is raised. A strict no-tolerance policy will send out a message that all forms of abuse and hate crimes in our communities—which are on the rise at an alarming rate—are utterly unacceptable in Wales in the twenty-first century. Minister, it is about time you took some serious action to stop these crimes.

Ann Jones: I am proud that north Wales was shown to be one of the safest parts of the UK in the recent British Crime Survey. I believe that that is because of the community spirit that exists in many parts of north Wales, which is absent from many other parts of the UK. Hopefully, anybody who has visited north Wales will recognise that statement. However, that reality hinges on an effective police force, which is why I am happy to support the Police Federation's Cuts are Criminal campaign. That is why I was delighted to hear Paul McKeever as the first chairman of the Police Federation of England and Wales address a Labour conference, in September last year.

We all know that the federation is politically restricted and that it has to be very careful around sensitive issues, but I think that that demonstrates total opposition to the coalition's cuts. Lynne Neagle told us all about the cuts and where Labour was coming from. I will not rehearse that, but it is from that backdrop that the Welsh Government needs to work proactively to boost community safety. With extra community safety officers, I think that we can go some way towards restoring an acceptable presence on the streets, while more diverse projects such as making our roads safer and providing protection from domestic abuse will aim to prevent dangerous crime. I have to disagree with the previous speaker, because I think that this Government has a marvellous record on domestic abuse and on helping people who have suffered from domestic abuse. It is not always the Government that has to find all the solutions

wedi colli'r cyfle i drafod sut i fynd i'r afael â'r nifer uchel o droseddau ar draws Cymru. Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i wneud llawer mwy i sicrhau bod maint y broblem o droseddau casineb tuag at bobl anabl yn cael ei gydnabod a bod ymwybyddiaeth ynghylch hyn yn cael ei godi. Bydd polisi llym o ddim goddefgarwch yn anfon neges bod pob math o gam-drin a throseddau casineb yn ein cymunedau—sydd ar gynydd dychrynlyd—yn gwbl annerbyniol yng Nghymru yn yr unfed ganrif ar hugain. Weinidog, mae'n hen bryd ichi gymryd camau difrifol i atal y troseddau hyn.

Ann Jones: Rwyf yn falch o weld mai gogledd Cymru yw un o'r rhannau mwyaf diogel yn y DU yn ôl Arolwg Troseddu Prydain yn ddiweddar. Rwy'n credu mai'r rheswm yw yr ysbryd cymunedol sy'n bodoli mewn sawl rhan o ogledd Cymru, sydd ar goll o rannau eraill o'r DU. Gobeithio y bydd unrhyw un sydd wedi ymweld â gogledd Cymru yn cydnabod y datganiad hwnnw. Fodd bynnag, mae'r gwirionedd yn dibynnu ar heddlu effeithiol, a dyma pam rwy'n hapus i gefnogi ymgyrch Ffederasiwn yr Heddlu, *Cuts are Criminal*. Dyna pam roeddwn yn falch o glywed Paul McKeever fel cadeirydd cyntaf Ffederasiwn Heddlu Cymru a Lloegr yn annerch cynhadledd y Blaid Lafur, ym mis Medi y llynedd.

Gwyddom i gyd fod cyfyngiad gwleidyddol ar y ffederasiwn a bod yn rhaid iddi fod yn ofalus iawn o ran rhai materion sensitif, ond credaf fod hynny'n dangos gwrthwynebiad llwyr i doriadau'r glymblaid. Dywedodd Lynne Neagle wrthym am y toriadau a beth oedd barn y blaid Lafur. Ni wnaif ymarfer hynny, ond mae'n deillio o'r cefndir bod angen i Lywodraeth Cymru fod yn rhagweithiol wrth hybu diogelwch cymunedol. Gyda swyddogion diogelwch cymunedol ychwanegol, credaf y gallwn fynd rhywfaint o'r ffordd tuag at adfer presenoldeb derbyniol ar y strydoedd, tra bydd prosiectau mwy amrywiol fel gwneud ein ffyrdd yn fwy diogel a gwarchod rhag cam-drin domestig yn anelu at atal troseddu peryglus. Mae'n rhaid imi anghytuno â'r siaradwr blaenorol, am fy mod yn meddwl bod gan y Llywodraeth hon gefndir gwych o ran ceisio mynd i'r afael â cham-drin domestig a helpu pobl sydd wedi dioddef cam-drin domestig.

Nid y Llywodraeth sy'n gorfod canfod yr holl atebion bob tro.

The programme for government pledges to create a prevention of youth offending Bill, aimed at improving outcomes for children entering and leaving the youth justice system. Since becoming an Assembly Member, I have spoken to professionals within the system, from education workers to policy officers, who, despite their best efforts, feel that the current system creates more despair than it does hope. That is why I look forward to this Bill being an opportunity to change that, and it must be in the absolute interest of creating safer communities. As part of this work, an emphasis should also be placed on safety at work. The shop workers' union USDAW has an ongoing Freedom from Fear campaign to raise awareness of the abuse faced by their members on a daily basis. The depressing statistics show that a shop worker is attacked or verbally abused every minute of the working day. That means that 60 people will have been verbally abused or attacked during this debate.

Another example can be found when travelling on trains, where ticket collectors regularly face aggression and intimidation that no-one should have to put up with. I hope that the Government can work with trade unions and businesses to ensure that people feel safe at home and at work, because when people feel intimidated or unsafe in either setting, we have a duty to act. The pledge to enhance closed-circuit television in railway stations should also be welcomed. Railway stations should never be seen as no-go areas. That is a specific concern for most people using the railways, and I am determined that CCTV in cases like this should be used to make people feel safe and confident about using the public services that we need. Train stations are often the place where visitors gain a first impression of our towns and cities, and we want to ensure that they believe that they are entering a safe community. Of course, some railway stations are better than others, but that is a debate for another day, and a debate that we have had here. Safety from crime is of paramount concern to anyone travelling on public

Mae'r rhaglen lywodraethu yn addo creu Bil atal troseddau ieuencid, gyda'r nod o wella canlyniadau ar gyfer plant sy'n cyrraedd ac yn gadael y system cyfiawnder ieuencid. Ers dod yn Aelod Cynulliad, rwyf wedi siarad â gweithwyr proffesiynol o fewn y system, o weithwyr addysg i swyddogion polisi, sydd, er gwaethaf eu hymdrechion gorau, yn teimlo bod y system bresennol yn creu mwy o anobaith na gobaith. Dyna pam rwyf yn edrych ymlaen at y cyfle i'r Bil hwn newid hynny, a rhaid iddo fod er mwyn creu cymunedau mwy diogel a dim arall. Fel rhan o'r gwaith hwn, dylai rhoi pwyslais hefyd ar ddiogelwch yn y gwaith. Mae gan USDAW, undeb y gweithwyr siopau, ymgyrch barhaus o'r enw *Freedom from Fear* i godi ymwybyddiaeth ynghylch y cam-drin y mae ei haelodau yn ei wynebu bob dydd. Mae'r ystadegau digalon yn dangos bod rhywun yn ymosod yn gorfforol neu ar lafar ar weithiwr siop bob munud o'r diwrnod gwaith. Mae hynny'n golygu y bydd rhywun wedi ymosod yn gorfforol neu ar lafar ar 60 o bobl yn ystod y ddadl hon.

Gellir gweld enghraifft arall wrth deithio ar drenau, lle mae casglwyr tocynnau yn wynebu ymddygiad ymosodol a brawychus yn rheolaidd na ddylai unrhyw un orfod ei ddiodef. Gobeithio y gall y Llywodraeth weithio gyda'r undebau llafur a busnesau i sicrhau bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn y cartref ac yn y gwaith, oherwydd pan fydd pobl yn teimlo'n ofnus neu'n annigel yn y naill le neu'r llall, mae'n ddyletswydd arnom i weithredu. Dylai'r addewid i wella teledu cylch cyfyng mewn gorsafoedd rheilffyrdd hefyd gael ei groesawu. Ni ddylai neb fod yn meddwl am orsafoedd rheilffyrdd fel llefydd na ellir eu defnyddio. Mae hynny yn bryder penodol i'r rhan fwyaf o bobl sy'n defnyddio'r rheilffyrdd, ac rwyf yn benderfynol y dylai teledu cylch cyfyng mewn achosion fel hyn gael ei ddefnyddio i wneud i bobl deimlo'n ddiogel ac yn hyderus wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus angenrheidiol. Gorsafoedd trên yn aml iawn yw'r argraff gyntaf a gaiff ymwelwyr wrth gyrraedd ein trefi a'n dinasoedd, ac rydym am sicrhau eu bod yn credu eu bod yn cyrraedd cymuned ddiogel. Wrth gwrs, mae

transport.

Another area is the need for small businesses and town-centre businesses to feel safe. I have worked with small businesses in my constituency on the issue of CCTV and on wider community safety, and there is a genuine willingness from people to play their part. Those who have had to put up with the problems of anti-social behaviour for many years realise that they need to be part of the solution, and I have met with very responsible residents and traders over many issues. The practical action that we can encourage people to take may include 100% reporting so that there is a case for the provision of additional police officers to walk the streets or additional community support officers to attend certain areas. We need to prove that they need to be there, so the case for provision has to be proved. If we are to continue to see crime reduce as we did when Labour was in power at Westminster, when crime figures came down by at least a third between 1997 and when Labour left office, responsible citizenship has to be met with responsible policing. It is a two-way street, Minister, but with the scale of the cuts being imposed by the Tory-Lib Dem Government, I believe that they are abandoning people who are trying to make their communities safer places in which to work and live. I believe, and I know, that you will do your best to ensure that we get safer communities in Wales.

Rebecca Evans: I begin by echoing what others have said in recognising the leadership and commitment that the Minister has shown when it comes to tackling domestic abuse in Wales, and I look forward to the domestic abuse Bill being brought forward. There have already been some important steps forward, however. I recently had the privilege of attending the opening of a one-stop shop in Carmarthen that supports local people

rhai gorsafoedd rheilffyrdd yn well nag eraill, ond mae hynny'n ddadl ar gyfer diwrnod arall, ac yn ddadl rydym wedi'i chael yma. Diogelwch rhag troseddau yw'r pryder mwyaf i unrhyw un sy'n teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Maes arall yw'r angen i fusnesau bach a busnesau canol trefi deimlo'n ddiogel. Rwyf wedi gweithio gyda busnesau bach yn fy etholaeth ar y mater o deledu cylch cyfyng ac ar ddiogelwch cymunedol yn ehangach, ac mae parodrwydd gwirioneddol gan bobl i chwarae eu rhan. Mae'r rhai sydd wedi gorfod ymdopi â phroblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol am nifer o flynyddoedd yn sylweddoli bod angen iddynt fod yn rhan o'r ateb, ac rwyf wedi cyfarfod â thrigolion a masnachwyr cyfrifol iawn dros lawer o faterion. Efallai fod y camau ymarferol y gallwn annog pobl i'w cymryd yn cynnwys hysbysu'r awdurdodau o bob un digwyddiad fel bod achos ar gyfer darparu swyddogion heddlu ychwanegol i gerdded y strydoedd neu swyddogion cymorth cymunedol ychwanegol mewn ardaloedd penodol. Mae angen inni brofi bod angen iddynt fod yno, felly rhaid profi'r achos dros y ddarpariaeth. Os ydym am barhau i weld llai o droseddau, fel y gwnaethom pan oedd Llafur mewn grym yn San Steffan, pan ddaeth ffigurau trosedd i lawr o leiaf draean rhwng 1997 a phan adawodd y blaid Lafur, rhaid i ddinasyddiaeth gyfrifol gyd-fynd â phlisma cyfrifol. Mae'n gweithio'r ddwy ffordd, Weinidog, ond gyda maint y toriadau a gaiff eu gorfodi gan Lywodraeth y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol, credaf eu bod yn esgeuluso pobl sy'n ceisio gwneud eu cymunedau'n lleoedd mwy diogel i weithio a byw ynddynt. Rwy'n credu, ac rwy'n gwybod, y byddwch yn gwneud eich gorau i sicrhau ein bod yn cael cymunedau mwy diogel yng Nghymru.

Rebecca Evans: Dechreuaf drwy ategu'r hyn y mae eraill wedi'i ddweud wrth gydnabod yr arweinyddiaeth a'r ymrwymiad y mae'r Gweinidog wedi eu dangos wrth fynd i'r afael â cham-drin domestig yng Nghymru, ac rwy'n edrych ymlaen at weld y Bil cam-drin domestig yn cael ei gyflwyno. Mae camau pwysig wedi cael eu cymryd eisoes, fodd bynnag. Yn ddiweddar, cefais y fraint o fynd i agoriad siop un stop yng Nghaerfyrddin

affected by domestic abuse. It opened last year thanks to funding from the Welsh Government. I am particularly pleased that the latest phase of the Live Fear Free campaign acknowledges that children are also affected by domestic abuse. Living in a home where there is verbal, physical or emotional abuse of a parent can have a negative impact on a child's education, self-confidence, self-esteem and future relationships.

4.45 p.m.

In a debate on 'The Right to be Safe' strategy back in July, I talked about the importance of schools and colleges challenging attitudes and raising awareness, both of which are important tools in combating domestic abuse. Professionals in schools need to be able to recognise the signs of violence, intimidation and control, assess the level of risk and decide on the most appropriate way to respond. Minister, in your response to that debate, you asked me to contact you with further information about proposals for embedding gender awareness and domestic abuse in teacher training, which I was pleased to do. I was wondering if you had had any opportunity to give further thought to how you might be able to take this forward, perhaps as part of the domestic abuse Bill.

On a different area of community safety, I am a keen supporter of the no-cold-calling zones, and I am pleased to see them mentioned in the programme for government. They put powers in the hands of local residents, and Age Cymru has reported that they promote a sense of empowerment in communities. No-cold-calling zones are particularly important for older people, some of whom find strangers knocking on their door frightening. In the worst cases, cold callers have been criminals who have conned and cheated older people out of hundreds of thousands of pounds. These zones have the potential to make our communities safer, particularly for some of our most vulnerable people. Minister, will you commit to assessing the impact of no-cold-calling zones early this year, with a view to identifying success and

sy'n cefnogi pobl leol y mae cam-drin domestig wedi cael effaith arnynt. Agorodd y llynedd diolch i gyllid gan Lywodraeth Cymru. Rwyf yn arbennig o falch bod cam diweddaraf ymgyrch Byw Heb Ofn yn cydnabod bod cam-drin domestig yn effeithio ar blant hefyd. Gall byw mewn cartref lle y mae rhiant yn cael ei gam-drin yn eiriol, yn gorfforol neu'n emosiynol gael effaith negyddol ar addysg, hunan-hyder, hunan-barch plant a'u perthnasau yn y dyfodol.

Mewn dadl ar strategaeth 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel' ym mis Gorffennaf, siaradais am ba mor bwysig yw bod ysgolion a cholegau yn herio agweddau pobl ac yn codi ymwybyddiaeth, y maent ill dau yn arfau pwysig wrth fynd i'r afael â cham-drin yn y cartref. Mae angen i weithwyr proffesiynol yn yr ysgolion allu adnabod arwyddion trais, pan fo pobl yn cael eu bygwth â thrais, a rheolaeth, ac asesu lefel y risg a phenderfynu ar y ffordd fwyaf priodol i ymateb. Weinidog, yn eich ymateb i'r ddadl honno, gwnaethoch ofyn imi gysylltu â chi i roi gwybodaeth bellach am gynigion ynghylch ymgorffori ymwybyddiaeth rhyw ac o ran cam-drin domestig yn hyfforddiant athrawon, ac roeddwn yn falch o wneud hynny. A ydych wedi cael cyfle i ystyried ymhellach sut y gallech fwrw ymlaen â hynny, efallai fel rhan o'r Bil ynghylch cam-drin domestig?

Ynghylch agwedd wahanol ar ddiogelwch cymunedol, rwyf yn gefnogwr brwd o'r ardaloedd lle na chaniateir i bobl alw heibio'n ddirybudd, ac rwyf yn falch o weld eu bod yn cael eu crybwyll yn y rhaglen lywodraethu. Maent yn rhoi pwerau yn nwylo trigolion lleol, ac mae Age Cymru wedi nodi eu bod yn peri i gymunedau deimlo eu bod wedi'u hymrymuso. Mae parthau lle na chaniateir i bobl alw heibio'n ddirybudd yn arbennig o bwysig i bobl hŷn, y mae rhai ohonynt yn cael eu dychryn pan fydd dieithriaid yn curo ar eu drysau. Yn yr achosion gwaethaf, troseddwy'r rheini sydd wedi galw heibio'n ddirybudd ac maent wedi twyllo pobl hŷn gan ddwyn cannoedd o filoedd o bunnoedd ohonynt. Mae gan yr ardaloedd hyn y potensial i wneud ein cymunedau'n fwy diogel, yn enwedig i'r bobl

best practice so that they can be rolled out to new areas across Wales as soon as is practicable?

The Welsh Labour Government has a record of building safer communities in Wales by investing in community policing, crime prevention schemes, tackling anti-social behaviour, tackling substance misuse and combating domestic violence. Commitments in the programme for government, including the 500 additional PCSOs, the prevention of youth offending Bill, and delivery of the substance misuse strategy's three-year implementation plan, tell me that we are on the right track to continue to reduce both the level of crime and the fear of crime.

The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant): I thank Members for their contributions to the debate. It is important that the people of Wales feel safe in their homes and their communities, whether the issue is actual or perceived crime. Giving people a sense of security is something that we as a Welsh Government, and I as the Minister responsible for community safety, take very seriously.

I will address some of the issues raised by Members today. I thank Rebecca Evans for her contribution. I know of her commitment to looking at new interventions around no-cold-calling zones, which she has championed. I have noted her comments and will consider them accordingly and write to her. She recognised, as many do, the issues around developing a one-stop shop in terms of access to support around domestic abuse, and now we have supplied funding to enable all 22 authorities, right across Wales, to provide that. It is welcomed and supported by the external agencies, which were rightly mentioned by Peter Black in terms of partnership. I place on record my support and commitment to work with local authorities and the voluntary sector in delivering a safer

sydd fwyaf agored i niwed. Weinidog, a wnewch ymrwymo i asesu effaith ardaloedd lle na chaniateir i bobl alw heibio'n ddirybudd yn fuan eleni, gyda golwg ar nodi llwyddiant ac arfer gorau fel y gellir eu cyflwyno mewn ardaloedd newydd ledled Cymru cyn gynted ag sy'n ymarferol?

Mae gan Lywodraeth Lafur Cymru hanes o fod wedi adeiladu cymunedau mwy diogel yng Nghymru drwy fuddsoddi ym mhlismona cymunedol, cynlluniau i atal troseddu, mynd i'r afael ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol, mynd i'r afael â chamdefnyddio sylweddau a brwydro yn erbyn trais yn y cartref. Mae'r ymrwymadau yn y rhaglen lywodraethu, gan gynnwys y 500 o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu ychwanegol, y Bil ynghylch atal troseddu ymhlith ieuentid, a chyflwyno cynllun gweithredu tair blynedd y strategaeth camdefnyddio sylweddau, yn dweud wrthyf ein bod ar y trywydd iawn o ran parhau i leihau lefelau troseddu ac ofn troseddau.

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant): Diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau at y ddatl. Mae'n bwysig bod pobl Cymru yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi a'u cymunedau, p'un a yw hynny'n ymwneud â throseddu gwirioneddol neu ganfyddedig. Mae rhoi ymdeimlad o ddiogelwch i bobl yn rhywbeth rydym ni fel Llywodraeth Cymru, ac rwyf i fel Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros ddiogelwch cymunedol, yn ei gymryd o ddifrif.

Byddaf yn ymateb i rai o'r materion a godwyd gan yr Aelodau heddiw. Diolch i Rebecca Evans am ei chyfraniad. Gwn am ei hymrwymiad i ystyried ymyriadau newydd mewn perthynas ag ardaloedd lle na chaniateir i bobl alw heibio'n ddirybudd, y mae wedi'u hyrwyddo. Rwyf wedi nodi ei sylwadau, a byddaf yn eu hystyried ac yn ysgrifennu ati. Fel y gwna llawer, cydnabu'r materion sy'n ymwneud â datblygu siop-un-stop sy'n rhoi mynediad at gymorth ynghylch cam-drin domestig, a bellach rydym wedi darparu cyllid i alluogi pob un o'r 22 awdurdod, ledled Cymru, i ddarparu hynny. Mae'n cael ei groesawu a'i gefnogi gan yr asiantaethau allanol, a gafodd eu crybwyll, yn gywir ddigon, gan Peter Black yng nghydestun partneriaeth. Hoffwn gofnodi fy

community for us all.

Lynne Neagle again championed the interests of her community and I welcomed her contribution, particularly around safety and illegal off-road biking. She has raised that with me before, and continues to do so, rightly, to protect the interests of her community. I am familiar with the work at Tyisha that the Member for Llanelli raised, and its impact in working with communities. Those who recognise the problems in a community can often find a solution as well. I am pleased that Communities First is an important link for that.

I initially welcomed the comments by Mohammad Asghar in terms of hate crime being unacceptable, and I concur with the Member about that. We must do everything that we can to stop it. However, I was disappointed by his inability to offer support, which is slightly different from the position of the collective agreement on domestic abuse and violence against women. He fails to recognise that we, in Wales, have invested in this and have employed an anti-human trafficking co-ordinator, the only one in the UK. As I said earlier, we have delivered 22 one-stop shops across Wales. We have invested heavily in supporting 'The Right to be Safe' strategy—which was raised by Janet Finch-Saunders—and the six-year proposals. This is a long-term strategy and we are often scrutinised on its targets and our achievements in relation to it. We have done extremely well and have made great headway in relation to that proposal. I am concerned about some of the comments that the Member made in terms of special constables. It seems that Conservative Party policy is to get rid of warranted police officers and replace them with special constables. I do not think that that is appropriate, nor is it a proposal that the Welsh Labour Government intends to support in any shape or form.

nghefnogaeth a'm hymrwymiad i weithio gydag awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol i greu cymuned mwy diogel inni i gyd.

Bu Lynne Neagle eto'n hyrwyddo buddiannau ei chymuned, ac roeddwn yn croesawu ei chyfraniad, yn enwedig yr hyn a ddywedodd ynghylch beicio oddi ar y ffordd yn anghyfreithlon. Mae wedi sôn imi am hynny o'r blaen, ac mae'n parhau i wneud hynny, yn gywir ddigon, er mwyn diogelu buddiannau ei chymuned. Rwyf yn gyfarwydd â'r gwaith yn Tyisha y soniodd yr Aelod dros Lanelli amdano, a'r effaith y mae'n ei chael wrth weithio gyda chymunedau. Yn aml, gall y rheini sy'n cydnabod y problemau mewn cymuned ddod o hyd i ateb hefyd. Rwyf yn falch bod Cymunedau yn Gyntaf yn gyswllt pwysig ar gyfer hynny.

I ddechrau, roeddwn yn croesawu sylwadau Mohammad Asghar am y ffaith bod troseddau casineb yn annerbyniol, ac rwyf yn cytuno â'r Aelod yn hynny o beth. Mae'n rhaid inni wneud popeth a allwn i'w atal. Fodd bynnag, cefais fy siomi gan ei anallu i gefnogi, sydd ychydig yn wahanol i'r safiad ynghylch cael cytundeb ar y cyd ar gam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod. Nid yw'n cydnabod ein bod ni, yng Nghymru, wedi buddsoddi yn hyn ac wedi cyflogi cydgysylltydd ar gyfer atal masnachu mewn pobl, sef yr unig un yn y DU. Fel y dywedais yn gynharach, rydym wedi cyflwyno 22 o siopau un stop ledled Cymru. Rydym wedi buddsoddi'n sylweddol mewn cefnogi strategaeth 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel'—y soniodd Janet Finch-Saunders amdani—a'r cynigion chwe blynedd. Mae hon yn strategaeth hirdymor, a chreffir ary targedau a'r hyn rydym wedi'i gyflawni mewn perthynas â hi yn aml. Rydym wedi gwneud yn hynod dda ac wedi gwneud cynnydd mawr mewn perthynas â'r cynnig hwnnw. Mae rhai o'r sylwadau a wnaeth yr Aelod am gwnstabiliaid arbennig yn peri pryder imi. Mae'n ymddangos mai polisi'r Blaid Geidwadol yw cael gwared ar swyddogion yr heddlu sydd â gwarant a rhoi cwnstabiliaid arbennig yn eu lle. Nid wyf yn credu bod hynny'n briodol, ac nid yw'n gynnig y mae Llywodraeth Lafur Cymru yn bwriadu ei gefnogi mewn unrhyw fodd.

That quite nicely takes me on to the contribution of the regional Member for North Wales, Mark Isherwood. I am always surprised by your contributions, but never shocked. You are selective in the statistics and access points for information that you use, Mark, and you have a unique style. You failed to recognise the issue raised by Ann Jones regarding the federation of police officers in Wales, the Unison police officers and police support staff branch, which fully support the introduction of PCSOs in Wales and absolutely condemn the cuts to the Home Office budget imposed by your Conservative Government in the UK. You may also want to read those documents.

In terms of the proposals for the legislative consent motion, procedurally, Mark, I may just give you some food for thought. The LCM proposal involved a vote in the Assembly, not a vote by Welsh Ministers. This enabled Welsh Ministers to bring it to the floor of the Chamber. I think that you may have your wires crossed, or your information or the presentation of your argument may have been incorrect.

I want to finish today's debate by thanking Members for their contributions. I will pick up on Rhodri Glyn's point, if I have the time to do so. Rhodri Glyn, I think that it is worth placing on record that I am not opposed in principle to policing being devolved. However, I am opposed to having policing devolved without having enough police officers to do the job in Wales and without having enough funding to complete the job in Wales. That leaves us in a difficult position with regard to supporting you today. I am not opposed to the principle of devolving the police service to Wales, but, as I said earlier, it comes with funding implications.

Rhodri Glyn Thomas: If you read our amendment, you will see that it refers to the principle of devolving police forces. It said that the work could be done more effectively

Daw hynny â fi'n daclus iawn at gyfraniad Mark Isherwood, yr Aelod rhanbarthol dros Ogledd Cymru. Mae'ch cyfraniadau bob amser yn peri syndod imi, ond nid ydynt byth yn peri sioc. Rydych yn dethol yr ystadegau a'r pwyntiau mynediad rydych yn eu defnyddio i ddod o hyd i wybodaeth, Mark, ac mae gennych arddull unigryw. Ni wnaethoch gydnabod y mater a gododd Ann Jones ynghylch ffederasiwn swyddogion yr heddlu yng Nghymru, swyddogion yr heddlu yn Unison a changen staff cymorth yr heddlu, sy'n llwyr gefnogi cyflwyno swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yng Nghymru ac yn condemnio'n llwyr y toriadau i gyllideb y Swyddfa Gartref a wneir gan eich Llywodraeth Geidwadol yn y DU. Efallai y byddwch hefyd am ddarllen y dogfennau hynny.

O ran y cynigion ar gyfer y cynnig cydsyniad deddfwriaethol, Mark, soniaf am rywbeth y gallwch feddwl amdano ynghylch y weithdrefn. Cafwyd pleidlais yn y Cynulliad, nid ymysg Gweinidogion Cymru, ar y cynnig ynghylch y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol. Roedd hynny'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddod â'r memorandwm i'r Siambr. Credaf eich bod wedi drysu ryw ychydig, neu efallai fod eich gwybodaeth neu'r modd y gwnaethoch gyflwyno'ch dadl yn anghywir.

Hoffwn gloi'r ddadl heddiw drwy ddiolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau. Byddaf yn ymateb i bwynt Rhodri Glyn, os oes gennyf yr amser i wneud hynny. Rhodri Glyn, credaf ei bod yn werth cofnodi nad wyf yn gwrthwynebu datganoli plismona mewn egwyddor. Fodd bynnag, rwyf yn gwrthwynebu datganoli plismona heb fod gennym ddigon o swyddogion yr heddlu i wneud y gwaith yng Nghymru a digon o arian i gwblhau'r gwaith yng Nghymru. Mae hynny'n ein gadael mewn sefyllfa anodd o ran eich cefnogi chi heddiw. Nid wyf yn gwrthwynebu'r egwyddor o ddatganoli'r gwasanaeth heddlu i Gymru, ond, fel y dywedais yn gynharach, mae goblygiadau ariannol i hynny.

Rhodri Glyn Thomas: Os ydych yn darllen ein gwelliant, fe welwch ei fod yn cyfeirio at yr egwyddor o ddatganoli heddluoedd. Dywedodd y gallai'r gwaith gael ei wneud yn

if police forces were devolved—and you have admitted that in saying that it is difficult to work with a non-devolved agency.

Carl Sargeant: I think that if you re-read what your amendment says, you will see that it talks about devolving the police service to Wales. As I said, I could not support that principle unless I am assured that we have the full number and complete function in terms of delivery and the funding element to support that as well.

Finally, I place on record my thanks to the police officers and police teams across Wales who are helping to deliver the 500 PCSOs across Wales. As I have said, the first recruits will be out of training and on the streets of Wales within the next two weeks. I am grateful for the support of colleagues in recognising the important contribution that PCSOs can make to our communities. In addition to the PCSOs that people will be familiar with in our police forces—this ties in with Ann Jones's point about transport—we are introducing additional PCSOs into the British Transport Police as well. That will conclude the package of the delivery of our manifesto commitment of 500 additional personnel.

I ask Members to support amendment 2, to reject amendments 1 and 3 and to support the motion as amended.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to agree amendment 1. Are there any objections? I see that there are. Therefore, voting on this item will be deferred until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.
Voting deferred until voting time.*

Polisi Cynllunio ar gyfer Datblygu Economaidd Planning Policy for Economic Development

The Deputy Presiding Officer: I have **Y Dirprwy Lywydd:** Rwyf wedi dethol

fwy effeithiol pe bai heddluoedd yn cael eu datganoli—ac rydych wedi cyfaddef hynny drwy ddweud ei bod yn anodd gweithio gydag asiantaeth nad yw wedi'i datganoli.

Carl Sargeant: Credaf os ydych yn ailddarllen yr hyn y mae'ch gwelliant yn ei ddweud, fe welwch ei fod yn sôn am ddatganoli'r gwasanaeth heddlu i Gymru. Fel y dywedais, ni allwn ond gefnogi'r egwyddor honno pe bawn yn sicr bod gennym y nifer llawn a'r swyddogaeth gyflawn i ddarparu, a'r cyllid i gefnogi hynny.

Yn olaf, rwyf am gofnodi fy niolech i swyddogion yr heddlu ac i dimau'r heddlu ledled Cymru sy'n helpu i ddarparu'r 500 o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu ledled Cymru. Fel y dywedais, bydd y recriwtiaid cyntaf yn cwblhau eu hyfforddiant a byddant ar strydoedd Cymru o fewn y pythefnos nesaf. Rwyf yn ddiolchgar am gefnogaeth fy nghyd-Aelodau wrth iddynt gydnabod y cyfraniad pwysig y gall swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu ei wneud i'n cymunedau. Yn ychwanegol at swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu y bydd pobl yn gyfarwydd â hwy yn ein heddluoedd—mae hyn yn cyd-fynd â phwynt Ann Jones ynghylch trafndiaeth—rydym yn cyflwyno rhagor o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu ychwanegol i Heddlu Trafndiaeth Prydeinig hefyd. Bydd hynny'n cwblhau'r pecyn a roddwyd ar waith i gyflawni ein hymrwymiad maniffesto i ddarparu 500 o bersonél ychwanegol.

Gofynnaf i'r Aelodau gefnogi gwelliant 2, i wrthod newidiadau 1 a 3, ac i gefnogi'r cynnig fel y'i diwygiwyd.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw ein bod yn derbyn gwelliant 1. A oes gwrthwynebiadau? Gwelaf fod. Felly, byddaf yn gohirio'r pleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

selected amendment 1 in the name of William Graham and amendment 2 in the name of Peter Black.

gwelliant 1 yn enw William Graham a gwelliant 2 yn enw Peter Black.

NDM4890 Jane Hutt

NDM4890 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud wrth ddiweddarau polisi cynllunio ar gyfer datblygu economaidd.

Notes the progress made in updating planning policy for economic development.

The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths):
I move the motion.

Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths): Cynigiau y cynnig.

I am pleased to have this opportunity to outline the role of the planning system in promoting economic development and recovery in Wales. We have several complementary work streams currently under way to ensure that the planning system is fit for the twenty-first century and helps to promote economic wellbeing in Wales.

Rwyf yn falch o gael y cyfle hwn i amlinellu rôl y system gynllunio wrth hyrwyddo datblygu economaidd ac adferiad economaidd yng Nghymru. Mae nifer o ffrydiau gwaith sy'n ategu ei gilydd yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd i sicrhau bod y system gynllunio'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain a'i bod yn helpu i hybu lles economaidd yng Nghymru.

The scale and nature of the current economic problems facing much of the world is unprecedented. Decisions taken elsewhere on matters such as the fate of the European economy and the future of the euro will have a significant impact in Wales. This Government is determined to do all that we can to ensure that Wales withstands the current economic challenges by putting in place policies and processes that support jobs and stimulate economic recovery.

Mae maint a natur y problemau economaidd sy'n wynebu rhan helaeth o'r byd yn ddigynsail. Bydd penderfyniadau a wneir mewn manau eraill ar faterion fel tynged economi Ewrop a dyfodol yr ewro yn cael effaith sylweddol yng Nghymru. Mae'r Llywodraeth yn benderfynol o wneud popeth o fewn ei gallu i sicrhau bod Cymru'n gwrthsefyll yr heriau economaidd presennol, drwy roi polisiâu a phrosesau ar waith sy'n cefnogi swyddi ac sy'n ysgogi adferiad economaidd.

The planning system can help economic recovery by creating more certainty for investment decisions, and we have set in place, or are consulting on, a number of important improvements to the planning system that aim to make it more agile, timely and consistent. The role of the planning system is to facilitate economic development, manage change and direct development to the most appropriate locations.

Gall y system gynllunio helpu i adfer yr economi drwy greu mwy o sicrwydd ar gyfer penderfyniadau ar fuddsoddi, ac rydym wedi rhoi nifer o welliannau pwysig i'r system gynllunio ar waith, neu wedi ymgynghori ynghylch gwelliannau o'r fath; maent yn anelu at wneud y system gynllunio'n fwy ystwyth, amserol a chyson. Rôl y system gynllunio yw hwyluso datblygu economaidd, rheoli newid a chyfeirio datblygiad i'r lleoliadau mwyaf addas.

We need to ensure that the planning policy framework is up to date and supports economic recovery. In this respect, we have

Mae angen inni sicrhau bod fframwaith y polisi cynllunio yn gyfoes ac yn helpu i adfer yr economi. Yn hynny o beth, rydym wedi

taken forward work to review and update 'Planning Policy Wales'. This work has been taken forward with our partners, including the Confederation of British Industry and the Federation of Small Businesses, and I am grateful for their support and assistance.

On 28 November of last year, I launched a public consultation exercise seeking views on proposed revisions to the text of 'Planning Policy Wales' in relation to economic development. This consultation will conclude on 5 March. The work is being closely aligned to the Roger Tym report, the recommendations of which the Government has previously accepted.

In seeking to update 'Planning Policy Wales', we are trying to ensure that the planning system makes provision for the whole economy, be it the service sector, the green economy or traditional employment uses, such as manufacturing and heavy industry. We recognise that effective planning for economic development requires an up to date local evidence base. Economic regions and travel-to-work patterns do not respect local authority boundaries. Local planning authorities must work collaboratively to identify the best development opportunities and plan more strategically to help to deliver the economic growth and jobs that Wales needs. The conclusions of the city regions task and finish group, established by my colleague, the Minister for Business, Enterprise, Technology and Skills, will help to inform our thinking in this area.

In order to help local planning authorities gather the appropriate evidence to support their local development plan policies, we will produce a new technical advice note on economic development later this year. As part of the current consultation on changes to 'Planning Policy Wales', we are also seeking views on the future shape and content of the technical advice note.

The effective delivery of our policy on the ground is largely the responsibility of local planning authorities, and the best way to ensure that Welsh Government policies are

datblygu gwaith i adolygu 'Polisi Cynllunio Cymru' a'i ddiweddarau. Datblygwyd y gwaith hwn gyda'n partneriaid, gan gynnwys Cydffederasiwn Diwydiant Prydain a'r Ffederasiwn Busnesau Bach, ac rwyf yn ddiolchgar am eu cefnogaeth a'u cymorth.

Ar 28 Tachwedd y llynedd, lansiais ymgynghoriad cyhoeddus i geisio barn ar y diwygiadau arfaethedig i'r testun yn 'Polisi Cynllunio Cymru' mewn perthynas â datblygu economaidd. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn dod i ben ar 5 Mawrth. Mae'r gwaith yn cyd-fynd yn agos ag adroddiad Roger Tym, y derbyniodd y Llywodraeth ei argymhellion.

Wrth geisio diweddarau 'Polisi Cynllunio Cymru', rydym yn ymdrechu i sicrhau bod y system gynllunio'n darparu ar gyfer yr economi gyfan, boed yn y sector gwasanaeth, yr economi werdd neu at ddefnydd cyflogaeth traddodiadol, fel gweithgynhyrchu a diwydiant trwm. Rydym yn cydnabod bod angen sail dystiolaeth leol gyfoes er mwyn gallu cynllunio'n effeithiol mewn perthynas â datblygu economaidd. Nid yw rhanbarthau economaidd a phatrymau teithio-i'r-gwaith yn cyd-fynd â ffiniau awdurdodau lleol. Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol weithio ar y cyd i ganfod y cyfleoedd datblygu gorau a chynllunio'n fwy strategol i helpu i sicrhau'r twf economaidd a'r swyddi sydd eu hangen ar Gymru. Mae casgliadau'r grŵp gorchwyl a gorffen ar ranbarthau dinasoedd, a sefydlwyd gan fy nghyd-Aelod y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Sgiliau, yn dylanwadu ar ein syniadau yn y maes hwn.

Er mwyn helpu awdurdodau cynllunio lleol i gasglu'r dystiolaeth briodol i gynorthwyo'u polisïau ar gynlluniau datblygu lleol, byddwn yn cyhoeddi nodyn cyngor technegol newydd ar ddatblygu economaidd yn ddiweddarach eleni. Fel rhan o'r ymgynghoriad cyfredol ar newidiadau i 'Polisi Cynllunio Cymru', rydym hefyd yn ceisio barn ar ffurf a chynnwys y nodyn cyngor technegol yn y dyfodol.

Cyfrifoldeb awdurdodau cynllunio lleol yn bennaf yw sicrhau y rhoddir ein polisi ar waith ar lawr gwlad yn effeithiol, a'r ffordd orau i sicrhau bod polisïau Llywodraeth

taken forward is by ensuring that there is an up-to-date local development plan in place. We provide extensive support to local planning authorities to assist them with LDP preparation, and I am pleased to see that this is now bearing fruit—five LDPs have been adopted and 11 more are being brought forward this year. However, it is disappointing to note that some authorities are still making poor progress on their plans, thus holding back their local economy and the Welsh economy as a whole. To provide Members with further information on the role of these plans, I have asked my officials and the Planning Inspectorate to arrange a briefing session for Assembly Members on 14 March. Details will be sent out shortly. I hope that that may assist Members, particularly when dealing with constituents' queries.

5.00 p.m.

As well as updating the planning policy framework and facilitating progress with the adoption of LDPs, it is also important that the process of making a planning application is as proportionate, straightforward and efficient as possible. Work is well under way in taking forward the programme of improvements resulting from the planning application process review. A number of consultations have been issued and new legislation and guidance aimed at improving various aspects of the planning application process will be issued this year.

Looking to the medium term, I am committed to ensuring that the administrative and governance structures required for the delivery of an efficient and transparent planning system are in place. The legislative statement 2011 to 2016 includes a commitment to introduce a planning Bill to consolidate existing legislation and make the planning system more effective, transparent and accessible. A White Paper setting out our proposals will be published during 2013, followed by the introduction of a planning Bill to the Assembly.

As part of the evidence base for that Bill, an independent advisory group has been set up, under the chairmanship of the former Welsh

Cynulliad Cymru yn cael eu dwyn ymlaen yw sicrhau bod cynllun datblygu lleol cyfoes ar gael. Rydym yn rhoi cymorth helaeth i awdurdodau cynllunio lleol i'w cynorthwyo i baratoi'r cynllun datblygu lleol, ac rwyf yn falch o weld bod hynny'n dwyn ffrwyth erbyn hyn—mae pum cynllun datblygu lleol wedi'u mabwysiadu a bydd 11 arall yn cael eu cyflwyno eleni. Fodd bynnag, siomedig yw gweld bod rhai awdurdodau yn parhau i wneud cynnydd gwael ar eu cynlluniau, a thrwy hynny'n llyffetheirio'u heconomi leol ac economi Cymru yn ei chyfanrwydd. Er mwyn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am rôl y cynlluniau hyn, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion a'r Arolygiaeth Gynllunio drefnu sesiwn frifio i Aelodau'r Cynulliad ar 14 Mawrth. Bydd y manylion yn cael eu hanfon cyn bo hir. Rwyf yn gobeithio y gall hynny fod o gymorth i Aelodau, yn enwedig wrth ymdrin ag ymholiadau gan etholwyr.

Yn ogystal â diweddarau'r fframwaith polisi cynllunio a hwyluso'r cynnydd o ran mabwysiadu cynlluniau datblygu lleol, mae hefyd yn bwysig bod y broses o wneud cais cynllunio mor gymesur, syml ac effeithlon â phosibl. Mae'r gwaith wedi hen ddechrau ar y rhaglen o welliannau sy'n deillio o'r adolygiad o'r broses ceisiadau cynllunio. Mae nifer o ymgynghoriadau wedi cael eu cyhoeddi a bydd deddfwriaeth newydd a chanllawiau wedi'u hanelu at wella agweddau amrywiol ar y broses ceisiadau cynllunio yn cael eu cyhoeddi eleni.

Gan edrych at y tymor canolig, rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod y strwythurau gweinyddol a llywodraethu sy'n ofynnol ar gyfer cyflwyno system gynllunio effeithlon a thryloyw yn eu lle. Mae datganiad deddfwriaethol 2011 i 2016 yn cynnwys ymrwymiad i gyflwyno Mesur cynllunio i atgyfnerthu deddfwriaeth bresennol a gwneud y system gynllunio yn fwy effeithiol, tryloyw a hygyrch. Bydd Papur Gwyn sy'n nodi ein cynigion yn cael ei gyhoeddi yn 2013, cyn cyflwyno Bil cynllunio i'r Cynulliad.

Fel rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer y Bil hwnnw, mae grŵp cynghori annibynnol wedi cael ei sefydlu, dan gadeiryddiaeth cyn-

director of the Planning Inspectorate, John Davies MBE. The group is considering options on how best to deliver the planning system in the future. It is currently asking for views in a call for evidence that will inform its recommendations. Its review will look at how planning decisions are made in Wales, where the system works and where it could be improved. Recommendations from the review will have a real impact on the future structure and operation of the Welsh planning system.

I recognise concerns that statutory consultees to planning applications can sometimes delay the decision-making process to the detriment of timely investment decisions by applicants. To that end, the creation of a single environment body, replacing the Countryside Council for Wales, the Environment Agency Wales and the Forestry Commission Wales, will streamline the process.

I will continue to keep under review all aspects of the planning system to ensure that it is capable of supporting economic recovery in Wales. As a Government, we are not complacent about the impacts that the planning system can have on the economic fortunes of businesses.

The changes that we are currently proposing to 'Planning Policy Wales' have been informed by a wide range of stakeholder involvement, and I will be interested to hear Members' views today on the draft policy and await with interest the results of the public consultation exercise. The revised policy will be produced by the summer.

Gwelliant 1 William Graham

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod bod y system gynllunio'n hanfodol ar gyfer economi gref ac felly'n gresynu wrth yr oedi ar ran Llywodraeth Cymru wrth gyflwyno newidiadau i Bolisi Cynllunio Cymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

gyfarwyddwr Cymru yr Arolygiaeth Gynllunio, sef John Davies MBE. Mae'r grŵp yn ystyried yr opsiynau ynghylch y ffordd orau i gyflwyno'r system gynllunio yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, mae'n gofyn am farn pobl ar ffurf galwad am dystiolaeth a fydd yn llywio ei argymhellion. Bydd ei adolygiad yn edrych ar sut y caiff penderfyniadau cynllunio eu gwneud yng Nghymru, lle y mae'r system yn gweithio a lle y gellid ei gwella. Bydd argymhellion o'r adolygiad yn cael effaith go iawn ar strwythur a gweithrediad system gynllunio Cymru yn y dyfodol.

Rwyf yn cydnabod pryderon y gall ymgynghorwyr statudol i geisiadau cynllunio weithiau arafu'r broses o wneud penderfyniadau ac andwyo penderfyniadau buddsoddi amserol gan ymgeiswyr. I'r diben hwnnw, bydd sefydlu un corff amgylcheddol, gan ddisodli Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru, yn symleiddio'r broses.

Byddaf yn parhau i adolygu pob agwedd ar y system gynllunio er mwyn sicrhau ei bod yn gallu cefnogi adferiad economaidd yng Nghymru. Fel Llywodraeth, nid ydym yn hunanfodlon ynghylch yr effeithiau y gall y system gynllunio ei chael ar ffyniant economaidd busnesau.

Mae'r newidiadau yr ydym yn eu cynnig i 'Polisi Cynllunio Cymru' wedi cael eu llywio gan ystod eang o ymgysylltiad â rhanddeiliaid, ac mae gennyf ddiddordeb mewn clywed barn yr Aelodau heddiw ar y polisi drafft ac rwyf y'n aros yn eiddgar am ganlyniadau'r ymarfer ymgynghori cyhoeddus. Bydd y polisi diwygiedig yn cael ei lunio erbyn yr haf.

Amendment 1 William Graham

Add as new points at end of motion:

Recognises that the planning system is vital for a strong economy and therefore regrets the delay by the Welsh Government in bringing forward changes to Planning Policy Wales and calls upon the Welsh Government to:

Gyflwyno Bil Cynllunio Cymru yn gynharach na'r hyn a nodwyd yn y Datganiad Deddfwriaethol, fel y gellir rhoi agwedd strategol ond syml ar waith mewn canllawiau ar draws yr holl sectorau polisi er mwyn gwella'r economi a lles pobl Cymru.

Russell George: I move amendment 1 in the name of William Graham.

The notion of progress is very much relative; we can see that the Government has made some progress on this agenda. However, the specific recommendation to update chapter 7 of 'Planning Policy Wales' was in the economic renewal programme, which the previous One Wales Government published in the summer of 2010. Here we are, 18 months on, still at the consultation stage, which does not end until the beginning of March. It will be two years before anything tangible is brought forward by Government. In essence, that means that we are working to economic planning guidance that is a decade old. How can we possibly give the Welsh economy the boost it desperately needs with such policy guidance? Wales cannot afford these delays. We know that strategic use of the planning system in Wales is probably one of the major enablers of economic growth. It has been one of the fundamental levers that the Welsh Government has had at its disposal since devolution, yet it has not been utilised at all well during the past 13 years, and certainly has not sparked the economic transformation that administration after administration has promised this institution and the people of Wales. In fact, it could be argued that the slow pace of planning reform has been a barrier to economic development.

Minister, you mentioned in your opening remarks the support that you have received from the Confederation of British Industry. However, in its consultation response to the Government's economic renewal programme, CBI Wales said:

'Planning is possibly the one area where there has been little noticeable improvement in service, despite increasing costs. Industry still faces lengthy delays in processing

Bring forward the Welsh Planning Bill sooner than indicated in the Legislative Statement, so that a strategic yet streamlined approach can be made to guidance across all policy sectors to improve the economy and well-being of the people of Wales.

Russell George: Cynigiau welliant 1 yn enw William Graham.

Mae'r syniad o gynnydd yn un cymharol; gallwn weld bod y Llywodraeth wedi gwneud rhywfaint o gynnydd ar yr agenda hwn. Fodd bynnag, roedd yr argymhelliad penodol i ddiweddarau pennod 7 o 'Polisi Cynllunio Cymru' yn y rhaglen adnewyddu economaidd, a gyhoeddodd Llywodraeth Cymru'n Un yn haf 2010. Dyma ni, 18 mis yn ddiweddarach, yn dal yn y cam ymgynghori, nad yw'n dod i ben tan ddechrau mis Mawrth. Bydd yn ddwy flynedd cyn i unrhyw beth diriaethol gael ei gyflwyno gan y Llywodraeth. Yn ei hanfod, mae hynny'n golygu ein bod yn gweithio i ganllawiau cynllunio economaidd sy'n ddeg oed. Sut y gallwn ni roi i economi Cymru yr hwb y mae ei dirfawr angen arni â chanllawiau polisi o'r fath? Ni all Cymru fforddio'r oedi hwn. Rydym yn gwybod mai defnydd strategol o'r system gynllunio yng Nghymru yw un o brif alluogwyr twf economaidd. Mae wedi bod yn un o'r dulliau sylfaenol sydd wedi bod ar gael i Lywodraeth Cymru ers datganoli, ond nid yw wedi ei ddefnyddio'n effeithiol o gwbl dros y 13 mlynedd diwethaf, ac yn sicr nid yw wedi tanio'r trawsnewid economaidd y mae'r naill Lywodraeth ar ôl y llall wedi'i addo i'r sefydliad hwn ac i bobl Cymru. Yn wir, gellid dadlau bod arafwch diwygio'r system gynllunio wedi bod yn rhwystr i ddatblygu economaidd.

Weinidog, roedd eich sylwadau agoriadol yn sôn am y gefnogaeth yr ydych wedi ei chael gan Gydffederasiwn Diwydiant Prydain. Fodd bynnag, yn ei ymateb i'r ymgynghoriad ar raglen adnewyddu economaidd y Llywodraeth, dywedodd CBI Cymru:

O bosibl, cynllunio yw'r un maes lle na fu ond ychydig iawn o welliannau amlwg yn y gwasanaeth, er gwaethaf costau cynyddol. Mae diwydiant yn dal i wynebu oedi hir wrth

applications, and the quality of the service and advice offered differs throughout Wales.’

In short, the problems faced by business in the planning system remain as great as ever. What businesses in Wales are asking for is a more consistent and transparent planning process. They also want to unlock the opportunities that exist in many places, in relation to current assets not being properly employed. The question is whether this document delivers that. As this document is still being consulted upon, we do not entirely know the answer, as further changes may emerge. There are some strong elements within it: promoting the diversification of the rural economy is crucial. It is vital that there is a rural-proofing element to developing planning policy, not just an urban, fast-stream approach. Encouraging planning authorities to pursue opportunities to develop a greener economy is also to be applauded. However, the Government has to examine the big picture and ascertain how it can deliver real impetus to its economic renewal programme. Principally, it needs to make a decision on how it wants local planning authorities to operate and deliver results. Our local planning authorities implement Government guidance, and so will this document be enough to encourage local planning authorities to look beyond their local development plans and work more regionally? I do not think that it will. Does it really have sustainability at its core? If the Government were truly committed to embedding sustainability at the core of its policy, then a sustainability Bill would have been the first major piece of legislation proposed by this Government, and policy would be developed around it. Instead, we are not going to see this Bill until the autumn of next year.

Therefore, the key question that we have to ask ourselves—given the scale of the problems that we face in Wales—is whether this current, piecemeal approach of patching up our planning system can really deliver fundamental change to meet the needs of not only our economy, but our environment and

brosesu ceisiadau, ac mae ansawdd y gwasanaeth a'r cyngor a gynigir yn amrywio ledled Cymru.

Yn fyr, mae'r problemau sy'n wynebu busnesau yn y system gynllunio yn parhau mor fawr ag erioed. Yr hyn y mae busnesau yng Nghymru yn gofyn amdano yw proses gynllunio fwy cyson a thryloyw. Maent hefyd yn awyddus i ddatgloi'r cyfleoedd sy'n bodoli mewn nifer o lefydd o ran y diffyg defnydd cywir o asedau cyfredol. Y cwestiwn yw a yw'r ddogfen hon yn darparu hyn. Gan fod y ddogfen hon yn parhau'n destun ymgynghoriad, nid ydym yn gwybod yr ateb yn iawn eto, oherwydd y gall newidiadau pellach ddod i'r amlwg. Mae rhai elfennau cryf ynddi: mae hyrwyddo arallgyfeirio yn yr economi wledig yn hanfodol. Mae'n hanfodol cael elfen prawfesur gwledig i ddatblygu polisi cynllunio, ac nid dull trefol, ffrwd-cyflym yn unig. Mae annog awdurdodau cynllunio i fynd ar drywydd cyfleoedd i ddatblygu economi fwy gwyrdd hefyd i'w gymeradwyo. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Llywodraeth edrych ar y darlun mawr a chanfod sut y gall roi hwb go iawn i'w rhaglen adnewyddu economaidd. Yn bennaf, mae angen iddi wneud penderfyniad ar sut y mae am i awdurdodau cynllunio lleol weithredu a sicrhau canlyniadau. Ein hawdurdodau cynllunio lleol sy'n rhoi canllawiau'r Llywodraeth ar waith. Felly, a fydd y ddogfen hon yn ddigon i annog awdurdodau cynllunio lleol i edrych y tu hwnt i'w cynlluniau datblygu lleol a gweithio'n fwy rhanbarthol? Nid wyf yn credu y bydd. A yw cynaliadwyedd wirioneddol wrth graidd hyn? Pe bai'r Llywodraeth yn gwbl ymroddedig i ymgorffori cynaliadwyedd wrth wraidd ei pholisi, Bil cynaliadwyedd fyddai'r darn pwysig cyntaf o ddeddfwriaeth y byddai'r Llywodraeth hon wedi'i chyflwyno, a byddai'n datblygu ei pholisïau o'i amgylch. Yn lle hynny, nid ydym yn mynd i weld y Bil hwn tan yr hydref y flwyddyn nesaf.

Felly, y cwestiwn allweddol y mae'n rhaid i ni ofyn i ni ein hunain—o ystyried maint y problemau sy'n ein hwynebu yng Nghymru—yw a all y dull tameidiog presennol hwn o ailwampio ein system gynllunio gyflawni newid sylfaenol i ddiwallu anghenion nid yn unig ein

communities. We believe that the answer is that there is an urgent need for legislation to make that change happen. It requires an all-encompassing planning Bill for Wales. However, we cannot afford to wait until 2014 for that to be discussed. If this Government wants to be true to its word and focus on delivery, it can only do that by bringing forward now a radical, streamlined and transparent planning system that the people of Wales can understand and have confidence in.

Gwelliant 2 Peter Black

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi ei Bil Cynllunio'n gynharach nag a nodwyd yn ei datganiad deddfwriaethol, ac i ymgynghori'n eang arno, er mwyn helpu i ddiwallu anghenion datblygu economaidd.

William Powell: I move amendment 2 in the name of Peter Black.

The Welsh Liberal Democrats call on the Welsh Government to publish its planning Bill earlier than has been previously indicated, and has been restated by the Minister today, and to consult widely so as to take on board the urgent needs of economic development, which have been a theme throughout today's proceedings, as, rightly, they should be.

It is clear that all current planning policy is flawed to a degree and needs to be refreshed and reformed. For years, decisions have taken too long. Planning officers, while doubtless doing their best in difficult circumstances, can appear, on occasion, to occupy almost a parallel universe, completely divorced from the economic realities of the day, and that can cause enormous frustration for all concerned. Change is not only necessary, it is essential. This Assembly must meet the public's expectations and provide our nation with a planning policy that can deliver true economic development across Wales, both in the urban areas and the rural hinterlands, and do so in an efficient and sustainable way. It is for this reason that the Welsh Liberal

heonomi, ond ein hamgylchedd a'n cymunedau. Rydym ni o'r farn mai'r ateb yw bod angen brys am ddeddfwriaeth i wneud i'r newid hwnnw ddigwydd. Mae angen Bil cynllunio hollgynhwysol i Gymru. Fodd bynnag, ni allwn aros tan 2014 er mwyn i hynny gael ei drafod. Os yw'r Llywodraeth hon yn awyddus i fod yn wir at ei gair a chanolbwyntio ar gyflawni, dim ond drwy gyflwyno system gynllunio radical, symlach a thryloyw yn awr y gall wneud hynny, a honno'n system y gall pobl Cymru ei deall a chael hyder ynddi.

Amendment 2 Peter Black

Add as new point at end of motion:

Calls on the Welsh government to publish its Planning Bill earlier than indicated in its legislative statement, and to consult widely, in order to help meet the needs of economic development.

William Powell: Cynigiau welliant 2 yn enw Peter Black.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi ei Bil cynllunio yn gynharach nag a nodwyd yn flaenorol, ac fel y mae'r Gweinidog wedi ei ailddatgan heddiw, ac i ymgynghori'n eang, er mwyn mynd i'r afael ag anghenion dybryd datblygu economaidd, sydd wedi bod yn thema drwy gydol trafodion heddiw, fel, yn wir, y dylent fod.

Mae'n amlwg bod yr holl bolisiau cynllunio ar hyn o bryd yn ddiffygiol i ryw raddau a bod angen eu hadnewyddu a'u diwygio. Ers blynyddoedd, mae penderfyniadau wedi cymryd gormod o amser. Er bod swyddogion cynllunio, heb os, yn gwneud eu gorau o dan amgylchiadau anodd, gallant ymddangos ar adegau fel eu bod yn byw mewn bydysawd cyfochrog, wedi eu hysgaru'n llwyr oddi wrth realiti economaidd yr oes, a gall hynny achosi rhwystredigaeth enfawr i bawb sy'n rhan o'r broses. Mae newid nid yn unig yn angenrheidiol, mae'n hanfodol. Rhaid i'r Cynulliad fodloni disgwyliadau'r cyhoedd a rhoi polisi cynllunio i'n cenedl a all ddarparu gwir ddatblygu economaidd ledled Cymru, a hynny yn yr ardaloedd trefol a'r ardaloedd

Democrats welcome this debate today. Clearly, action must be taken now. It is not sufficient to put this on the legislative backburner while families, companies and investors ask themselves whether Wales is indeed fully open for business. The impetus for swift action is not just confined to us. Indeed, the Welsh Government's own study back in 2011 said:

'the planning application process in Wales is currently in need of significant improvement if it is to be effective in supporting sustainable economic growth.'

We need to move from a development-controlling mentality to a development-enabling mentality—a can-do culture. For example, we should make greater use of pre-application advice and broaden out the whole pre-application stage. That would enable developers to potentially part-fund such planning briefs, and enable consultation to take place, particularly on larger developments. In the long run, this would be a major benefit and would facilitate progress. Given that it is not currently standardised across Wales, this should be the subject of a special dedicated technical advice note. Likewise, we believe that we should consider piloting a planning agent accreditation system across Wales. That has been trialled in some authorities in England. I believe that it was the initiative of the former Deputy Prime Minister.

Planning policy has the potential to have an impact on all sectors of our economy, and it must be not only effective but accountable. That is why my party has consistently called for far-reaching reforms, focused on the twin aims of making the system quicker and subject to genuine local consultation. These do not need to be contradictory objectives. We must endeavour to close the loopholes that exist around retrospective planning permission, which, again, have to do with the level of resource for enforcement. It is a critical area that needs our attention.

cefn gwlad, a rhaid gwneud hynny mewn ffordd effeithlon a chynaliadwy. Dyna pam mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn croesawu'r ddadl hon heddiw. Yn amlwg, rhaid gweithredu nawr. Nid yw'n ddigon gohirio hyn tra bo teuluoedd, cwmnïau a buddsoddwyr yn gofyn i'w hunain a yw Cymru yn wirioneddol agored i fusnes. Nid yw'r symbyliad ar gyfer gweithredu cyflym wedi'i gyfyngu yn unig i ni. Yn wir, dywedodd astudiaeth Llywodraeth Cymru ei hun yn 2011 fod angen i'r broses gynllunio yng Nghymru

'gael ei gwella'n sylweddol er mwyn bod yn effeithiol wrth gefnogi twf economaidd cynaliadwy.'

Mae angen inni symud o feddylfryd sy'n rheoli datblygu i feddylfryd sy'n galluogi datblygu—diwylliant o gyflawni. Er enghraifft, dylem wneud mwy o ddefnydd o gyngor cyn gwneud cais ac ehangu'r holl gyfnod cyn gwneud cais. Byddai hynny'n galluogi datblygwyr i ran-ariannu briffiau cynllunio o'r fath, a byddai'n galluogi ymgynghori i ddigwydd, yn enwedig ar ddatblygiadau mwy. Yn y pen draw, byddai hyn o fudd mawr a byddai'n hwyluso cynnydd. O ystyried nad yw hyn yn safonol ledled Cymru ar hyn o bryd, dylai fod yn destun nodyn cyngor technegol penodol. Yn yr un modd, credwn y dylem ystyried treialu system achredu asiantau cynllunio ledled Cymru. Mae hynny wedi cael ei dreialu gan rai awdurdodau yn Lloegr. Rwyf yn credu y digwyddodd hynny o dan ofal y cyn-Dirprwy Brif Weinidog.

Mae gan bolisi cynllunio'r potensial i gael effaith ar bob sector o'n heconomi, a rhaid iddo fod yn effeithiol ond hefyd yn atebol. Dyna pam mae fy mhlaid i wedi galw'n gyson am ddiwygiadau pellgyrhaeddol, sy'n canolbwyntio ar y ddau nod o wneud y system yn gyflymach a'i gwneud yn destun ymgynghori lleol dilys. Nid oes rhaid i'r rhain fod yn amcanion anghyson. Rhaid inni ymdrechu i gau'r bylchau sy'n bodoli mewn perthynas â chaniatâd cynllunio ôl-weithredol, sydd, unwaith eto, yn ymwneud â'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer gorfodi. Mae'n faes allweddol sydd angen ein sylw.

Taking the example of agriculture for a moment, there are clear reforms that need to be made. We need to consider the opportunities offered by redundant farm buildings that are no longer appropriate for mechanised farming. We also need to free up the opportunities for diversification and all the benefits that flow from it. Indeed, only last week, another example, from the field of the creative industries, came to light when many of us heard about the filming that is currently planned in Carmarthenshire. It became clear that the local planning authority, which is the Brecon Beacons National Park Authority, had to go to particular lengths to facilitate that, and potentially that could have put in peril a major economic injection for the area, which badly needs it. That is why I call for a planning framework that can create genuine economic prosperity. We must do all of this, and we must do it soon. That is why I call upon your support today.

Yr Arglwydd Elis-Thomas: Mae ychydig o ddrwsych yn agwedd fy nghyfeillion ymhlith y Ceidwadwyr Cymreig ac, yn wir, y Rhyddfrydwyr Democrataidd wrth drafod y materion hyn. Roeddwn yn meddwl ein bod yng nghanol proses eang o ymgynghori ar gynllunio yng Nghymru ar hyn o bryd cyn ein bod yn symud tuag at Bapur Gwyn tua mis Medi y flwyddyn nesaf ac yna tuag at Fil cynllunio y byddwn yn ei arwain drwy'r pwyllgor, gobeithio, os byw ac yn iach, yn y flwyddyn wedyn. Yn sicr, croesawaf y ffaith bod y Gweinidog wedi perswadio unigolion penodol i wasanaethu ar y grŵp ymgynghorol annibynnol, lle mae cynrychiolaeth o fyd busnes, y broses gynllunio, a'r byd cyfreithiol, gyda chadeirydd, yn John Davies, sydd yn deall cynllunio yng Nghymru o safbwynt hanesyddol a phob safbwynt arall. Felly, nid wyf yn deall pam fod pob cynnig sydd yn dod oddi wrth y ddwy wrthblaid yma, fel y maent yn eu galw eu hunain, sydd yn rhan o'r Llywodraeth yn San Steffan, bob tro yn cychwyn drwy ddweud ein bod yn gallu gwneud hyn a hyn yn fwy cyflym. Byddwn yn meddwl mai'r peth pwysicaf ym maes cynllunio yw deddfu a chreu fframwaith cywir a derbyniol i bobl Cymru, oherwydd nid ydym erioed wedi cael hynny o'r blaen.

Gan edrych ar amaethyddiaeth fel enghraifft, mae diwygiadau clir y mae angen eu gwneud. Mae angen inni ystyried y cyfleoedd a gynigir gan adeiladau fferm segur nad ydynt bellach yn addas ar gyfer ffermio mecanyddol. Mae hefyd angen rhyddhau'r cyfleoedd i arallgyfeirio a'r holl fanteision sy'n deillio o hynny. Yn wir, dim ond yr wythnos diwethaf, daeth enghraifft arall i'r amlwg, o faes y diwydiannau creadigol, pan glywodd llawer ohonom am y ffilmio sydd wedi'i gynllunio yn Sir Gaerfyrddin. Daeth yn amlwg bod yr awdurdod cynllunio lleol, sef Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, yn gorfod mynd i drafferth benodol i hwyluso hynny, a gallai hynny o bosibl fod wedi peryglu'r cyfle i roi hwb economaidd mawr i'r ardal, sydd ei angen yn fawr. Dyna pam rwyf yn galw am fframwaith cynllunio a all greu gwir ffyniant economaidd. Mae'n rhaid inni wneud hyn i gyd, a'i wneud yn fuan. Dyna pam rwyf yn galw am eich cefnogaeth heddiw.

Lord Elis-Thomas: There is some confusion in the attitude of my colleagues among the Welsh Conservatives and, indeed, the Liberal Democrats in discussing these issues. I had thought that we were in the middle of a wide-ranging consultation process on current planning in Wales before moving to a White Paper around September next year and then to a planning Bill that I will take through the committee in the following year, hopefully, health permitting. I certainly welcome the fact that the Minister has persuaded certain individuals to serve on the consultation group, on which there is representation from business, the planning process, and the legal sphere, with, in John Davies, a chair who understands planning and Wales from the historical point of view and every other point of view. Therefore, I do not understand why every proposal put forward by the two opposition parties here, as they describe themselves, who are part of Government in Westminster, always start by saying that we can do such and such more quickly. I would have thought that the most important thing in relation to planning is to legislate and create a framework that is correct and acceptable to the people of Wales, because we have never had that before.

5.15 p.m.

Felly, rwy'n croesawu'r ymgynghoriad a'r cyfle hwn i gyfrannu at yr ymgynghoriad yn gyffredinol. Rwyf hefyd eisiau llawenhau gan ei fod yn eistedd o'm mlaen, yng nghyfraniad cwbl arbennig y Dirprwy Brif Weinidog blaenorol i'r gwaith hwn oherwydd, fel y dywedodd fy nghyfaill o'r Blaid Geidwadol, Russell George, mae hwn yn deillio'n union o 'Adnewyddu'r Economi', sef papur a gyhoeddodd Llywodraeth Cymru yn 2010, yn nyddiau hapus a llawen Llywodraeth Cymru'n Un.

Mae'r gwaith hwn yn deillio o bwysigrwydd ceisio hwyluso'r system gynllunio yng Nghymru a'i gwneud yn fwy effeithiol. Croesawaf yn arbennig y pwyslais bod yn rhaid i ddatblygiad economaidd, o safbwynt cynllunio, gael ei osod yn glir yn rhan o ddyletswydd gyfreithiol Llywodraeth Cymru i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy. Pa mor aml y mae'n rhaid inni ddweud hyn ac atgoffa pobl fod datblygiad cynaliadwy yn cynnwys datblygu cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol? Cydbwyso'r tri hynny yw gwir gyfrinach darganfod cynaliadwyedd, gan edrych, fel y dywedodd Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy yn gynharach, tuag at economi gyfannol y mae ei datblygiad yn cael ei ystyried yn holistaidd. Felly, wrth chwilio am system gynllunio lle mae datblygu'r economi a chyflogaeth yn cefnogi datblygiad cynaliadwy, cymdeithasol ac amgylcheddol, rydym yn symud i dir newydd o safbwynt cynllunio.

Rwyf yn benodol am gytuno â'r hyn y soniodd William Powell amdano, sef yr effeithiau ar gefn gwlad. Rwyf wedi cael y fraint o fyw mewn, a chynrychioli, ardaloedd gwledig yn y gogledd-orllewin ar hyd fy ngyrfa wleidyddol hyd yn hyn, ac nid wyf yn bwriadu, os gallaf beidio oherwydd fy hun, colli'r fraint honno yn fuan. Un mater sydd wedi peri gofid imi ar hyd y blynyddoedd yw'r ffaith nad yw'r system gynllunio erioed wedi hyrwyddo i bobl fyw a gweithio yn yr ardaloedd hynny. Mae diffyg sylweddoli pwysigrwydd mentrau bychan a busnesau llai yn ogystal â diffyg gweld y posibilrwydd i ddefnyddio adeiladau amaethyddol a safleoedd datblygu yng nghefn gwlad. Felly,

Therefore, I welcome the consultation and this opportunity to contribute to the consultation in general. I also want to rejoice, as he is sitting before me, in the excellent contribution made by the former Deputy First Minister to this work because, as my colleague from the Conservative Party, Russell George, said, this emanates directly from 'Economic Renewal', a paper published by the Welsh Government in 2010, in the joyous days of the One Wales Government.

This work stems from the importance of facilitating the planning system in Wales and of making it more effective. I welcome in particular the emphasis on ensuring that economic development, from a planning perspective, is included as part of the Welsh Government's legal duty to promote sustainable development. How often must we say this and remind people that sustainable development includes social, economic and environmental development? Balancing those three things is the key to achieving real sustainability and to looking, as the Minister for Environment and Sustainable Development said earlier, towards a holistic economy where development is considered in that holistic manner. Therefore, in seeking a planning system where development of the economy and employment support sustainable, social and environmental development, we are breaking new ground in terms of planning.

I particularly want to agree with what William Powell mentioned, namely the impact on rural areas. I have had the privilege of living in, and representing, rural areas in the north-west throughout my political career to date, and I do not intend to lose that privilege any time soon, if I can help it. One issue that has been a cause of concern to me over the years is the fact that the planning system has never encouraged people to live and work in these areas. The importance of small enterprises and businesses is not appreciated, as is the possibility of using agricultural buildings and development sites in rural areas. Therefore, I welcome the annex to the consultation that has since

croesawaf yr atodiad i'r ymgynghoriad sydd wedi'i gychwyn, yn arbennig cyn belled ag y mae'n edrych ar ddatblygu gwledig.

Rwyf yn arbennig yn croesawu'r pwyslais ar geisio hyrwyddo'r economi werdd o ran clystyrau busnes, technoleg a mentrau cymdeithasol. Un peth y carwn roi rhybudd amdano yw fy mod yn credu ei bod yn bwysig inni edrych yn fanylach ar effeithiau carbon yr adeiladau a fydd yn cael caniatâd o dan yr hyn a argymhellir yn yr ymgynghoriad hwn. Felly, mae rhwydd hynt i'r Gweinidog barhau i ymgynghori, ond gofynnaf am un peth ganddo, sef sicrhau y bydd digon o amser inni drin y Bil cynllunio yn briodol yn y pwyllgor ar ddiwedd y broses ymgynghorol, oherwydd mae pen draw hyd yn oed ar ymgynghori.

Julie James: I very much welcome the chance to speak in the debate. I welcome the plan to consolidate existing planning legislation in one transparent and accessible place. As a previous practitioner in this area, I know that one of the most frustrating things from the point of view of developers and people objecting to development is trying to figure out what their rights and responsibilities are. Therefore, the more we can do to make the process transparent and accessible, the better.

I particularly welcome our renewed commitment to setting economic development within the context of sustainability. We should remind ourselves what planning is actually trying to do. It is a very difficult balancing act between the pressures of wanting employment, development and social and economic activity, and the pressure coming from people who want to protect their ways of life and amenities, such as the right to light and to access, and to health services, and so on. All of us have constituents on both sides of the divide who write to us, sometimes about the same development in those terms, so it is important not to get ourselves confused between speed and accuracy in planning. Accuracy is always better than speed. We want accountability and transparency, and we want to get it right. Therefore, I agree with the wide consultation; I commend the Government for doing that, and I hope that

begun, particularly insofar as it looks at rural development.

I particularly welcome the emphasis on promoting the green economy in terms of business, technology and social enterprise clusters. I would sound a note of caution about the need for us to look in greater detail at the carbon footprint of buildings that receive permission in line with the consultation's recommendations. Therefore, as the Minister continues to consult, I would ask him to ensure that we have sufficient time to deal with the planning Bill appropriately at the committee stages, following the consultation, because there is a limit to consultation even.

Julie James: Rwyf yn croesawu'r cyfle i siarad yn y ddadl. Rwyf yn croesawu'r cynllun i atgyfnerthu'r ddeddfwriaeth gynllunio bresennol mewn un lle tryloyw a hygyrch. Fel ymarferydd blaenorol yn y maes hwn, rwyf yn gwybod mai un o'r pethau mwyaf rhwystredig o safbwynt datblygwyr a phobl sy'n gwrthwynebu datblygiadau yw ceisio canfod beth yw eu hawliau a'u cyfrifoldebau. Felly, gorau po fwyaf y gallwn ei wneud i wneud y broses yn dryloyw ac yn hygyrch.

Rwyf yn croesawu'n arbennig ein hymrwymiad o'r newydd i roi datblygiad economaidd yng nghyd-destun cynaliadwyedd. Dylem ein hatgoffa'n hunain o beth yw diben cynllunio. Mae'n anodd iawn sicrhau cydbwysedd rhwng y pwysau o sicrhau cyflogaeth, datblygiad a gweithgarwch cymdeithasol ac economaidd, a'r pwysau a ddaw gan bobl sydd am ddiogelu eu ffyrdd o fyw a mwynderau, megis yr hawl i olau a mynediad, a gwasanaethau iechyd, ac yn y blaen. Mae gan bob un ohonom etholwyr ar y ddwy ochr sy'n ysgrifennu atom, weithiau am yr un datblygiad yn y termau hynny; felly, mae'n bwysig nad ydym yn drysu rhwng cyflymder a chywirdeb wrth gynllunio. Mae cywirdeb bob amser yn well na chyflymder. Rydym am gael atebolrwydd a thryloywder, ac rydym am ei gael yn iawn. Felly, cytunaf â'r ymgynghoriad eang; rwyf yn cymeradwyo'r Llywodraeth am wneud hynny, a gobeithio

we have all responded to it. I do not want to see us moving too quickly towards a planning Bill without proper consideration of it.

Without pre-empting the report on the regeneration of town centres that the Enterprise and Business Committee is about to launch, I want to commend some of its recommendations, which are already set out in the draft chapter 7—therefore I know that the Minister is well aware of them—around concentrating development and attracting large numbers of people into the correct sorts of places for the regeneration of our cities and towns centres. I am pleased to see that that is already included in the draft chapter 7.

I want to commend something that William Powell mentioned in relation to giving guidance to local authorities about pre-application conversations with developers, and with communities, because that is part of the pre-application process that you do not often see. In my previous life, I had experience of planning applications that had been granted but had then caused endless difficulties around the lack of consultation in various areas. I can see Members across the Chamber nodding at me, and I know that some of them know which ones I am talking about. Many of these problems could have been solved if the pre-application discussions had been done properly and had the local authority been accountable for some of the recommendations and other suggestions that it made during those discussions. I regret to say that, given the current economic constraints, many local authorities are now cutting back on pre-application discussions. That is a real mistake, because they can save an enormous amount of time and energy once the application is in train. Therefore, we should try to include that as much as possible into the recommendations.

The only other thing that I want to say is that I am pleased that the Minister has told us of the progress with regard to local development plans in a large majority of our local authorities. However, I know that some of them are struggling, and I would therefore like to see a little bit of stick attached to

ein bod i gyd wedi ymateb iddo. Nid wyf am ein gweld yn symud yn rhy gyflym tuag at Fil cynllunio heb ystyriaeth briodol ohono.

Heb ragdybio cynnwys yr adroddiad sydd ar fin cael ei lansio gan y Pwyllgor Menter a Busnes ynghylch adfywio canol trefi, hoffwn gymeradwyo rhai o'i argymhellion, sydd eisoes wedi'u nodi yn y fersiwn drafft o bennod 7—felly, rwyf yn gwybod bod y Gweinidog yn ymwybodol ohonynt—ynghylch canolbwyntio datblygiad a denu nifer fawr o bobl i'r mathau cywir o leoedd ar gyfer adfywio ein dinasoedd a chanolfannau trefi. Rwyf yn falch o weld bod hynny eisoes wedi'i gynnwys yn y fersiwn drafft o bennod 7.

Rwyf am ganmol rhywbeth y soniodd William Powell amdano mewn cysylltiad â rhoi canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch sgysiau cyn gwneud cais â datblygwyr a chymunedau, gan fod hynny'n rhan anweladwy o'r broses cyn gwneud cais. Yn fy mywyd blaenorol, cefais brofiad o geisiadau cynllunio y rhoddwyd caniatâd iddynt, ond a oedd wedi achosi anawsterau diddiwedd wedyn oherwydd y diffyg ymgynghori mewn meysydd amrywiol. Gallaf weld Aelodau ar draws y Siambr yn nodio eu pennau, a gwn fod rhai ohonynt yn gwybod pa rai yr wyf yn sôn amdanynt. Gallai llawer o'r problemau hyn fod wedi cael eu datrys pe bai'r trafodaethau cyn gwneud cais wedi cael eu cynnal yn iawn a phe bai'r awdurdod lleol wedi bod yn atebol am rai o'r argymhellion ac awgrymiadau eraill a wnaeth yn ystod y trafodaethau hynny. Oherwydd y cyfyngiadau economaidd presennol, mae'n flin gennyf ddweud bod llawer o awdurdodau lleol bellach yn torri'n ôl ar y trafodaethau cyn gwneud cais. Mae hynny'n gamgymeriad gwirioneddol, oherwydd y gallant arbed llawer iawn o amser ac egni unwaith y bydd y cais ar y gweill. Felly, dylem geisio cynnwys hynny gymaint â phosibl yn yr argymhellion.

Yr unig beth arall yr wyf am ei ddweud yw fy mod yn falch bod y Gweinidog wedi dweud wrthym am y cynnydd o ran cynlluniau datblygu lleol yn y mwyafrif helaeth o'n hawdurdodau lleol. Fodd bynnag, gwn fod rhai ohonynt yn ei chael yn anodd, ac felly hoffwn weld ychydig o gosb ynghlwm wrth

this—there should be some consequences for not getting your LDP in decent shape. I am not suggesting that there should be a really large stick, but there should be some consequences of not getting your act together. We all know of authorities where the planning process is stymied from the point of view of the people living in the area and from the point of view of inward investors, because they do not have a strategic plan. That brings me to my last point, which is that I welcome the commitment to having another look at spatial planning and at regional and strategic planning. I am glad to see, as part of the new planning Bill, a duty to look at regional and spatial issues, as well as local issues, in LDPs and their supporting documents.

Paul Davies: I am pleased to be able to take part in this debate. I, like the Member for Swansea West, want to concentrate my remarks particularly on the importance of planning to our town centres. This issue has a profound effect on town centres in my constituency, and I am frequently contacted by constituents and local groups about the effects of planning issues on town centres across Pembrokeshire.

We on this side of the Chamber believe in the need to bring forward a Welsh planning Bill sooner than 2014. I appreciate that there is a consultation process, but, surely, we should do everything that we can to speed up that process. While we recognise that an independent advisory group adds value to achieving a long-term solution to Wales's planning needs, waiting another two years before we see any legislation brought to the Chamber means valuable time will and has already been lost. Wales needs a simplified, streamlined planning process and a flexible planning system that can support the economic growth strategy that this Government wants to pursue. I accept that the Minister wants a planning application system that is as efficient as possible.

The importance of planning to regenerate town centres cannot be emphasised enough, because, in constituencies up and down the country, there have been real concerns

hyn—dylai fod canlyniadau dros beidio â chael eich CDLI mewn cyflwr boddhaol. Nid wyf yn awgrymu y dylid cael cosb fawr iawn, ond dylai fod rhai canlyniadau i beidio â chael trefn ar eich cynlluniau. Gwyddom i gyd am awdurdodau lle y mae pobl sy'n byw yn yr ardal yn teimlo bod y broses gynllunio yn eu rhoi mewn caethgyfle, ac o safbwynt mewnfuddsoddwyr hefyd, am nad oes ganddynt gynllun strategol. Mae hynny'n dod â mi at fy mhwynt olaf, sef fy mod yn croesawu'r ymrwymiad i edrych eto ar gynllunio gofodol ac ar gynllunio rhanbarthol a strategol. Rwyf yn falch o weld, fel rhan o'r Bil cynllunio newydd, ddyletswydd i edrych ar faterion rhanbarthol a gofodol, yn ogystal â materion lleol, mewn cynlluniau datblygu lleol a'u dogfennau ategol.

Paul Davies: Rwyf yn falch o allu cymryd rhan yn y ddadl hon. Rwyf i, fel yr Aelod dros Orllewin Abertawe, am ganolbwyntio fy sylwadau yn arbennig ar bwysigrwydd cynllunio i ganol ein trefi. Caiff y mater hwn effaith fawr ar ganol trefi yn fy etholaeth i, ac mae etholwyr a grwpiau lleol yn cysylltu â mi yn aml ynghylch effeithiau materion cynllunio ar ganol trefi ar draws Sir Benfro.

Rydym ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn credu yn yr angen i gyflwyno Bil cynllunio i Gymru yn gynt na 2014. Rwyf yn gwerthfawrogi bod proses ymgynghori, ond, oni ddylem wneud popeth y gallwn ei wneud i gyflymu'r broses honno? Er ein bod yn cydnabod bod grŵp cynghori annibynnol yn ychwanegu gwerth at gyflawni ateb tymor hir i anghenion cynllunio Cymru, mae aros dwy flynedd arall cyn inni weld unrhyw ddeddfwriaeth yn cael ei chyflwyno i'r Siambr yn golygu y bydd amser gwerthfawr yn cael ei golli a'i fod wedi'i golli eisoes. Mae angen proses gynllunio symlach ar Gymru a system gynllunio hyblyg sy'n gallu cefnogi'r strategaeth twf economaidd y mae'r Llywodraeth hon yn awyddus i'w dilyn. Rwyf yn derbyn bod y Gweinidog am gael system cais cynllunio sydd mor effeithlon ag y bo modd.

Ni ellir gorbwysleisio pa mor bwysig yw cynllunio i adfywio canol trefi, oherwydd, mewn etholaethau ar hyd a lled y wlad, bu pryderon gwirioneddol am nifer y siopau ac

regarding the number of vacant shops and premises in town centres. In my own constituency, particular concerns have been raised on numerous occasions by small businesses about the number of vacant shops in towns such as Milford Haven and Fishguard, and about the effect that that is having on their own businesses. In fact, Milford Haven, along with Holyhead, I think, is an area where the number of shops that have closed is higher than the number anywhere else in Britain.

Changes to the planning system would help the regeneration efforts of areas such as Milford Haven and Fishguard considerably. Creating and retaining vibrant town centres should be supported throughout the planning process and should, in my opinion, be a key priority for the Welsh Government. I am sure that the Minister agrees with me that planning plays an important role in regenerating town centres, particularly in areas such as Pembrokeshire. I hope that the Minister therefore outlines in his response to the debate what support is available from the Welsh Government to businesses that are facing obstacles within the planning system, especially between now and the introduction of the new planning Bill, given that it is at least two years away. It is crucial that economic factors are taken into account when planning applications are considered, and I very much accept the view of the report from Roger Tym and Partners, which highlighted that, under certain circumstances, there is a perception that the economic component of sustainable development has been overlooked in the decision-making process. The planning system must take into account all factors—economic, social and sustainability—when considering planning applications.

In my constituency, there is a plan for Sainsbury's to build a new store in Haverfordwest. It is promising up to 500 jobs should the proposal be approved. That is undoubtedly good news for my constituency, and for Haverfordwest in particular, given the possibility of a high number of full-time and part-time jobs. However, while the store will benefit local employment, I hope that it will

adeiladau gwag yng nghanol trefi. Yn fy etholaeth fy hun, mynegwyd pryderon penodol ar sawl achlysur gan fusnesau bach am nifer y siopau gwag mewn trefi fel Aberdaugleddau ac Abergwaun, ac am effaith hyn ar eu busnesau eu hunain. Yn wir, mae Aberdaugleddau, ynghyd â Chaergybi, rwyf yn credu, yn ardal lle y mae nifer y siopau sydd wedi cau yn uwch na'r nifer yn unman arall ym Mhrydain.

Byddai newidiadau i'r system gynllunio yn helpu'r ymdrechion o ran adfywio mewn ardaloedd megis Aberdaugleddau ac Abergwaun yn sylweddol. Dylai'r bwriad o greu a chadw canol trefi bywiog gael ei gynnal drwy gydol y broses gynllunio a dylai, yn fy marn i, fod yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Rwyf yn siŵr bod y Gweinidog yn cytuno â mi bod cynllunio yn chwarae rhan bwysig wrth adfywio canol trefi, yn enwedig mewn ardaloedd fel Sir Benfro. Gobeithio, felly, y bydd y Gweinidog, yn ei ymateb i'r ddadl, yn amlinellu pa gymorth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru i fusnesau sy'n wynebu rhwystrau o fewn y system gynllunio, yn enwedig rhwng nawr a chyflwyno'r Bil cynllunio newydd, o gofio ei fod o leiaf ddwy flynedd i ffwrdd. Mae'n hanfodol bod ffactorau economaidd yn cael eu hystyried pan gaiff ceisiadau cynllunio eu hystyried, ac rwyf yn sicr yn derbyn y farn yn yr adroddiad gan Roger Tym a'i Bartneriaid, sy'n tynnu sylw at y ffaith bod canfyddiad, o dan amgylchiadau penodol, bod yr elfen economaidd o ddatblygu cynaliadwy wedi cael ei hanwybyddu yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae'n rhaid i'r system gynllunio ystyried yr holl ffactorau—economaidd, cymdeithasol a chynaliadwyedd—wrth ystyried ceisiadau cynllunio.

Yn fy etholaeth i, mae cynllun i Sainsbury's adeiladu siop newydd yn Hwlfordd. Mae'n addo hyd at 500 o swyddi pe câr cynnig ei gymeradwyo. Mae hynny'n sicr yn newyddion da i'm hetholaeth, ac i Hwlfordd yn benodol, o ystyried y posibilrwydd y bydd nifer uchel o swyddi llawn-amser a rhan-amser. Fodd bynnag, er y bydd y siop o fudd i gyflogaeth yn lleol, gobeithio y caiff ei

be located appropriately in Haverfordwest, because we must ensure that we continue to protect and enhance other businesses in our town centres. Creating a link between the new, large business and the town centre will be essential. If the new business draws more people into the town, it is hugely important that it should be located in the right place, in order to benefit smaller businesses in the town centre. It is essential, not only in this case, but in all cases, that new and established businesses should be allowed to work together to benefit the local area or town as a whole. For far too long, we have seen the planning system allowing out-of-town retail parks to develop at the expense of our town centres, and that must change. Of course, I am not against out-of-town retail parks, but we have seen them offer free parking to their customers, while car-parking charges have been imposed on town centres. We need a level playing field.

Finally, Deputy Presiding Officer, while we welcome the Welsh Government's latest commitment to establish an independent review, valuable time has already been lost. The point is that planning reform is needed now and I urge the Welsh Government to bring forward the Welsh planning Bill sooner than indicated in the legislative statement. I urge Members to support our amendments.

Alun Ffred Jones: Diolch am y cyfle i gyfrannu at y drafodaeth. Rwyf am ganolbwyntio ar un agwedd ar y maes cynllunio yn unig, sef y polisi cynllunio a datblygu economaidd. Rwyf am roi dau ddyfyniad o'r polisi presennol. Mae'r cyntaf yn dweud,

'Dylai'r system gynllunio fod yn effeithlon, yn effeithiol ac yn syml o ran ei gweithrediad.'

A'r ail ddyfyniad yw,

'Dylai awdurdodau cynllunio lleol gefnogi'r symud tuag at economi werdd'.

Mae'n debyg y byddem i gyd yn cytuno â'r ddau osodiad hynny. Fodd bynnag, y gwir

lleoli'n briodol yn Hwlfordd, gan fod yn rhaid inni sicrhau ein bod yn parhau i ddiogelu a gwella busnesau eraill yng nghanol ein trefi. Bydd creu cysylltiad rhwng y busnes mawr, newydd a chanol y dref yn hanfodol. Os bydd y busnes newydd yn denu mwy o bobl i mewn i'r dref, mae'n hynod bwysig ei fod yn cael ei roi yn y lle iawn, er mwyn bod o fudd i fusnesau llai yng nghanol y dref. Mae'n hanfodol, nid yn unig yn yr achos hwn, ond ym mhob achos, bod busnesau newydd a busnesau sefydledig yn cael eu galluogi i weithio gyda'i gilydd er lles yr ardal leol neu'r dref yn ei chyfanrwydd. Ers amser rhy faith, rydym wedi gweld y system gynllunio'n caniatáu i barciau manwerthu y tu allan i drefi ddatblygu ar draul canol ein trefi, a rhaid i hynny newid. Wrth gwrs, nid wyf yn erbyn parciau manwerthu y tu allan i drefi, ond rydym wedi eu gweld yn cynnig parcio am ddim i'w cwsmeriaid, a thaliadau parcio yn cael eu gorfodi yng nghanol trefi. Mae angen trin pawb yn yr un modd.

Yn olaf, Ddirprwy Lywydd, er ein bod yn croesawu ymrwymiad diweddaraf Llywodraeth Cymru i sefydlu adolygiad annibynnol, mae amser gwerthfawr eisoes wedi cael ei golli. Y pwynt yw bod angen diwygio'r broses gynllunio yn awr ac rwyf yn annog Llywodraeth Cymru i gyflwyno Bil cynllunio i Gymru yn gynt nag a nodir yn y datganiad deddfwriaethol. Rwyf yn annog yr Aelodau i gefnogi ein gwelliannau.

Alun Ffred Jones: Thank you for the opportunity to contribute to the debate. I want to focus on one aspect of planning, namely planning policy and economic development. I wish to quote two sentences from the current policy. The first says that,

'The planning system should be efficient, effective and simple in operation.'

The second states that,

'Local planning authorities should support the shift towards a green economy'

I assume that we would all agree with those two statements. However, truth be told,

